

# Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC 2022-23

Cyhoeddwyd 30 Tachwedd 2023

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ........ 3

2. Trawsnewid gwasanaethau'r BBC ........ 8

3. Perfformiad o ran y Dibenion Cyhoeddus ........ 22

4. Y BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau ........ 52

5. Diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol ........ 65

6. Safonau cynnwys ........ 76

7. Ein sylw yn y flwyddyn i ddod ........ 87

Atodiadau ........ 90

# 1. Trosolwg

Mae'n rhaid i'r BBC gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus ac, fel y nodir yn y Siarter Brenhinol, Bwrdd y BBC sy'n gyfrifol am bennu strategaeth y BBC. Ofcom sy'n gyfrifol am ddal y BBC i gyfrif am ddarparu ei gylch gwaith, ar ran cynulleidfaoedd. Rydym yn gwneud hyn mewn tair ffordd: goruchwylio perfformiad y BBC i sicrhau ei fod yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus; diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol; a rheoleiddio safonau cynnwys yn rhaglenni'r BBC. Bob blwyddyn, fel sy'n ofynnol gan Siarter a Chytundeb Fframwaith y BBC, rydym yn cyhoeddi adroddiad ar berfformiad y BBC yn y tri maes yma, a sut aethom ati i gyflawni ein rôl.

Dyma ein chweched Adroddiad Blynyddol ar y BBC. Mae'n adeiladu ar ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf i foderneiddio ein gwaith o reoleiddio'r BBC. Yn y prif adroddiad hwn, rydym yn crynhoi perfformiad y BBC ar draws holl feysydd ein gwaith rheoleiddio ym mlwyddyn ariannol 2022/23, wrth archwilio newidiadau mwy diweddar i wasanaethau'r BBC hefyd. Rydym yn seilio ein hasesiad ar ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys y data yn ein hadroddiad perfformiad rhyngweithiol, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Rydym hefyd yn cyhoeddi asesiad o gydymffurfiad y BBC â Thrwydded Weithredu'r BBC mewn grym yn ystod y cyfnod adrodd - gweler Atodiad 1: Cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol.

### Yn gyffredinol, mae'r BBC wedi perfformio'n dda ac wedi parhau i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus

Mae'r BBC yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys a newyddion o ansawdd uchel ar draws teledu, radio ac ar-lein. Mae ei wasanaethau'n cael eu defnyddio'n eang, gyda phedwar o bob pump (83%) oedolyn yn defnyddio'r BBC bob wythnos,[1] ac mae cynulleidfaoedd ledled y DU yn dal yn gadarnhaol ar y cyfan tuag at y BBC, gyda'r mwyafrif (60%) yn ei sgorio'n uchel.[2] Dros y cyfnod adrodd, daeth y BBC â'r genedl ynghyd gyda'i ddarllediadau o ddigwyddiadau, fel angladd EM y Frenhines Elizabeth II. Roedd cynulleidfaoedd ledled y DU wedi mwynhau digwyddiadau byw fel Cwpan y Byd Dynion FIFA a Gemau'r Gymanwlad. Roedd y BBC wedi denu cynulleidfaoedd mawr gyda chynnwys ar draws amrywiaeth o genres, gan gynnwys dramâu gwobredig fel *Happy Valley*, adloniant fel *The Traitors* a rhaglenni dogfen fel *Wild Isles*.

Mae'r BBC hefyd wedi ymateb i alwadau gan Ofcom a rhanddeiliaid ac mae wedi gwella tryloywder yn ei Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad Blynyddol.

### Rhaid i'r BBC barhau i herio a gofyn cwestiynau anodd iddo'i hun wrth iddo ymgorffori ei argymhellion o ran didueddrwydd

Mae tri chwarter (75%) oedolion y Deyrnas Unedig yn gadarnhaol ynghylch pwysigrwydd darpariaeth y BBC o '*newyddion a gwybodaeth i helpu pobl i ddeall beth sy'n digwydd yn y Deyrnas Unedig a'r byd'* i gymdeithas.[3] Y BBC yw'r lle mae cynulleidfaoedd yn troi ato o hyd pan fydd straeon mawr yn torri ac maen nhw'n credu ei fod yn ffynhonnell newyddion ddibynadwy a chywir. Fodd bynnag, mae rhai yn dal i fod ag amheuon ynghylch ei ddidueddrwydd, er bod canfyddiadau cynulleidfaoedd wedi aros yr un fath ers y llynedd[4].

---

[1] IPA TouchPoints ton 1 2023
[2] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2022/23
[3] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2022/23
[4] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2023

Yn ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf ar y BBC, fe wnaethom dynnu sylw at yr angen iddo barhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â chanfyddiadau cynulleidfaoedd ynghylch didueddrwydd. Mae ymrwymo i gryfhau didueddrwydd yn un o flaenoriaethau strategol y BBC. Mae wedi gweithredu holl argymhellion Adolygiad Serota drwy ei Gynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol. Mae'n parhau i herio ei hun ar ddidueddrwydd drwy ei adolygiadau thematig, ond mae'n bwysig bod unrhyw wersi a ddysgir yn cael eu defnyddio i wella allbwn y BBC. Mae'r BBC hefyd yn gweithio i gryfhau ymddiriedaeth cynulleidfaoedd yn ei ddarpariaeth newyddion drwy ddarparu mwy o dryloywder ynghylch sut mae'n adrodd y newyddion, gyda datblygiadau arloesol fel BBC Verify a nodi ei ddull gweithredu o ran Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol. Rydym wedi pwysleisio wrth y BBC y dylai gynnal y momentwm a adeiladwyd drwy Adolygiad Serota a'r Cynllun Gweithredu canlyniadol, ac rydym yn disgwyl i ddidueddrwydd barhau i fod yn flaenoriaeth uchel i'r BBC.

Byddwn yn parhau i fesur barn cynulleidfaoedd am ddidueddrwydd y BBC yn ofalus a byddwn yn ymgysylltu â'r BBC i helpu i sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar y maes gwaith hwn. Byddwn hefyd yn diweddaru ein hymchwil ein hunain ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o broses gwyno'r BBC, gan gynnwys cynnal rhagor o waith siopwr dirgel i fesur effeithiolrwydd y newidiadau diweddar mae'r BBC wedi'u gwneud.

## Mae cynulleidfaoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E yn dal yn llai bodlon â pherfformiad y BBC na'r rheini o grwpiau eraill

Rydym wedi cynnal adolygiad manwl, gan gynnwys ymchwil newydd gyda phobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E o bob rhan o'r DU, i ddeall pam y gallai hyn fod. Mae ein hadolygiad yn dangos bod pobl yn y grwpiau D ac E yn gwylio mwy o deledu nag unrhyw un arall a bod y BBC yn dal yn rhan bwysig o'u harlwy o ran y cyfryngau.[5] Er enghraifft, mae chwarter y rheini sy'n gwylio'r teledu yn gwylio cynnwys y BBC.[6]

Mae'n amlwg o'n canfyddiadau bod heriau sylweddol i'r BBC o ran cystadlu am sylw'r grwpiau cynulleidfa hyn, ond mae cyfleoedd hefyd, o ystyried bod llawer yn parhau i fwynhau rhaglenni'r BBC ac yn defnyddio ei wasanaethau ar ryw ffurf neu'i gilydd.

Dywedodd y bobl y buom yn siarad â nhw wrthym eu bod yn aml yn chwilio am ddihangfa a chwmnïaeth o'r hyn y maent yn ei wylio neu'n gwrando arno. Roedd llawer yn teimlo bod rhai o raglenni'r BBC yn rhy sych ac yn rhy ddifrifol o'i gymharu â gwasanaethau eraill. Dywedodd pobl y buom yn siarad â nhw eu bod eisiau i'r BBC gymryd mwy o risgiau wrth gynhyrchu cynnwys newydd ac arloesol.

Clywsom hefyd yn ein hymchwil fod cynulleidfaoedd yng ngrwpiau D ac E yn teimlo nad oedd cymhlethdod eu bywydau'n cael ei adlewyrchu yng nghynnwys y BBC, a phan oedd grwpiau D ac E yn cael eu cynrychioli, eu bod yn aml yn cael eu beirniadu neu eu bychanu. Fe wnaethon nhw ei gwneud yn glir bod angen i'r BBC wneud yn well o ran portreadu eu bywydau a'u cymunedau mewn ffordd ddilys.

[5] Cyfeirir yn aml at bobl o grwpiau D ac E fel pobl sydd â statws economaidd-gymdeithasol is, sy'n dod o aelwydydd incwm is neu o gefndiroedd dosbarth gweithiol. Maent yn fwy tebygol o fod yn hŷn, yn ddi-waith neu mewn gwaith heb sicrwydd, gydag anabledd, neu wedi ymddeol â phensiwn y wladwriaeth yn unig. Mae'r grwpiau hyn yn cynrychioli bron i chwarter poblogaeth y Deyrnas Unedig.
[6] Barb

Rydym yn gwybod bod y BBC yn cymryd camau i wella sut mae'n diwallu anghenion y cynulleidfaoedd hyn, ond bydd angen iddo ystyried pam mae llawer o'r negeseuon gan gynulleidfaoedd yn ein hymchwil yn dal i gael eu codi.

### Wrth i'r BBC drawsnewid, rhaid iddo barhau i wasanaethu pob cynulleidfa a rhoi mwy o eglurder iddynt ynghylch yr hyn y mae'n ei wneud a pham

Mae cynulleidfaoedd yn parhau i symud ar-lein, ac mae'r BBC yn addasu i ddiwallu eu hanghenion a'u disgwyliadau. Fodd bynnag, ar adeg o gyfyngiadau ariannol ar y BBC, mae hyn yn golygu ei fod yn gorfod gwneud dewisiadau anodd i leihau gwariant mewn rhai meysydd er mwyn ailfuddsoddi mewn gwasanaethau ar-lein. Dros gyfnod y Siarter sy'n weddill, rydym yn disgwyl y bydd y BBC yn gwneud rhagor o newidiadau i'w wasanaethau wrth iddo symud i fod yn sefydliad 'digidol yn gyntaf'. Wrth iddo wneud hynny, byddwn yn parhau i'w ddal i gyfrif am ddarparu ar gyfer pob cynulleidfa, gan gynnwys y rheini sy'n dibynnu ar wasanaethau darlledu traddodiadol.

Eleni, ail-lansiodd y BBC ei sianel Newyddion a dechreuodd gyflwyno newidiadau i radio'r BBC yn y gwledydd ac i'w radio lleol yn Lloegr. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon am y newidiadau hyn a'r hyn y gallent ei olygu i gynulleidfaoedd, sy'n dal i ddibynnu ar y gwasanaethau darlledu hyn. Mae nifer o'r pryderon cychwynnol a godwyd yn deillio o ddiffyg eglurder ynghylch manylion cynlluniau'r BBC. Mae amserlenni radio llawn a manylion rhannu gorsafoedd wedi cael eu cyhoeddi ers hynny.

Rydym yn parhau i adolygu effaith bosibl newidiadau i ddarpariaeth newyddion y BBC ar ei allu i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd. Mae'n ddyddiau cynnar i'r sianel sydd wedi'i hail-lansio, ond ein hasesiad cychwynnol yw nad yw'r newidiadau wedi cael effaith negyddol sylweddol, er byddwn yn parhau i fonitro hyn, gan gynnwys ffigurau gwylio'r sianel a'r defnydd o newyddion ar-lein. Yn yr un modd, ar gyfer radio lleol, byddwn yn monitro data gwrando ac yn adolygu gwybodaeth a ddarperir gan y BBC am orsafoedd penodol a nifer y cynnwys lleol. Ar gyfer y sianel Newyddion a radio lleol, byddwn yn parhau i ddal y BBC i gyfrif am ei ymrwymiadau i adolygu effeithiau ei newidiadau ar grwpiau penodol o gynulleidfaoedd.

Wrth i'r BBC barhau i drawsnewid ei wasanaethau, byddwn yn ei annog i gynnig esboniad mwy trylwyr i wylwyr a gwrandawyr am yr hyn mae'n ei wneud a pham, er mwyn helpu cynulleidfaoedd i ddeall y rhesymau dros y newidiadau.

### Mae angen i'r BBC barhau i ystyried yr effaith ar gystadleuaeth wrth iddo wneud newidiadau i'w wasanaethau

Yn gynharach eleni, fe wnaethom nodi ein barn lefel uchel nad oes disgwyl i newidiadau i BBC iPlayer a BBC Sounds gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth, tra bod newidiadau i wasanaethau teledu a radio a ddarlledir gan y BBC yn peri risg uwch o niweidio cystadleuaeth. Yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, rydym yn diweddaru ein dadansoddiad gyda'r data diweddaraf sydd ar gael. Ar sail y dystiolaeth hon, nid yw ein barn wedi newid.

Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon penodol ynghylch cynlluniau'r BBC i ddarparu mwy o newyddion lleol ar-lein. Byddwn yn edrych ar effaith bosibl newidiadau'r BBC ar ddarparwyr newyddion lleol ar-lein fel rhan o'n gwaith newydd dros y flwyddyn nesaf ar gyfryngau lleol.

# Y fframwaith rheoleiddio

## Rydym wedi newid ein rheoliadau i sicrhau eu bod yn addas i'r diben

Fel mae'r amgylchedd y mae'r BBC yn ei weithredu yn newid, rhaid i'r fframwaith rheoleiddio hefyd gadw i fyny ag ef. Ni ddylai ein gwaith rheoleiddio greu rhwystr i'r BBC drawsnewid a moderneiddio

ei wasanaethau i addasu i newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi rhoi Trwydded Weithredu newydd ar waith, lle mae gwasanaethau ar-lein y BBC yn dod yn rhan lawn o'r Drwydded, gan roi mwy o hyblygrwydd i'r BBC ymateb i anghenion cynulleidfaoedd a pharhau i'n galluogi i'w dal i gyfrif.

Rydym hefyd wedi ychwanegu gofynion newydd sy'n ymwneud â safonau golygyddol, i ddarparu llawer mwy o dryloywder am drefn BBC yn Gyntaf a sut mae'r BBC yn ystyried cystadleuaeth i wella tryloywder.[7]

### Mae'r llywodraeth yn edrych ar effeithiolrwydd llywodraethu a rheoleiddio'r BBC

Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cynnal yr Adolygiad Canol Tymor o'r BBC ar hyn o bryd. Mae hyn yn edrych ar effeithiolrwydd a rheoleiddio safonau golygyddol a didueddrwydd y BBC, y broses gwyno, a'i effaith ar y farchnad ac ar gystadleuaeth, ymysg pethau eraill. Rydym wedi bod yn cyfrannu at yr adolygiad hwn, gan gynnwys ein hadroddiad ym mis Mehefin 2022 ar reoleiddio'r BBC, a byddwn yn ceisio gweithredu unrhyw argymhellion o'r MTR fel mater o flaenoriaeth.

## Pwrpas y ddogfen hon

### Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC yn rhan o sut rydym yn ei ddal i gyfrif

O dan y Drwydded Weithredu newydd, mae bod yn ymwybodol o'r newidiadau mae'r BBC yn eu gwneud ac yn craffu ar y newidiadau hynny wrth iddyn nhw ddigwydd er mwyn i ni allu ymyrryd yn gyflym os oes angen, yn allweddol i'n dull rheoleiddio. Am y rheswm hwn, yn ogystal ag adrodd ar berfformiad y BBC ar gyfer 2022/23, rydym hefyd yn trafod newidiadau mwy diweddar mae'r BBC yn eu gwneud i'w wasanaethau a sut rydym yn ystyried effaith y rhain ar gynulleidfaoedd fel rhan o'n rhaglen fonitro.

Mae strwythur yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- **Trawsnewid gwasanaethau'r BBC** – Mae'r bennod hon yn trafod y newidiadau y mae'r BBC yn eu gwneud o ganlyniad i fabwysiadu strategaethau newydd. Mae'n nodi tystiolaeth gychwynnol ar gyfer effaith y newidiadau hyn ar gynulleidfaoedd ac yn edrych ar sut byddwn yn parhau i fonitro eu heffaith yn y dyfodol.
- **Perfformiad yn erbyn y Dibenion Cyhoeddus** – Rydym yn nodi ein hasesiad o berfformiad y BBC o dan y Dibenion Cyhoeddus yn erbyn y fframwaith mesur perfformiad.
- **Y BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau** – Yn y tudalennau hyn rydym yn nodi sut mae'r BBC wedi darparu ar gyfer cynulleidfaoedd ym mhob un o'r pedair gwlad yn ogystal â phwyntiau data allweddol ar berfformiad y BBC. Mae hyn yn wahanol i'n hasesiad o berfformiad y BBC o dan Ddiben Cyhoeddus 4.
- **Diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol** – Mae'r bennod hon yn egluro sut rydym wedi rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth.

[7] O dan system BBC yn Gyntaf, gall y BBC, yn wahanol i ddarlledwyr eraill, ddatrys cwynion gan gynulleidfaoedd cyn y gellir eu huwchgyfeirio i Ofcom. Rydym yn rhoi mwy o fanylion yn adran 6.

- **Safonau cynnwys** – Mae’r bennod hon yn nodi perfformiad system BBC yn Gyntaf yn 2022/23, goruchwyliaeth strategol Ofcom o orfodaeth y BBC, a’r cynnydd mae’r BBC wedi’i wneud o ran delio â chwynion.
- **Ein ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod** – Mae’r adran hon yn edrych ymlaen at sut rydym yn monitro perfformiad y BBC o dan y Drwydded Weithredu newydd, gan gynnwys yn y meysydd newydd o natur unigryw a hwylustod canfod ar-lein.

# 2. Trawsnewid gwasanaethau'r BBC

## Cyflwyniad

Wrth i arferion cynulleidfaoedd barhau i newid, mae'r BBC yn gorfod trawsnewid yn gyflym ac mae'n addasu ei wasanaethau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd sydd eisiau gwylio, gwrando a defnyddio ei wasanaethau ar-lein. Ar yr un pryd, mae angen iddo ddarparu ar gyfer y nifer o bobl sydd eisiau parhau i fwynhau rhaglenni ar wasanaethau radio a theledu sy'n cael eu darlledu'n draddodiadol hefyd. Er mwyn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, mae'n rhaid i'r BBC gyflawni ar gyfer pob cynulleidfa a sicrhau ei fod yn adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn gwasanaethu pob rhan o'r Deyrnas Unedig. Mae angen iddo wneud hyn i gyd ar adeg pan mae'n wynebu pwysau ariannol sylweddol.

Mae'r BBC wedi bod yn ymateb i'r heriau hyn. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd ei gynllun Across the UK, lle mae'r BBC yn bwriadu symud swyddi, buddsoddiad a phenderfyniadau allan o Lundain ac i wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Y llynedd, cyflwynodd ei gynlluniau ar gyfer BBC sy'n rhoi blaenoriaeth i ddigidol. Mae hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, symud adnoddau sy'n cael eu neilltuo ar hyn o bryd i allbwn darlledu lleol tuag at gynnwys ar-lein, yn ogystal â gwneud arbedion mewn newyddion darlledu, arian a fydd yn cael ei ail-fuddsoddi mewn newyddion fideo a digidol.

Nid rôl Ofcom yw pennu strategaethau, cyllidebau na chylch gwaith creadigol y BBC (gan gynnwys cyfeiriad allbwn a gwasanaethau golygyddol a chreadigol y BBC). Bwrdd y BBC sy'n gyfrifol am hyn. Fodd bynnag, ein rôl ni yw dal y BBC i gyfrif gan ddefnyddio'r adnoddau sydd wedi eu nodi yn ein Fframwaith Gweithredu. Mae hyn yn cynnwys gosod amodau ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y Deyrnas Unedig drwy Drwydded Weithredu ac archwilio perfformiad y BBC o ran cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus. Mae'r olaf yn cynnwys monitro ac asesu sut mae newidiadau'r BBC yn effeithio ar gynulleidfaoedd a'r sector creadigol.

Dyma'r flwyddyn olaf y byddwn yn asesu perfformiad y BBC o dan y Drwydded Weithredu wreiddiol ac o'r flwyddyn nesaf ymlaen, byddwn yn asesu perfformiad o ran ei Drwydded newydd. Mae'r Drwydded newydd hon yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ar draws ei wasanaethau. Gan hynny, mae'n bwysig ein bod yn monitro newidiadau a pherfformiad y BBC yn ofalus er mwyn i ni allu ymyrryd yn gyflym os bydd angen. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau allweddol mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol, hyd yn oed os yw'r newidiadau hyn yn dal i gael eu rhoi ar waith.

Yn yr adran hon rydym yn canolbwyntio ar dri maes lle mae'r BBC yn gwneud y newidiadau mwyaf nodedig ar hyn o bryd. Rydym yn nodi'r dystiolaeth sydd ar gael o'u heffeithiau ar gynulleidfaoedd, yn ogystal â sut byddwn yn parhau i'w monitro yn y dyfodol:

- newyddion a materion cyfoes;
- radio lleol a gwasanaethau lleol ar-lein; a
- chomisiynu yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

# Newyddion a materion cyfoes

Mae'r adran hon yn edrych ar newidiadau mae'r BBC wedi eu gwneud i newyddion a materion cyfoes, gan gynnwys sianel BBC News a gweithredu newidiadau i'w ddull gweithredu o ran safonau golygyddol yn dilyn Adolygiad Serota.

## Mae'r BBC wedi ail-lansio ei sianel Newyddion ac wedi cyhoeddi rhagor o newidiadau


Yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC y llynedd, fe wnaethom dynnu sylw at rai o'r newidiadau roedd y BBC yn bwriadu eu gwneud i'w ddarpariaeth newyddion. Roedd hyn yn cynnwys sianeli BBC News a World News yn bennaf, a ail-lansiwyd fel un sianel ym mis Ebrill eleni. Roedd gennym ni a rhanddeiliaid bryderon ynghylch sut byddai'r sianel Newyddion yn parhau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig. Ym mis Awst 2022 fe wnaethom gyhoeddi cyhoeddiad byr ar y newid arfaethedig yn egluro ein rôl a sut byddem yn ymyrryd pe bai unrhyw bryder yn codi. Yn ogystal, fe wnaethom amlinellu ein pryderon mewn llythyr at y BBC ym mis Chwefror 2023. Y rhain oedd:

- a allai'r newidiadau gael effaith niweidiol ar rai grwpiau cynulleidfa sy'n defnyddio BBC News yn anghymesur;
- a yw'n bosibl na fydd cynnwys a straeon y Deyrnas Unedig yn cael sylw gan sianel BBC News mwyach; a
- sut byddai'r BBC yn sicrhau ansawdd y gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig yn unig.

Gan hynny, rydym wedi dadansoddi data'r diwydiant i ddeall a yw ail-lansio sianel BBC News wedi effeithio ar lefelau gwylio.

Roedd ein dadansoddiad yn edrych ar y misoedd cyn y newid a'r misoedd ar ôl hynny. Er bod y data'n dangos gostyngiad o un flwyddyn i'r llall yn lefelau gwylio'r sianel hon, mae patrymau gwylio dros y cyfnod hwn yn cyd-fynd â thueddiadau tymhorol y blynyddoedd blaenorol. Maent hefyd yn cyd-fynd â'r gostyngiad mewn ffigurau gwylio ar sianeli tebyg, fel Sky News, yn ogystal â'r gostyngiad mwy cyffredinol mewn gwylio newyddion sy'n cael ei ddarlledu wrth i arferion gwylio cynulleidfaoedd newid.

**Ffigur 1: Sianel BBC News – cynulleidfa ddyddiol gyfartalog ar draws y flwyddyn: 2021 – 2023**



*Ffynhonnell: Ffigurau gwylio wedi eu cydgrynhoi 28 diwrnod BARB. Cynulleidfa ddyddiol ar gyfartaledd fesul wythnos. Oedolion 16+*

Mae'n ddyddiau cynnar i'r sianel sydd wedi ei hail-lansio ac nid oes tystiolaeth hyd yma bod y newidiadau mae'r BBC wedi eu gwneud wedi effeithio ar gynulleidfaoedd dyddiol cyfartalog. Fodd bynnag, yn ein trafodaethau gyda'r BBC, nododd fod gostyngiad wedi bod yn nifer y cynulleidfaoedd ar draws slotiau amser penodol. Mae'r BBC eisoes wedi cyflwyno newidiadau rhaglennu sy'n ceisio mynd i'r afael â hyn. Dywedodd wrthym hefyd nad yw proffil demograffig y gynulleidfa wedi newid yn sylweddol ar ôl lansio'r sianel newydd, ar draws oedran, rhywedd, grŵp economaidd-gymdeithasol ac ethnigrwydd.

Mae'r BBC hefyd yn arloesi o ran sut mae'n darparu newyddion – yn enwedig newyddion ar-lein – er enghraifft gyda BBC Verify, a lansiwyd ym mis Mai eleni. Mae hyn yn rhan o waith ehangach gan y BBC i ddarparu mwy o dryloywder ynghylch sut mae'n adrodd ar y newyddion er mwyn ei helpu i gynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd yn ei allbwn newyddion. Mae'r gwasanaeth yn rhoi mwy o amlygrwydd i sut mae'r BBC yn gwirio ac yn dilysu straeon. Enghraifft o newyddiaduraeth gan BBC Verify ers ei lansio yw dadansoddiad o fideo i werthuso cynnydd gwrthymosodiad Wcráin yn erbyn Rwsia yn 2023. Mae gan y gwasanaeth hwn y potensial i chwarae rhan bwysig yn narpariaeth newyddion y BBC yn y dyfodol, yn enwedig yng ngoleuni her gynyddol camwybodaeth a thwyllwybodaeth ar-lein, gan gynnwys delweddau ffug a sain sy'n cael eu cynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial.

Ochr yn ochr â'r newid i'r sianel Newyddion a lansio BBC Verify, rydym yn deall bod y BBC yn bwriadu gwneud rhagor o newidiadau i'w ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes a byddwn yn ymgysylltu ag ef ynghylch y newidiadau hyn.

Mae hyn yn dilyn penderfyniad y BBC – a drafodwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC y llynedd – i wneud newidiadau i raglenni materion cyfoes rhanbarthol Lloegr ac i beidio ag adnewyddu'r gyfres materion cyfoes *We Are England* ond ei disodli gyda thimau rhanbarthol o newyddiadurwyr ymchwiliol. Mae'r cynlluniau hyn yn dal i gael eu rhoi ar waith. Mae'r newidiadau hyn yn rhan o newid ehangach yn y ffordd mae'r BBC yn bwriadu darparu materion cyfoes ymchwiliol, a byddwn yn cadw golwg fanwl ar y materion cyfoes mae'n eu darparu i gynulleidfaoedd. Byddwn hefyd yn ceisio deall gan y BBC beth yw effeithiau'r newidiadau hyn ar gynulleidfaoedd a byddwn yn dychwelyd at y pwnc hwn yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC y flwyddyn nesaf.



## Mae'r BBC wedi rhoi newidiadau ar waith i fynd i'r afael â phryderon ynghylch ei ddidueddrwydd

Mae didueddrwydd dyladwy wedi bod yn broblem mewn nifer o'n Hadroddiadau Blynyddol blaenorol ar y BBC. Mae'r BBC wedi gwneud nifer o newidiadau i fynd i'r afael â phryderon cynulleidfaoedd yn y maes hwn. Yn yr adran hon, rydym yn pwyso a mesur y newidiadau mae'r BBC wedi eu gwneud ac yn nodi sut mae cynulleidfaoedd yn gweld didueddrwydd y BBC ar hyn o bryd.

Mae'r BBC wedi dweud wrthym (ac wedi nodi yn ei Adroddiad Blynyddol eleni) ei fod bellach wedi gweithredu holl argymhellion Adolygiad Serota. Mae hefyd wedi gweithredu'r holl amcanion o'i Gynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol.[8]

**Cynnydd y mae'r BBC wedi ei wneud ar Adolygiad Serota a'i Gynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol**

- **Adolygiadau thematig** sy'n canolbwyntio ar allbwn y BBC mewn meysydd allweddol o drafodaeth gyhoeddus – Fel rhan o'r broses hon, mae'r BBC yn adolygu'r holl gwynion gan gynulleidfaoedd y mae wedi eu cael ar bwnc penodol ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol allweddol ac arbenigwyr pwnc, gan gynnwys achwynwyr uchel eu proffil, i sicrhau bod amrywiaeth o safbwyntiau'n cael eu hadlewyrchu.[9] Mae hyn yn helpu'r BBC i nodi amrywiaeth o bryderon a allai roi ei ddidueddrwydd mewn perygl. Wedi ei gomisiynu gan y BBC a'i gynnal yn annibynnol, roedd yr adolygiad cyntaf yn ystyried a yw didueddrwydd dyladwy yn cael ei gyflawni ar draws deunydd y BBC ar drethiant, gwariant cyhoeddus, benthyca gan y llywodraeth a dyled. Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod wedi cadw awduron yr adroddiad i barhau i weithio gyda'r BBC er mwyn helpu i weithredu'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad hwn.[10] Mae'r BBC yn ceisio cynnal dau adolygiad y flwyddyn ac mae wedi dechrau ei ail adolygiad thematig, a fydd yn canolbwyntio ar allbwn y BBC a didueddrwydd ynghylch mudo.
- **Adolygiadau mewnol** i asesu i ba raddau mae cynnwys y BBC yn bodloni safonau golygyddol mewn cynnwys newyddion a materion cyfoes allweddol – Mae'r BBC wedi cwblhau ei bump adolygiad cyntaf (o *BBC Breakfast*, *Countryfile*, a'r rhaglenni newyddion boreol Saesneg yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon) ac wedi rhannu'r hyn a ddysgwyd yn fewnol i wella ei allbwn.[11] [12] Rydym yn deall bod yr adolygiadau mewnol hyn wedi eu cynllunio i helpu arweinwyr a thimau'r BBC i ystyried pob agwedd ar ddidueddrwydd dyladwy yn eu prosesau creadigol ar draws gwahanol raglenni a llinynnau.[13]
- **Canllawiau newydd ar gyfer gweithwyr llawrydd ar y cyfryngau cymdeithasol** – Lansiodd y BBC adolygiad o'i ganllawiau ar y cyfryngau cymdeithasol yn dilyn materion a godwyd ar ôl trydariad gan Gary Lineker, cyflwynydd llawrydd ar gyfer y BBC, ynghylch polisi'r Llywodraeth ar fewnfudo. Ym mis Medi, cyhoeddodd y BBC ganllawiau newydd sy'n nodi bod gan y rhai sy'n cyflwyno rhaglenni blaenllaw ar y BBC gyfrifoldeb penodol i barchu didueddrwydd y BBC oherwydd eu proffil uchel.

[8] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23', t. 123.
[9] Cyfarfod Ofcom gyda thîm Polisi a Safonau Golygyddol y BBC ar 31 Gorffennaf 2023.
[10] Cyfarfod Ofcom gyda thîm Polisi a Safonau Golygyddol y BBC ar 31 Gorffennaf 2023.
[11] Yn wahanol i adolygiadau thematig, ni fwriadwyd i'r adolygiadau hyn gael eu cyhoeddi.
[12] Cyfarfod Ofcom gyda thîm Polisi a Safonau Golygyddol y BBC ar 31 Gorffennaf 2023.
[13] Cynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol y BBC, t. 3.

• **Cwynion chwythu'r chwiban** – Diwygiodd y BBC ei Bolisi Chwythu'r Chwiban ym mis Gorffennaf 2022 ac mae bellach yn ymestyn i gwynion chwythu'r chwiban ynghylch "camymarfer golygyddol difrifol". Mae'r BBC yn rhoi diweddariadau rheolaidd i Ofcom ar weithredu'r polisi hwn, gan gynnwys bod y BBC wedi agor llinell gymorth chwythu'r chwiban annibynnol i alluogi staff i roi gwybod am bryderon.[14]

• **Ymchwiliadau golygyddol ar eu liwt eu hunain a chwynion golygyddol llwybr carlam** – Ym mis Gorffennaf 2022 cyhoeddodd y BBC weithdrefnau ar gyfer ymchwiliadau golygyddol ar eu liwt eu hunain ac ar gyfer sut mae'r BBC yn delio â chwynion golygyddol llwybr carlam am gynnwys sydd wedi ei ddarlledu neu wedi ei gyhoeddi. Ar fater cysylltiedig, yn dilyn ein hargymhelliad yn ein hadroddiad ym mis Mehefin 2022 i'r BBC roi gwybod i ni ar gam cynnar o dorri rheolau golygyddol difrifol posibl, mae'r BBC wedi gwneud hynny ddwywaith. Rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhain yn Adran 5. Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r BBC i sefydlu protocol ar gyfer cyfathrebu rhwng Ofcom a'r BBC ar y materion hyn.

• **Mae rôl y Cyfarwyddwr Cyffredinol ym mhroses gwynion y BBC** bellach wedi ei nodi yn Fframwaith Cwynion y BBC er mwyn ei gwneud yn glir bod gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol ddisgresiwn i ddiystyru canfyddiadau Uned Cwynion Gweithredol y BBC[15] neu i ohirio ei ymchwiliadau.

Yn ogystal â'r camau gweithredu uchod, mae gan y BBC hefyd fetrigau risg allweddol[16] i fonitro didueddrwydd gan gynnwys arolwg tracio didueddrwydd parhaus a lefelau cwblhau hyfforddiant didueddrwydd ar gyfer gweithwyr y BBC.[17] Bydd Pwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol y BBC (EGSC) yn parhau i fonitro cynnydd y camau a gymerwyd i weithredu argymhellion Serota.[18] Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Ofcom wedi meithrin perthynas agosach â'r EGSC ac mae'n mynd i'w gyfarfodydd pwyllgor ddwywaith y flwyddyn. Rydym yn croesawu'r cynnydd sylweddol mae'r BBC wedi ei wneud yn y maes hwn.

Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddarpariaeth newyddion ddiduedd y BBC yn dal yn is na chanfyddiadau o'i ddibynadwyedd a'i gywirdeb – mae'r agweddau hyn wedi aros yn sefydlog dros amser. Rydym hefyd yn canfod yn gyson bod gwylwyr ffynonellau newyddion teledu eraill, yn enwedig y sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus (fel Sky News neu CNN), yn tueddu i roi sgôr uwch i newyddion ar y sianeli hynny am ddidueddrwydd na gwylwyr newyddion teledu'r BBC. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod cyrhaeddiad teledu'r BBC yn llawer uwch ac yn ehangach na'r sianeli hyn ac, yn gyffredinol, mae bron i hanner y rhai sy'n gwylio *unrhyw* newyddion teledu yn meddwl bod y BBC yn ddiduedd.

Canfu ein gwaith ymchwil ym mis Mehefin 2022 ar yr hyn sy'n cymell canfyddiadau o ddidueddrwydd dyladwy'r BBC fod agweddau cynulleidfaoedd yn dal i gael eu sbarduno gan nifer o ffactorau, llawer ohonynt nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC. Rydym felly'n cydnabod bod newid canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy'r BBC yn broses gymhleth. Er mwyn cynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd,

---

[14] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23', t 60.
[15] Mae gan yr Uned Cwynion Gweithredol gyfrifoldeb i ystyried cwynion yn ddiduedd ac yn annibynnol ar fuddiannau gwneuthurwyr rhaglenni/darparwyr cynnwys y BBC.
[16] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23', t. 114.
[17] Dywedodd y BBC fod naw deg saith y cant o staff wedi cwblhau hyfforddiant didueddrwydd pwrpasol ers mis Ionawr 2021 a bod yr hyfforddiant hwn hefyd wedi cael ei gynnig i weithwyr ar eu liwt eu hunain.
[18] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23', t. 123.

mae ffocws ar ddidueddrwydd yn hanfodol ac mae'n bwysig bod y BBC yn parhau i ganolbwyntio ar y maes gwaith hwn.

### Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC ynghylch newyddion a materion cyfoes, yn ogystal â didueddrwydd

Rydym yn bwriadu parhau i asesu effaith bosibl newidiadau i wasanaethau newyddion a materion cyfoes y BBC ar gynulleidfaoedd. Byddwn yn rhoi sylw neilltuol i weld a fu unrhyw effaith ar niferoedd cynulleidfaoedd gan gynnwys demograffeg penodol dros gyfnod hirach nag yr ydym wedi gallu edrych arno yn yr adroddiad eleni. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â'r BBC ymhellach i ddeall a oes newidiadau i ganfyddiadau cynulleidfaoedd o'r News Channel ac yn dychwelyd at y pwnc y flwyddyn nesaf.

Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â'r BBC ac yn monitro canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd. Rydym wedi darparu ein hystyriaethau cychwynnol uchod ond, o ystyried cymhlethdod agweddau at ddidueddrwydd, mae'n debygol y bydd yn cymryd rhywfaint o amser i effaith lawn y newidiadau a wnaed yn dilyn Adolygiad Serota ac, o dan ei Gynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol, i gael effaith ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, rydym wedi pwysleisio wrth y BBC y dylai gynnal y momentwm a adeiladwyd drwy Adolygiad Serota a'r Cynllun Gweithredu canlyniadol, ac rydym yn disgwyl i ddidueddrwydd barhau i fod yn flaenoriaeth uchel i'r BBC. Mae cyfle hefyd i'r BBC godi ymwybyddiaeth o'r gwaith cadarnhaol mae'n ei wneud yn y maes hwn, fel ei adolygiadau thematig – er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i'r rhain effeithio ar y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

Byddwn yn diweddaru ein hymchwil ein hunain ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy'r BBC cyn diwedd cyfnod presennol y Siarter. Ar ben hynny, yn y tymor byrrach, rydym yn bwriadu cynnal rhagor o ymchwil siopwr dirgel ar broses gwynion y BBC i fesur effeithiolrwydd y newidiadau diweddar mae'r BBC wedi eu gwneud i'r broses a byddwn yn adrodd ar ganlyniadau'r gwaith ymchwil hwn y flwyddyn nesaf.

Rydym yn dychwelyd at fater didueddrwydd yng nghyd-destun ein hasesiad o berfformiad y BBC o dan Ddiben Cyhoeddus 1 yn Adran 3.

## Radio lleol a gwasanaethau lleol ar-lein

Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb ffeithiol o'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd i wasanaethau lleol y BBC, yn enwedig radio lleol yn Lloegr. Mae'n nodi sut byddwn yn monitro effaith y newidiadau hyn ar gyrhaeddiad y gorsafoedd hyn ac yn ymgysylltu â'r BBC i sicrhau, wrth ganolbwyntio ar ei wasanaethau ar-lein lleol, ei fod yn parhau i ddarparu cynnwys lleol pwysig i'r cynulleidfaoedd hynny sy'n ddibynnol ar ei wasanaethau darlledu.

### Mae cynlluniau'r BBC i foderneiddio gwasanaethau lleol wedi golygu symud buddsoddiad o ddarlledu i fod ar-lein

Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd y BBC gynlluniau i foderneiddio ei wasanaethau lleol drwy leihau gwariant ar ei wasanaethau darlledu lleol ac ailfuddsoddi hyn mewn cynnwys ar-lein. Yn ogystal â chynlluniau ehangach ar gyfer adeiladu rhwydwaith newydd o newyddiadurwyr ymchwiliol ledled y Deyrnas Unedig, mae'r BBC yn dweud y bydd y newidiadau hyn yn ategu'r gwaith o ehangu darpariaeth newyddion a sain ar-lein lleol y BBC. Mae'n lansio gwasanaethau ar-lein pwrpasol newydd yn Bradford, Wolverhampton, Sunderland a Peterborough eleni ac yn creu rolau newydd ar

draws y 39 o ganolfannau lleol i gynhyrchu cynnwys sain ar-alw ar gyfer BBC Sounds. Fel rhan o'r newidiadau hyn, mae'r BBC hefyd yn nodi cynlluniau i newid ei allbwn radio lleol yn Lloegr.

## Newidiadau i radio lleol yn Lloegr

Mae gan y BBC 39 o orsafoedd radio lleol llawn amser yn Lloegr. Mae'r amserlenni ar draws y gorsafoedd hyn yn amrywio, gyda rhai rhaglenni'n cwmpasu ardal ddarlledu un orsaf yn unig a rhai'n cael eu rhannu ar draws ardaloedd cyfagos. Yn ôl RAJAR, yn ystod y deuddeg mis hyd at Ch1 2023, roedd gwasanaethau radio lleol yn Lloegr yn cyrraedd 5.2 miliwn o oedolion 15 oed a hŷn ar gyfartaledd bob wythnos.[19] Cyhoeddodd y BBC newidiadau arfaethedig i'w wasanaethau radio lleol yn Lloegr ym mis Hydref 2022. Dywedodd er y bydd rhai agweddau ar wasanaethau fel bwletinau newyddion lleol a rhaglenni chwaraeon byw yn cael eu cadw, y bydd newidiadau eraill yn cael mwy o effaith ar amserlenni radio lleol, gyda mwy o rannu rhaglenni gyda'r nos ac ar benwythnosau pan fydd cyrhaeddiad cynulleidfaoedd yn tueddu i fod yn is.

Dechreuodd y BBC gyflwyno newidiadau i radio lleol fesul cam o fis Medi 2023 ymlaen, ac mae'n disgwyl cwblhau hyn ym mis Ionawr 2024. Mae wedi bod yn cyhoeddi gwybodaeth am y newidiadau a'r amserlenni newydd wrth iddynt gael eu lansio. Cyn cyflwyno'r newidiadau, nid oedd yn glir i randdeiliaid a chynulleidfaoedd beth fyddent yn ei olygu'n ymarferol ar gyfer amserlenni gorsafoedd unigol. Gan hynny, mae'r tabl isod yn crynhoi'r amserlen gyffredinol ar draws y gorsafoedd radio lleol yn Lloegr.

[19] RAJAR yw corff y diwydiant sy'n gyfrifol am fesur cynulleidfaoedd radio.

### Ffigur 2: Trosolwg o'r amserlen ar draws gorsafoedd radio lleol y BBC yn Lloegr (ar ôl y newidiadau)[20]

*Mae'r BBC wedi dweud y bydd yr holl fwletinau newyddion lleol a rhaglenni chwaraeon byw yn dal i gael eu darlledu'n lleol drwy gydol yr wythnos, gan gynnwys bwletinau newyddion drwy gydol y dydd.*

<table>
<tr><th>Amser/Diwrnod</th><th>Dydd Llun</th><th>Dydd Mawrth</th><th>Dydd Mercher</th><th>Dydd Iau</th><th>Dydd Gwener</th><th>Dydd Sadwrn</th><th>Dydd Sul</th></tr>
<tr><td>6am i 10am</td><td colspan="5" rowspan="2">39 sioe ar draws 39 gorsaf:<br>Yn ystod yr wythnos rhwng 6am a 2pm bydd cynulleidfaoedd yn parhau i dderbyn rhaglenni lleol</td><td colspan="2">13 sioe<br>wedi eu rhannu ar draws 39 gorsaf:<br>Ar benwythnosau rhwng 6am a 10am<br>bydd tair ar ddeg o sioeau<br>yn cael eu rhannu ar draws Lloegr</td></tr>
<tr><td>10am i 2pm</td><td colspan="2">18 sioe<br>wedi eu rhannu ar draws 39 gorsaf:<br>Ar benwythnosau rhwng 2pm a 6pm<br>bydd deunaw sioe<br>yn cael eu rhannu ar draws Lloegr</td></tr>
<tr><td>2pm i 6pm</td><td colspan="5">20 sioe wedi eu rhannu ar draws 39 gorsaf:<br>Yn ystod yr wythnos rhwng 2pm a 6pm bydd<br>20 o raglenni prynhawn ledled Lloegr,<br>gyda nifer o orsafoedd lleol yn rhannu rhaglenni.</td><td>37 sioe<br>wedi eu rhannu ar draws<br>39 gorsaf</td><td>14 sioe<br>wedi eu rhannu ar draws<br>39 gorsaf</td></tr>
<tr><td>6pm i 10pm</td><td>10 sioe<br>wedi eu rhannu ar draws<br>39 gorsaf</td><td>Bydd yr amserlen yn amrywio:<br>7 sioe wedi eu rhannu ar draws 39 o orsafoedd (a blaenoriaethu chwaraeon lleol)</td><td>Bydd yr amserlen yn amrywio:<br>7 sioe wedi eu rhannu ar draws 39 o orsafoedd (a blaenoriaethu chwaraeon lleol)</td><td>20 o sioeau BBC Introducing a 10 o sioeau BBC Upload wedi eu rhannu ar draws 39 o orsafoedd (sioeau sy'n rhoi blaenoriaeth i ddoniau lleol sy'n dod i'r amlwg)</td><td>10 sioe<br>wedi eu rhannu ar draws 39 gorsaf</td><td>20 sioe<br>yn cael eu rhannu ar draws<br>39 gorsaf<br>(Gan gynnwys ailddarllediadau o BBC Upload a BBC Introducing)</td><td>Un sioe 'Lloegr gyfan'<br>ar draws 39 gorsaf</td></tr>
<tr><td>Ar ôl 10pm</td><td colspan="7">Sioe genedlaethol 'Lloegr gyfan' ar draws 39 o orsafoedd:<br>Ar ôl 10pm gyda'r nos yn ystod yr wythnos ac ar nos Sul, bydd rhaglen ar gyfer Lloegr gyfan yn cael ei lansio</td></tr>
</table>

[20] Mae'r BBC wedi ymrwymo i ddiogelu bwletinau newyddion lleol yn ystod y dydd ar bob gorsaf radio leol yn Lloegr. Mae hefyd wedi dweud wrthym y bydd llawer o orsafoedd ar brynhawniau Sadwrn yn cynnig mwy nag un sylwebaeth drwy rannu amleddau gan fod sawl ardal yn cynnwys nifer o glybiau pêl-droed neu rygbi proffesiynol, ac ar nosweithiau Mawrth a Mercher bydd llawer o orsafoedd lleol yn dewis chwaraeon lleol – fel arfer unwaith yr wythnos yn ystod y tymor pêl-droed.

| Allwedd | Rhaglenni lleol ar draws pob un o'r 39 gorsaf | 13 neu fwy o sioeau wedi eu rhannu ar draws 39 gorsaf |
|---|---|---|
| | Rhaglenni 'Lloegr gyfan' | Llai na 13 o sioeau wedi eu rhannu ar draws 39 gorsaf |

### Newidiadau i radio'r gwledydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon

Er bod gan y rhan fwyaf o'r newidiadau i radio lleol y potensial i effeithio ar gynulleidfaoedd yn Lloegr, gall newidiadau arfaethedig a phosibl eraill effeithio ar gynulleidfaoedd yn y gwledydd eraill.

- Cyhoeddodd y BBC newidiadau amrywiol i BBC Radio Ulster/Foyle dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ddisodli'r ddwy raglen newyddion frecwast â'r rhaglen hanner awr *North West Today*. Fe wnaethom asesu'r newidiadau hyn yn ein datganiad ar *Foderneiddio' Trwydded Weithredu'r BBC* a chafodd y newidiadau eu rhoi ar waith ym mis Ebrill 2023. Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd y byddai'n ymestyn *North West Today* i un awr, gan ddechrau o fis Ionawr 2024.
- Yn 2022/23, cyhoeddodd y BBC y byddai'n datgomisiynu dwy raglen BBC Radio Scotland – *Jazz Nights* a *Classics Unwrapped* – ac yn gwneud rhai newidiadau i'r gwaith o gynhyrchu ei raglenni cerddoriaeth bib. Er mai'r BBC sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar raglenni penodol, fe wnaethom ystyried yr effaith bosibl ehangach ar ddarpariaeth y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd yn ein *datganiad ar Foderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC*.
- Ni wnaed newidiadau i BBC Radio Wales yn ystod cyfnod adrodd 2022/23, er bod y BBC yn ddiweddar wedi lansio 'gwasanaeth optio allan' radio ychwanegol sy'n darparu newyddion lleol yng ngogledd Cymru.[21] Mae'r BBC hefyd yn cynnig ymestyn nifer yr oriau gwreiddiol Cymraeg a ddarlledir ar BBC Radio Cymru 2 o 25 awr i 61.5 awr yr wythnos. Gan fod hwn yn newid sylweddol, mae'n destun asesiad cystadleuaeth gan Ofcom, sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

## Rydym yn monitro effaith moderneiddio gwasanaethau lleol y BBC ar y gynulleidfa

Mae cyhoeddiad y BBC am newidiadau i radio lleol wedi cael cryn feirniadaeth gyhoeddus. Fel y nodwyd uchod, mae penderfyniadau golygyddol, cyllidebol a chreadigol (gan gynnwys penderfyniadau am gyflwynwyr) yn faterion i Fwrdd y BBC, felly rydym yn canolbwyntio ar newidiadau a allai effeithio ar allu'r BBC i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd o dan y Drwydded Weithredu.

Fe wnaethom graffu ar y cynlluniau ac ysgrifennu at y BBC ym mis Chwefror 2023 yn tynnu sylw at ein pryderon ac yn amlinellu ein dadansoddiad o'u heffeithiau posibl ac ymrwymiad y BBC i gadw meysydd allweddol o allbwn lleol. Ers hynny, rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r BBC ac rydym wedi bod yn datblygu dealltwriaeth agosach o'i ddull o rannu rhaglenni rhwng gorsafoedd ac oriau cynnwys lleol. Rydym yn egluro isod y camau pellach rydym yn eu cymryd mewn perthynas â newidiadau i radio lleol a newyddion lleol y BBC.

[21] Gwasanaeth optio allan yw amrywiad cenedlaethol neu ranbarthol ar un o sianeli'r BBC (er enghraifft, BBC Two Wales).

Wrth i'r BBC barhau i gyflwyno'r amserlenni newydd, byddwn yn parhau i fonitro effaith y newidiadau ar gynulleidfaoedd sy'n ystyried amrywiaeth o ffynonellau wrth iddynt ddod ar gael. Bydd hyn yn cynnwys adolygu data gwrando RAJAR ar draws gwahanol ddemograffeg ac ar wahanol adegau o'r dydd; tystiolaeth a chwynion i'r BBC ac Ofcom; gwybodaeth a ddarparwyd gan y BBC gan gynnwys astudiaethau achos gorsafoedd ac oriau cynnwys lleol, a gohebiaeth y BBC am y newidiadau.[22]

Mae'r BBC wedi dweud y bydd yn asesu effaith wirioneddol y newidiadau ar grwpiau cynulleidfaoedd penodol. Bydd y gwaith hwn yn ystyried proffil amlgyfrwng defnyddwyr teledu, ar-lein a phodlediadau yn lleol - a bydd yn cael ei ategu gan ymchwil ansoddol (gan gynnwys rhaglen o drafodaethau panel gyda grwpiau cynulleidfa ledled y wlad). Byddwn yn parhau i ddal y BBC i gyfrif am hyn a'i ymrwymiadau eraill a nodir yn ein dadansoddiad ym mis Chwefror. Byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf ar y BBC, ar ôl i'r newidiadau gael eu rhoi ar waith yn llawn ac ar ôl i'r effeithiau gael eu hasesu'n well.

Pan wnaeth y BBC gyhoeddi ei fod yn ehangu ei arlwy newyddion lleol ar-lein yn Lloegr fel rhan o'r gwaith o nodi ei gynlluniau ar gyfer rhoi blaenoriaeth i ddigidol yn y BBC, fe wnaethom hefyd graffu ar asesiad perthnasedd y BBC. Fe wnaethom adolygu hyn ochr yn ochr â thystiolaeth arall oedd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth a ddarparwyd gan y News Media Association a datganiadau ariannol cyhoeddedig cyhoeddwyr newyddion lleol, i benderfynu a oedd angen prawf budd y cyhoedd i asesu effaith gystadleuol y cynnwys ar-lein newydd. Daethom i'r casgliad nad oedd y newid yn debygol o gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Roeddem wedi ymrwymo i fonitro cynnydd cynigion y BBC, gan gynnwys casglu gwybodaeth gan y BBC a chyhoeddwyr newyddion masnachol i asesu'r effaith ar gynulleidfaoedd ar ôl iddynt gael eu cyflwyno'n llawn.

Roedd cynnwys lleol ar-lein ychwanegol yn rhan bwysig o gynllun y BBC i greu gweithrediadau newyddion amlgyfrwng ledled y wlad, gan ddod â'i dimau newyddion lleol at ei gilydd ar y radio, ar y teledu ac ar-lein am y tro cyntaf. Er bod y BBC wedi datgan ei nodau cyffredinol ar gyfer gwasanaethau lleol yn gynharach yn y flwyddyn, ychydig o wybodaeth sydd wedi bod i gynulleidfaoedd am ei gynnydd o ran gwneud y newidiadau hyn. Rydym yn deall bod y BBC yn gweithredu fesul cam, ond rydym o'r farn y gellid egluro hyn yn well i gynulleidfaoedd. Rydym yn disgwyl i'r BBC nodi'n glir pa gynnwys newydd sydd ar gael yn awr o ganlyniad i'r newidiadau a beth sydd eto i'w ddarparu.

Ar wahân, rydym yn gwneud gwaith i ddeall darpariaeth cyfryngau lleol yn well. Mae hyn yn cynnwys ymchwil newydd i'r hyn mae cynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig yn ei werthfawrogi am gyfryngau lleol, fel rôl cyfryngau lleol o ran meithrin cydlyniant cymdeithasol ac ymgysylltiad mewn cymunedau lleol. Os byddwn yn canfod o ganlyniad i'n gwaith ymchwil a monitro nad yw gwasanaethau lleol y BBC yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd, byddwn yn ystyried y camau nesaf, gan gynnwys, er enghraifft, a oes angen addasu gofynion yn Nhrwydded Weithredu'r BBC. Rydym yn disgwyl y byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad o gyfryngau lleol erbyn diwedd 2024.

# Comisiynu'r gwledydd a'r rhanbarthau

Mae'r adran hon yn edrych ar effaith y newidiadau mae'r BBC yn eu gwneud i'w ddull comisiynu yn y gwledydd a'r rhanbarthau ar gynulleidfaoedd a'r sector creadigol. Mae'r newidiadau hyn yn

[22] Er mwyn sicrhau bod digon o samplau ar yr arolwg RAJAR, gall gorsafoedd llai ofyn am werth chwe neu hyd yn oed 12 mis o ddyddiaduron gwrando.

ymwneud â chynllun Across the UK y BBC a blaenoriaeth strategol y BBC, sydd wedi ei nodi yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2022, i fuddsoddi mewn cynnwys effaith uchel mwy unigryw.

## Mae'r BBC yn parhau i weithredu ei raglen Across the UK

Nod y Cynllun hwn yw sicrhau bod gan y BBC – fel sefydliad ar draws y Deyrnas Unedig – bresenoldeb llawer cryfach ar draws y Deyrnas Unedig, gan symud swyddi a buddsoddiad allan o Lundain ac i'r gwledydd a'r rhanbarthau. Bu pryderon yn flaenorol bod y BBC yn canolbwyntio gormod ar Lundain a bod cynulleidfaoedd yn y gwledydd yn tueddu i ystyried y BBC yn llai cadarnhaol (er ein bod wedi gweld newid yn hyn y llynedd).[23] Drwy gael presenoldeb corfforol ar draws mwy o'r Deyrnas Unedig, dylai'r BBC allu cefnogi'r diwydiannau creadigol ledled y Deyrnas Unedig yn well ac adlewyrchu bywydau pobl ar draws yr holl wledydd a'r rhanbarthau yn well.

Mae'r BBC wedi nodi ei gynlluniau ar gyfer gweithredu cynllun Across the UK a sut bydd yn mesur ei effaith ar lefel uchel. Mae adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar weithredu Across the UK yn tynnu sylw at yr angen i'r BBC ddatblygu ei gynllun ar gyfer gwerthuso'r rhaglen hon wrth iddo barhau i'w rhoi ar waith. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn nodi, er bod y BBC o'r farn na fydd buddion Across the UK yn llifo tan gamau diweddarach y cynllun, y dylai'r BBC nodi cynlluniau ar gyfer mesur newidiadau o ran portreadu cynulleidfaoedd a thwf economaidd heb oedi pellach. Bydd hyn yn caniatáu i'r BBC fesur buddion y rhaglen a newid cwrs os oes angen.

Yn Adroddiad Blynyddol y llynedd ar y BBC, fe wnaethom edrych ar ei gynnydd o ran gweithredu ei strategaeth, ac ers hynny gallwn weld bod y BBC wedi gwneud rhagor o gynnydd. Mae ar y trywydd iawn i gyrraedd ei darged o 60% o wariant comisiynu teledu rhwydwaith y tu allan i Lundain erbyn 2027, yn ogystal â'i darged radio a cherddoriaeth o 50%.[24]

Dywedodd y BBC y byddai'n ailgydbwyso pŵer comisiynu rhwydwaith ar draws y Deyrnas Unedig ac mae wedi symud mwy o bobl sy'n gwneud penderfyniadau i ffwrdd o Lundain. Erbyn hyn, mae ganddo 30 o gomisiynwyr y tu allan i Lundain, i fyny o 24 y llynedd. Yn ogystal, cafwyd 50 o gyd-gomisiynau rhwng comisiynwyr y gwledydd a'r rhwydwaith.[25] Mae'r BBC wedi dweud bod y cyd-gomisiynau hyn yn bwysig o ran ei alluogi i ddarparu mwy o deitlau effaith uchel ac i adrodd straeon sydd wedi eu lleoli yng ngwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig sydd hefyd yn taro tant gyda chynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig.[26] Mae'r teitlau nodedig yn cynnwys *Bloodlands* (a osodwyd ac a ffilmiwyd yng Ngogledd Iwerddon) a *Mayflies* (a osodwyd ac a ffilmiwyd yn yr Alban).[27]

[23] Ofcom, Traciwr o Berfformiad y BBC.
[24] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23', t. 27.
[25] Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC 22/23, tt. 29-32.
[26] Y ffigurau yw 12 yn yr Alban, 13 yng Nghymru, 13 yng Ngogledd Iwerddon a 12 yn Lloegr. Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC 22/23, tt. 29-32.
[27] Cynllun Blynyddol y BBC 2022/23, t. 27.



Mae’r BBC hefyd wedi gwneud buddsoddiadau penodol yng ngogledd ddwyrain Lloegr, gydag ymrwymiad pum mlynedd wedi ei gyhoeddi ym mis Medi 2021 i wario o leiaf £25 miliwm ar gynhyrchu teledu rhwydwaith, datblygu talent a chefnogi’r sector creadigol. Yng ngorllewin canolbarth Lloegr, mae’n buddsoddi mewn symud ei bencadlys rhanbarthol i leoliad creadigol newydd yn Digbeth (gan gymryd lle The Mailbox yng nghanol dinas Birmingham). Fel y tenant angor, y gobaith yw y bydd y BBC yn gatalydd ar gyfer adfywio’r lle creadigol ac y bydd yn denu buddsoddiadau a chynyrchiadau newydd i Ganolbarth Lloegr. Mae hefyd yn bwriadu symud mwy o’i gynyrchiadau teledu a radio ei hun i’r ardal.[28]


Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn canolbwyntio ar effaith y newidiadau hyn ar gynulleidfaoedd a’r sectorau creadigol yn y gwledydd a’r rhanbarthau. Rydyn ni’n rhoi rhywfaint o wybodaeth gychwynnol am yr effeithiau isod, ond rydyn ni’n nodi, o ystyried yr amser rhwng penderfyniadau comisiynu a rhaglenni yn cyrraedd cynulleidfaoedd, ei bod hi’n gynnar iawn i weld newidiadau yn argraffiadau cyffredinol cynulleidfaoedd.

## Mae cynnydd mewn gwariant ar gynnwys rhwydwaith y tu allan i Lundain yn cael ei sbarduno gan newidiadau ar draws gweddill Lloegr

Gallwn weld effaith newidiadau’r BBC o ran y swm sy’n cael ei wario ar gynnwys rhwydwaith y tu allan i Lundain. Mae cyfran y gwariant rhwydwaith cymwys ar deledu yn y gwledydd a’r rhanbarthau wedi cynyddu o 53.6% ym mlwyddyn galendr 2021 i 57.7% yn 2022, sy’n golygu mwy o fuddsoddiad a mwy o gefnogaeth i’r sector creadigol y tu allan i Lundain. Mae hyn wedi cael ei sbarduno gan newidiadau yn Lloegr, gyda chyfran y gwariant yn rhanbarthau Lloegr yn cynyddu 6.5 phwynt canran o’i gymharu â 2021. Yng ngogledd Lloegr y cafwyd y budd mwyaf, o ran gwariant ac o ran nifer yr oriau a gomisiynwyd (gweler Ffigur 3). I raddau, mae hyn yn adlewyrchu penderfyniad y BBC i greu canolfan o bwys yn Salford. Mae’r BBC hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â chynhyrchwyr, asiantaethau sgrin a sefydliadau lleol eraill yn y gwledydd a’r rhanbarthau, sydd â’r potensial i sicrhau manteision mewn ardaloedd lle nad oes gan y BBC ganolfan o bwys.

[28] Cynllun Blynyddol y BBC 2023/24, t. 13.

**Ffigur 3: Oriau a gwariant cymwys a ddyrannwyd yn ôl is-ranbarth**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r Teledu'r BBC.*

## Mae Comisiynwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch newidiadau'r BBC ond mae heriau'n dal i fodoli

Mae'r BBC wedi bwrw ymlaen â'i gynlluniau i greu mwy o gyd-gomisiynu, gan ei alluogi i ddarparu mwy o deitlau effaith uchel. Rydym wedi cwrdd â chynhyrchwyr a chomisiynwyr rhwydweithiau a chomisiynwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Hyd yma, mae'r arwyddion yn gadarnhaol ar y cyfan. Yn gyffredinol, mae comisiynwyr o blaid cyfle i gydweithio ac mae cynhyrchwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau wedi nodi bod y model yn rhoi mwy o fynediad iddynt at gomisiynwyr rhwydwaith.

Wedi dweud hynny, roedd rhai pryderon parhaus wedi cael eu codi gan gynhyrchwyr ynghylch y newidiadau: yn benodol, roeddent yn dweud y gallai mwy o wariant ar gyd-gomisiynu effeithio ar amrywiaeth genres y comisiynau sy'n cael eu gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Nid yw ein dadansoddiad wedi dangos unrhyw effaith ar yr amrywiaeth o genres yn y flwyddyn adrodd hon. Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw'r BBC wedi rhoi'r cynlluniau hyn ar waith yn llawn, felly byddwn yn parhau i fonitro i sicrhau bod y BBC yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant pob gwlad.

Mae'r BBC hefyd wedi darparu rhagor o wybodaeth i randdeiliaid yn ei Gynllun Blynyddol ynghylch y cynnwys mae'n bwriadu ei ddarparu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, yn unol â gofynion newydd y Drwydded Weithredu. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chomisiynwyr a chynhyrchwyr i ddeall effaith cynlluniau'r BBC.



## Bydd yn cymryd amser i'r newidiadau hyn gael eu hadlewyrchu ym marn y gynulleidfa

Mae ein hymchwil yn dangos bod bodlonrwydd â'r BBC ar draws y gwledydd wedi aros yn weddol gyson â chyfartaledd y Deyrnas Unedig am yr ail flwyddyn yn olynol.[29] Mae'n gadarnhaol bod y duedd hon wedi parhau. Fodd bynnag, mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o gynnwys y BBC sy'n adlewyrchu lle maent yn byw yn dal yn gymharol isel o'u cymharu ag agweddau eraill ar berfformiad y BBC, gyda dim ond 53% yn sgorio hyn yn gadarnhaol ar draws y Deyrnas Unedig.[30] Dylid nodi bod cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon yn mynd yn groes i'r duedd hon, gyda chyfradd uwch o 60%, gan adlewyrchu rhai o'r cyd-gomisiynu llwyddiannus diweddar o bosibl. Rydym yn gobeithio gweld canfyddiadau cynulleidfaoedd am gynnwys sy'n adlewyrchu lle maent yn byw yn gwella wrth i'r BBC roi ei gynlluniau ar waith.

Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon y gallai ffocws lleol rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau gael ei wanhau wrth i'r BBC geisio apelio hefyd at gynulleidfaoedd sy'n gwylio allbwn rhwydwaith. Mae'n ddyddiau cynnar o ran gweld unrhyw effaith, ond mae cynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig wedi croesawu'r cyd-gomisiynau o'r gwledydd a'r rhanbarthau sydd wedi cael eu darlledu eleni. Mewn llawer o achosion, maent wedi denu cynulleidfaoedd uwch yn y wlad neu'r rhanbarth roeddent yn ei bortreadu, sy'n awgrymu bod y cynulleidfaoedd hyn yn teimlo rhywfaint o gysylltiad â'r cynnwys.

Mae'r BBC wedi ymrwymo i amlinellu ei raglenni portreadu effaith uchel ac egluro sut mae'r rhain yn cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol y Deyrnas Unedig - gan gynnwys cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau - yn ei Gynllun Blynyddol bob blwyddyn, ac adrodd ar hyn yn ei Adroddiad Blynyddol. Rydym yn croesawu'r cynnydd hwn mewn tryloywder ac rydym yn edrych ymlaen at ddeall sut mae strategaeth y BBC yn esblygu ac yn parhau i gyfrannu at bortreadu cynulleidfaoedd yn ddilys ledled y Deyrnas Unedig.

Rydym yn dychwelyd at bwnc y gwledydd a'r rhanbarthau yng nghyd-destun ein hasesiad o berfformiad y BBC o dan Ddiben Cyhoeddus 4 yn Adran 3.

---

[29] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2022/23.

[30] *'Yn rhoi sylw i'r rhanbarth (LLOEGR)/ gwlad (YR ALBAN/ CYMRU/ GOGLEDD IWERDDON) lle'r ydw i'n byw'.*

# 3. Perfformiad o ran y Dibenion Cyhoeddus

Yn yr adran hon rydym yn nodi ein hasesiad o berfformiad y BBC o dan y Dibenion Cyhoeddus o ran y fframwaith mesur perfformiad ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023. Mae'r Fframwaith yn nodi ein dull o fonitro ac asesu perfformiad y BBC wrth hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus a chyflawni ei Genhadaeth. Y pedwar mesur perfformiad sy'n ffurfio'r Fframwaith yw Argaeledd, Defnydd, Effaith a Ffactorau Cyd-destunol. Fe wnaethom ymgynghori'n ddiweddar a chyhoeddi fframwaith mesur perfformiad wedi ei ddiweddaru.

Rydym yn adolygu'r ffordd rydym yn casglu gwybodaeth ac yn monitro perfformiad y BBC i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r Drwydded Weithredu newydd ond hefyd yn caniatáu hyblygrwydd. Bydd y broses hon yn cynnwys:


- adolygu ein Tracwyr blynyddol (BBC, Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, Sain, Podlediadau a Fideo ar Alwad (VoD));
- adolygu data sydd ar gael o ffynonellau trydydd parti;
- ymgysylltu'n agosach â'r BBC ynghylch ei ddata mewnol; ac
- archwilio adnoddau ymchwil eraill i allu mesur effaith ar gynulleidfaoedd yn gyflymach neu gyda mwy o sensitifrwydd nag arolygon rheolaidd.

Yn Atodiad 2 rydym yn darparu crynodeb o'r ffynonellau data rydym wedi eu defnyddio yn asesiad perfformiad eleni a chanllawiau ar sut mae cael gafael ar y data hwn a'i ddefnyddio yn ein hadroddiad rhyngweithiol.

# DIBEN CYHOEDDUS 1

## Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas

### Cyrhaeddiad ffynonellau newyddion y BBC ymhlith oedolion




### Prif ffynonellau newyddion


**Holl oedolion 16+ oed**

| BBC ONE | ITV / STV / UTV | Facebook | BBC iPLAYER | BBC NEWS |
|---|---|---|---|---|
| 49% | 34% | 30% | 24% | 23% |


**Plant yn eu harddegau 12-15 oed**

| TikTok | YouTube | Instagram | BBC ONE / BBC TWO | ITV / STV / UTV |
|---|---|---|---|---|
| 28% | 25% | 25% | 21% | 21% |

### Allbwn materion cyfoes a newyddion rhwydwaith




### Barn cynulleidfaoedd am y BBC




Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Ofcom 2023 Arolygon Cael Gafael ar Newyddion ymysg Oedolion a Phobl Ifanc; dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; data BBC Compass gan Ipsos UK; Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2022/23.

**Crynodeb**

- Yn gyffredinol, mae'r BBC wedi perfformio'n dda o ran Ddiben Cyhoeddus 1. Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddarpariaeth newyddion y BBC yn gadarnhaol ar y cyfan. Nid yw canfyddiadau ar ddidueddrwydd wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Dyma brif ffynhonnell newyddion y Deyrnas Unedig o hyd, gyda bron i dri chwarter (73%) o oedolion y Deyrnas Unedig yn defnyddio o leiaf un o wasanaethau'r BBC ar gyfer newyddion. Mae'r BBC hefyd yn cael sgôr uchel am ymddiriedaeth a chywirdeb, gyda 71% yn rhoi sgôr uchel i ddarpariaeth newyddion teledu'r BBC am ymddiriedaeth a 73% am gywirdeb.
- Roedd nifer yr oriau o gynnwys newyddion a materion cyfoes yn dal yn weddol gyson â'r llynedd.

**Mae'r *Siarter Frenhinol* yn datgan: Dylai'r BBC ddarparu rhaglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol sy'n ddigon cywir a diduedd er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r byd ehangach. Dylai'r cynnwys gael ei ddarparu yn unol â'r safonau golygyddol uchaf. Dylai gynnig cynnwys a dadansoddiad manwl ac amrywiol, nad ydynt ar gael yn helaeth gan ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig, drwy ddefnyddio newyddiadurwyr a chyflwynwyr o'r radd flaenaf, a hybu rhyddid mynegiant, er mwyn i'r holl gynulleidfaoedd allu ymgysylltu'n llawn â materion pwysig yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol, yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion egnïol a gwybodus.**

## Mae'r BBC yn parhau i arloesi ar draws ei wasanaethau

Mae'r BBC yn darparu newyddion sy'n cael ei ddarlledu ar deledu, radio ac ar-lein, gan ddarparu gwasanaeth newyddion sy'n rhoi sylw i faterion lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Roedd nifer cyffredinol oriau allbwn newyddion a materion cyfoes teledu rhwydwaith y BBC yn dal yn gyson â ffigurau'r llynedd.[31] Fodd bynnag, o'r cyfanswm hwnnw, roedd allbwn newyddion wedi gostwng 0.6% ers 2021, ac roedd materion cyfoes wedi codi 3%.[32] Mae'r BBC yn arloesi o ran sut mae'n darparu newyddion i gynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys BBC Verify – sy'n cael ei drafod yn Adran 2 – ynghyd â darpariaeth newyddion y BBC ar BBC iPlayer, app BBC News a gwefan y BBC. Gall y BBC ddarparu sawl ffrwd newyddion gyfochrog ar y llwyfannau hyn yn awr, gan gynyddu'r amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd a chaniatáu iddynt wylio'r newyddion yn ôl eu dymuniad.

## Mae'r BBC yn dal yn ffynhonnell boblogaidd ar gyfer cynnwys newyddion a materion cyfoes

Canfu ein Harolwg Cael Gafael ar Newyddion blynyddol fod bron i dri chwarter (73%) o oedolion y Deyrnas Unedig yn defnyddio gwasanaeth y BBC ar gyfer newyddion, sef yr un gyfran â'r llynedd. Roedd bron i hanner (49%) yn defnyddio BBC One ar gyfer newyddion, sef ffynhonnell newyddion

[31] Mae rhaglenni rhwydwaith yn cael eu dangos ar yr un pryd ar draws y Deyrnas Unedig mewn lleiafswm o ddeg rhanbarth, tra bod rhaglenni nad ydynt yn rhai rhwydwaith yn cael eu creu'n benodol i wylwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac yn cael eu dangos mewn rhai rhannau o'r Deyrnas Unedig yn unig.
[32] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r Teledu'r BBC.

unigol fwyaf poblogaidd y BBC o hyd. Mae BBC iPlayer (24%) a sianel BBC News (23%) hefyd yn cael eu defnyddio'n helaeth ar gyfer newyddion. Mae BBC Radio 2 (11%) a BBC Radio 1 (8%) ymysg yr 20 ffynhonnell newyddion uchaf yn y Deyrnas Unedig a'r ffynonellau radio sy'n cael eu defnyddio amlaf ar gyfer newyddion yn gyffredinol.

Cyrhaeddodd BBC News ar-lein 33% o oedolion ar gyfartaledd bob wythnos yn 2022/23, sy'n gyson ar y cyfan â'r flwyddyn flaenorol (34%).[33] Er bod ein Harolwg Cael Gafael ar Newyddion yn dangos bod newyddion ar BBC One yn cyrraedd mwy o bobl ifanc na gwefan/apiau newyddion y BBC, mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos bod BBC ar-lein yn denu defnyddwyr ar draws amrediad oedran mwy cyfartal o'i gymharu â newyddion teledu'r BBC, sy'n gwyro mwy at grwpiau oedran hŷn.[34] Roedd *Newsround* yn dal i gael ei ddefnyddio'n eang ymysg plant, gydag oddeutu chwech o bob deg (57%) o blant 8 i 16 oed yn ei wylio ar sianel deledu CBBC neu BBC iPlayer neu'n defnyddio gwefan *Newsround*.[35]



## Yn gyffredinol, mae cynulleidfaoedd yn canmol darpariaethau newyddion y BBC, er bod didueddrwydd yn cael ei weld yn llai ffafriol

Mae tystiolaeth gref o hyd bod pobl yn y Deyrnas Unedig yn gwerthfawrogi'r rôl mae'r BBC yn ei chwarae mewn darpariaeth newyddion. Mae tri chwarter (75%) oedolion y Deyrnas Unedig yn gadarnhaol ynghylch pwysigrwydd '*newyddion a gwybodaeth i helpu pobl i ddeall beth sy'n digwydd yn y Deyrnas Unedig a'r byd'* i gymdeithas yn gyffredinol. Mae cyfran debyg (72%) o'r farn bod y Diben Cyhoeddus hwn yn bwysig iddynt yn bersonol.

Mae tua saith o bob deg (69%) oedolyn yn y Deyrnas Unedig yn dweud bod y BBC yn perfformio'n dda ar y metrig hwn, gan godi i dri chwarter (75%) o ddefnyddwyr wythnosol gwasanaethau'r BBC. Ar ben hynny, mae canfyddiadau hefyd yn gadarnhaol ar y cyfan tuag at y BBC yn benodol ar gyfer *'darpariaeth newyddion o'r hyn sy'n digwydd yn y Deyrnas Unedig'* (70%).[36] Mae ein hadroddiad perfformiad rhyngweithiol cysylltiedig yn rhoi rhagor o wybodaeth a data am y datganiadau hyn a safbwyntiau gwahanol ddemograffeg.

Fe wnaethom dynnu sylw yn Adran 2 at y ffaith bod didueddrwydd yn un o'r meysydd lle mae'r BBC yn cael ei weld yn llai ffafriol o'i gymharu ag agweddau eraill ar ddarparu newyddion – er ei fod yn cael sgôr uchel yn gyson am ymddiriedaeth (gwylwyr teledu'r BBC: 71%) a chywirdeb (gwylwyr

[33] Ymchwil y BBC: Compass gan Ipsos UK.
[34] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2023.
[35] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2022/23.
[36] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2022/23.

teledu'r BBC: 73%).[37] Fodd bynnag, fel y nodwyd, mae newid canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy'r BBC yn broses gymhleth. Rydym yn dychwelyd at bwnc didueddrwydd yn Adran 6.

Y llynedd, fe wnaethom gyfeirio at ddata o'n Traciwr Perfformiad y BBC a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod cynulleidfaoedd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn llai tebygol o fod â barn gadarnhaol am ddidueddrwydd y BBC. Mae hyn yn dal yn wir, gyda hanner (50%) o gynulleidfaoedd D ac E yn rhoi sgôr gadarnhaol i'r BBC am *'newyddion sy'n ddiduedd'* o'i gymharu â 56% yn gyffredinol.[38] Mae ein Hadolygiad o Gynulleidfaoedd y BBC yn edrych yn fanylach ar sut mae'r BBC yn cyflawni ar gyfer pobl mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is.

## Mae'r BBC wedi gwella ei dryloywder mewn perthynas â dolenni digonol

Mae'n rhaid i'r BBC ddarparu dolenni digonol at ddeunydd a ddarperir gan drydydd partïon mewn perthynas â BBC Ar-lein. Eleni, dechreuodd y BBC gyhoeddi data ar y dolenni mae'n eu darparu ar ei safleoedd newyddion ar-lein.[39] Dadansoddodd y BBC sampl o 1,370 o straeon gwahanol ar draws sampl o bedwar diwrnod a gyhoeddwyd ar dudalennau BBC News a BBC Sport ar-lein. O'r rhain, roedd 46% yn cynnwys dolenni i ffynonellau allanol gan gynnwys sefydliadau cyfryngau eraill, cyrff cyhoeddus a chyfryngau cymdeithasol. Roedd bron i ddwy ran o bump (39%) o'r dolenni allanol hyn i sefydliadau cyfryngau eraill. Rydym o'r farn bod cyhoeddi gwybodaeth o'r fath yn gam cadarnhaol i'r BBC tuag at wella tryloywder, ac rydym yn disgwyl i'r BBC barhau â'r arfer hwn.

## Cydymffurfio ag amodau'r Drwydded Weithredu

Ochr yn ochr â'n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried cydymffurfedd y BBC o'i gymharu â gofynion newyddion penodol sydd wedi'u nodi yn y Drwydded Weithredu. Eleni, fe wnaeth y BBC fodloni ei holl ofynion, ar wahân i un. Nid oedd yn bodloni'r amod o dan Ddiben Cyhoeddus 1 yn ymwneud â'i ofyniad ei fod yn dangos rhaglenni newyddion y bwriedir iddynt apelio at bobl ifanc 16-34 oed ar BBC Three bob diwrnod o'r wythnos. Mae crynodeb o'r drafodaeth wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

---

[37] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2023.

[38] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2022/23. Cyfeirir yn aml at bobl o grwpiau D ac E fel pobl sydd â statws economaidd-gymdeithasol is, sy'n dod o aelwydydd incwm is neu o gefndiroedd dosbarth gweithiol. Maent yn fwy tebygol o fod yn hŷn, yn ddi-waith neu mewn gwaith heb sicrwydd, gydag anabledd, neu wedi ymddeol â phensiwn y wladwriaeth yn unig. Mae'r grwpiau hyn yn cynrychioli bron i chwarter poblogaeth y Deyrnas Unedig.

[39] Adroddiad Cyflawni ein Cenhadaeth a'n Dibenion Cyhoeddus y BBC, t. 11.

# DIBEN CYHOEDDUS 2

**Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oedran**

## DYSGU FFURFIOL I BLANT

### Cyrhaeddiad wythnosol BBC Bitesize ar borwr

**2.7m** ↓ **1.8m** ↓ **1.5m**
2020/21 2021/22 2022/23

### Sgoriau BBC Bitesize

Dywed 9 o bob 10 defnyddiwr, 4-16 oed:

*'Mae BBC Bitesize yn ddefnyddiol'*

## DYSGU ANFFURFIOL I BLANT

### Cyrhaeddiad cynulleidfaoedd wythnosol BBC iPlayer

**24%** o'r rhai 4-15 oed


### Cynnwys gwreiddiol o'r DU a ddarlledwyd am y tro cyntaf

| | |
|---|---|
| 2019 | 537 awr |
| 2020 | 437 awr |
| 2021 | 422 awr |
| 2022 | 444 awr |

### Caffaelwyd


| | |
|---|---|
| 2019 | 59 awr |
| 2020 | 77 awr |
| 2021 | 125 awr |
| 2022 | 143 awr |

### Cyrhaeddiad cynulleidfa wythnosol CBeebies a CBBC




## DYSGU ANFFURFIOL I OEDOLION

### Maint y cynnwys dysgu anffurfiol sy'n cael ei wylio bob mis ar gyfartaledd gan oedolion ar sianeli'r BBC




### Graddau cadarnhaol am gynnwys dysgu'r BBC ymysg oedolion y DU

**63%** CADARNHAOL — Rhaglenni a chynnwys sy'n helpu pobl i ddysgu am bethau newydd

**53%** CADARNHAOL — Ymdrin â materion a syniadau efallai nad yw pobl wedi dod ar eu traws o'r blaen

**49%** CADARNHAOL — Ysbrydoli pobl i roi cynnig ar weithgareddau, hobïau neu ddiddordebau newydd

Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; BARB; (3+ munud o gyrhaeddiad); data ATI y BBC; Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2022/23; Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2022/23.

**Crynodeb**

- Mae cynulleidfaoedd yn dal i roi sgôr uchel i gynnwys dysgu'r BBC. Mae dysgu ffurfiol i blant wedi parhau i gael ei gefnogi'n dda yn uniongyrchol gan BBC Bitesize a thrwy athrawon sy'n defnyddio BBC Teach, sy'n cael eu parchu'n fawr gan ddefnyddwyr.
- CBeebies yw'r sianel plant sy'n cael ei gwylio fwyaf o hyd, ac mae bron i chwarter y plant yn defnyddio BBC iPlayer ar gyfartaledd bob wythnos, er bod data'r BBC yn dangos bod y defnydd o apiau a chynnwys dysgu anffurfiol yn lleihau. Mae'r BBC wedi dechrau gweithredu ei strategaeth o ddangos mwy o animeiddio i apelio at y grŵp oedran 6-12 ac mae'n arloesi i gyrraedd a hyrwyddo cynnwys y BBC i gynulleidfaoedd iau ar safleoedd fel YouTube.
- Er bod lefelau gwylio cynnwys dysgu anffurfiol i oedolion yn dal i ostwng, mae'r BBC yn dal i gael sgôr cadarnhaol am y math hwn o gynnwys, ac mae podlediadau addysgol yn boblogaidd ar BBC Sounds.

**Mae'r *Siarter Frenhinol* yn datgan: Dylai'r BBC helpu pawb i ddysgu am wahanol bynciau mewn ffyrdd a fydd yn hwylus iddynt, yn ddifyr, yn ysbrydoli ac yn heriol. Dylai'r BBC ddarparu cynnwys addysgol arbenigol er mwyn helpu i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig. Dylai annog mwy o bobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd drwy feithrin partneriaethau gyda sefydliadau ym meysydd addysg, chwaraeon a diwylliant.**

## Dysgu ffurfiol

Mae'r BBC yn gwasanaethu plant o bob oed drwy ddarparu cynnwys i ategu eu dysgu ffurfiol ledled y Deyrnas Unedig drwy BBC Bitesize. Mae hefyd yn cynnig cymorth i athrawon drwy BBC Teach.

### Mae gan ddefnyddwyr barch mawr at gynnig dysgu ffurfiol y BBC

Eleni, mae'r BBC wedi cyflawni ei ymrwymiad i gynyddu ei allbwn dysgu ffurfiol 40% ar BBC Bitesize. Dywedodd y BBC ei fod wedi cyflawni hyn drwy gyflwyno casgliadau Mathemateg a Saesneg newydd ar gyfer y dosbarth derbyn, cwisiau adolygu TGAU rhyngweithiol a phodlediadau. Yn ogystal, ehangodd ei adnoddau gyrfaoedd gyda phroffiliau swyddi newydd a chynnwys ychwanegol ar ddyfodol gwaith.

Mae tua hanner y plant 4-16 oed (47%) yn dweud eu bod yn defnyddio BBC Bitesize ar gyfer gwaith ysgol neu waith cartref, gydag oddeutu naw o bob deg defnyddiwr (88%) yn dweud bod BBC Bitesize yn ddefnyddiol iddynt. Er bod plant mewn aelwydydd D ac E yn parhau i fod yn llai tebygol o ddweud eu bod yn ei ddefnyddio (41% o'i gymharu â 47% yn gyffredinol), mae Hadolygiad o Gynulleidfaoedd y BBC yn dangos bod darpariaeth addysgol y BBC yn dal i gael ei pharchu'n fawr gan oedolion mewn aelwydydd D ac E.[40]

Mae data gan y BBC yn dangos bod ymwybyddiaeth o BBC Teach yn uchel ymysg athrawon ysgolion cynradd (74%) ac athrawon ysgolion uwchradd (67%). Mae'r defnydd yn is, gyda 47% o athrawon ysgolion cynradd a 35% o athrawon ysgolion uwchradd yn dweud eu bod wedi ei ddefnyddio neu'n bwriadu ei ddefnyddio, y tymor hwn. Cynyddodd y defnydd yn 2020/21 yn sgil pandemig Covid-19 ac

[40] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2022/23

mae wedi aros yn gyson ers hynny.[41] Dywedodd y BBC ei fod wedi cyflwyno cynnwys newydd ar BBC Teach a bod ei Wersi Byw BBC Teach yn parhau i fod yn boblogaidd iawn ymysg athrawon a myfyrwyr. Er enghraifft, cyflwynodd y BBC wersi byw ar gyfer Diwrnod y Llyfr, Diwrnod Barddoniaeth Cenedlaethol a Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel eleni.[42]

## Dysgu anffurfiol i blant

Mae cynnwys dysgu anffurfiol y BBC i blant yn cael ei ddarparu drwy CBeebies a CBBC ar y teledu, ar wefan y BBC a'i apiau i blant, ac ar BBC iPlayer a BBC Sounds. Mae gan gynnwys CBeebies gynulleidfa darged o blant 6 oed ac iau, tra bod CBBC yn targedu plant 6-12 oed.

### Mae'r defnydd o'r BBC yn dal yn uchel er gwaethaf y newidiadau yn arferion gwylio plant

Mae ein hymchwil yn dangos, er gwaethaf llawer o newidiadau sylfaenol yn arferion cyfryngau plant, bod defnydd cyffredinol o gynnyrch y BBC yn gymharol uchel, gyda saith o bob deg (69%) o blant 3-16 oed yn defnyddio rhywfaint o gynnwys y BBC bob wythnos.[43] Er nad yw hyn o reidrwydd wedi ei anelu at blant, rydym yn deall bod cynnwys arall y BBC yn darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol i blant. O ran gwylio teledu wedi ei ddarlledu, o blith yr holl blant, CBeebies yw'r sianel plant sy'n cael ei gwylio fwyaf o hyd yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys ymysg ei chynulleidfa darged o blant chwech oed ac iau. Er bod cyrhaeddiad cyffredinol CBeebies a CBBC wedi gostwng, roedd lefelau gwylio cyfartalog wedi aros yn sefydlog ymysg eu cynulleidfaoedd targed.[44] Mae ein dadansoddiad yn dangos bod 24% o blant 4-15 oed yn defnyddio BBC iPlayer ar gyfartaledd bob wythnos.[45] Yn ôl data'r BBC, rhai o'r rhaglenni sy'n cael eu ffrydio amlaf ar BBC iPlayer yw *Hey Duggee*, *Bluey* a *Bing* ar *CBeebies*, a *The Next Step, The Dumping Ground* a *Shaun the Sheep* ar CBBC.[46]

Mae plant yn defnyddio amrywiaeth o lwyfannau ar-lein i gael gafael ar gynnwys. Mae darparu cynnwys ar y llwyfannau hyn yn ffordd i'r BBC hybu ymwybyddiaeth a defnydd o'i ddarpariaeth i blant. Er enghraifft, mae gan y BBC sianel YouTube CBeebies sydd â'r nifer uchaf o wylwyr yn y Deyrnas Unedig o sianeli YouTube y BBC yn 2022/23 ac mae wedi gweld cynnydd o 12% yn nifer y bobl sy'n gwylio yn y Deyrnas Unedig o un flwyddyn i'r llall.[47] Mae'r BBC hefyd yn darparu cynnwys ar TikTok fel ffilm fer wedi'i hanimeiddio *Newsround* ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost, a wyliwyd 2.6 miliwn o weithiau.[48] Mae'r BBC hefyd yn parhau i gynnig cynnwys dysgu anffurfiol drwy ei apiau a'i wefan, er bod data'r BBC yn dangos bod y defnydd o'r apiau CBBC a CBeebies hyn a gemau gwe yn lleihau. Er enghraifft, mae *Storytime* CBeebies wedi gostwng o 84,933 o ymwelwyr unigryw wythnosol ar gyfartaledd yn y Deyrnas Unedig yn 2019/20, i 46,794 yn 2022/23.[49] Dywedodd y BBC wrthym y bydd chwarae gemau yn ategu ei ddarpariaeth addysg ac adloniant, yn enwedig ar gyfer plant 7-12 oed nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Ar gyfer addysg, bydd chwarae gemau yn cefnogi'r arfer o gysyniadau craidd fel meistrolaeth ar fathemateg, ac ar gyfer adloniant, bydd yn ymgysylltu â brandiau a masnachfreintiau'r BBC er mwyn cynyddu'r amser sy'n cael ei dreulio gyda'r

---

[41] Mae BBC Teach yn darparu adnoddau dosbarth am ddim i athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd. Ymchwil y BBC: DJS Research Student and Teacher Tracker.
[42] Y BBC yn cyflawni ein Cenhadaeth a'n Dibenion Cyhoeddus adroddiad, t. 11.
[43] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2022/23.
[44] Data 28 diwrnod cyfunol BARB, setiau teledu yn unig, yn ystod oriau darlledu'r sianeli yn unig.
[45] Barb fel y gwyliwyd 2022/23.
[46] Data'r BBC: AV Analytics, 4 Ebrill 2022 - 2 Ebrill 2023.
[47] Data'r BBC (gwylio yn y Deyrnas Unedig): YouTube Analytics.
[48] Gwelwyd ar TikTok o 16 Tachwedd 2023 ymlaen.
[49] Ymchwil y BBC: Piano Analytics.

BBC. Byddwn yn parhau i fonitro ei ddefnydd ac yn ymgysylltu â'r BBC i sefydlu a yw'r cynnwys hwn yn cyrraedd ei gynulleidfa darged.

## Mae cynnwys plant y BBC yn dal i gael sgôr uchel, yn enwedig gan rieni a phlant iau

Gan mai'r BBC yw prif ddarparwr cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer plant yn y Deyrnas Unedig, mae'n galonogol bod gwylwyr CBeebies a CBBC yn parhau i deimlo'n gadarnhaol ynghylch y sianeli. Ymysg rhieni plant 0-11 oed, mae CBeebies a CBBC yn cymharu'n ffafriol â chynnwys plant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, gyda CBeebies y gwasanaeth mwyaf poblogaidd ar gyfer darparu *'hrhaglenni o ansawdd uchel i blant'* (83%) ac '*amrywiaeth eang o gynnwys wedi ei wneud yn y Deyrnas Unedig ar gyfer plant'* (81%).[50]

Mae enghreifftiau o'r cynnwys mae'r BBC wedi ei ddarparu eleni ar Cbeebies i gynorthwyo plant cyn oed ysgol gyda'u dysgu yn cynnwys *Ranger Hamza's Eco Quest*, lle mae Hamza yn mynd â phlant ifanc ar deithiau cerdded i archwilio gwahanol agweddau ar natur a'r rolau maent yn eu chwarae yn yr amgylchedd, a *Grace's Amazing Machines*- cyfres am wahanol fathau o gerbydau a mecaneg sut maent yn gweithio.[51] Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod rhieni plant 3 i 6 oed sy'n gwylio Cbeebies a CBBC yn parhau i fod yn gadarnhaol tuag at y BBC heb newid sylweddol yn y canfyddiadau ers y llynedd. Mae tua naw o bob deg yn cytuno bod *'llawer o wahanol fathau o raglenni CBeebies'* (89%) a bod *'rhaglenni Cbeebies yn eu haddysgu am y byd'* (88%). Yn yr un modd, mae CBBC yn cael ei ystyried yn gadarnhaol iawn, gyda sgoriau o 81% a 77% ar draws pob un o'r datganiadau hynny.[52]




## Mae'r BBC wedi cael mwy o gynnwys wedi ei animeiddio i apelio at blant 6 i 12 oed

Y llynedd, fe wnaeth y BBC gydnabod bod cyrraedd y rhai dan 16 oed yn her sylweddol, a chynigiodd geisio apelio'n well at y grŵp oedran 6-12 oed drwy ddangos mwy o animeiddio. Dywedodd y byddai'n buddsoddi £800,000 i ddatblygu cynnwys newydd wedi ei animeiddio sy'n tarddu o'r Deyrnas Unedig. Yn y cyfamser, dywedodd y BBC y byddai'n prynu animeiddiadau ychwanegol i ateb y galw gan gynulleidfaoedd. Er mwyn galluogi'r strategaeth hon, fe wnaethom gymeradwyo newid i'r

[50] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2022 (sgôr cyfartalog 7-10 allan 10).
[51] Adroddiad Cyflawni ein Cenhadaeth a'n Dibenion Cyhoeddus y BBC, t. 15.
[52] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2022/23.

Drwydded Weithredu ym mis Mai 2022 er mwyn caniatáu gostyngiad bach yn nifer y cynyrchiadau gwreiddiol a ddarlledir ar CBBC.[53]

Yn gyffredinol, roedd yr allbwn i blant sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi cynyddu o'i gymharu â 2021, gyda'r BBC yn darparu mwy o gynnwys gwreiddiol a chynnwys wedi ei brynu. Roedd y rhaglenni a oedd yn cael eu prynu wedi cyrraedd eu lefel uchaf mewn chwe blynedd (143 awr, hyd at 14% o un flwyddyn i'r llall) ac roedd yr oriau o raglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf hefyd wedi cynyddu (444 awr, i fyny 5% o un flwyddyn i'r llall). Wedi dweud hynny, mae rhaglenni sy'n cael eu prynu yn gyfran fach iawn o gyfanswm allbwn teledu darlledu plant y BBC (1.6% o'r oriau), gan fod y genre yn cael ei yrru'n bennaf gan ailddarllediadau (dros 93%).[54]

Yn unol â strategaeth y BBC, mae allbwn animeiddio newydd wedi cynyddu eleni, gyda'r rhan fwyaf yn dod o raglenni sydd wedi cael eu prynu.[55] Roedd cynnydd hefyd o un flwyddyn i'r llall mewn animeiddiadau gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig a ddangoswyd am y tro cyntaf yn 2022.[56] Wrth i'r BBC barhau i weithredu ei strategaeth, rydym yn disgwyl i'r ffigur hwn barhau i godi. Gyda mwy o gynnwys animeiddio ar gael ar CBBC, mae gwylio'r genre hwn fel cyfran o gyfanswm gwylio CBBC ymysg plant wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall.[57] Gan mai dim ond y llynedd y nododd y BBC ei gynlluniau ac nad oes llawer o'r animeiddiad arfaethedig sy'n tarddu o'r Deyrnas Unedig ar gael eto, mae'n rhy gynnar i benderfynu a yw'n helpu i apelio'n well at y grŵp oedran 6-12.[58]

## Dysgu anffurfiol i oedolion

Mae'r BBC yn darparu cynnwys sy'n cefnogi dysgu anffurfiol oedolion ar deledu, radio ac ar-lein, gan gynnwys rhaglenni ffeithiol ar draws amrywiaeth o genres fel y celfyddydau, crefydd, hanes a gwyddoniaeth. Fel y trafodwyd uchod, rydym yn deall y gall plant hefyd elwa ar weld y cynnwys hwn. Rydym yn ystyried ehangder ehangach y genres sy'n cael eu darparu gan y BBC yn fanylach o dan Ddiben Cyhoeddus 3.

### Mae cynulleidfaoedd yn parhau i roi sgôr gadarnhaol i gynnwys dysgu anffurfiol y BBC

Roedd faint o gynnwys dysgu anffurfiol a ddarparwyd gan y BBC yn dal yn weddol wastad, sef 4,771 awr, gyda 82% o'r oriau hyn yn ailddarllediadau, sy'n debyg i 2021. Mae nifer y rhaglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf o gynnwys dysgu i oedolion yn dal yn gyson â ffigurau'r llynedd ond roedd yn dal yn is o lawer na'r lefelau yn gynharach yng nghyfnod presennol y Siarter.[59] Cynyddodd cyfanswm gwariant y BBC ar yr holl raglenni dysgu anffurfiol 5% o'i gymharu â 2021, er ei fod 24% yn is na'r lefel gyfartalog a welwyd rhwng 2017 a 2019.[60] Mae'r amser sy'n cael ei dreulio'n gwylio cynnwys dysgu anffurfiol ar sianeli teledu'r BBC wedi bod yn gostwng bob

[53] Dywedodd y BBC wrthym fod gan rai teitlau animeiddio a gomisiynir amser aros o tua 3 blynedd.
[54] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r Teledu'r BBC.
[55] Cynllun Blynyddol y BBC 2022/23, t. 25, 43 a 66.
[56] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[57] Data 28 diwrnod cyfunol BARB, setiau teledu yn unig, plant 6-12.
[58] Cynllun Blynyddol y BBC 2021/22, pg. 41.
[59] Mae rhaglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn golygu rhaglenni sy'n cael eu comisiynu gan neu ar gyfer Gwasanaeth Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig ac nad ydynt wedi cael eu dangos o'r blaen ar deledu nac wedi bod ar gael ar-lein yn y Deyrnas Unedig.
[60] Data oriau a gwariant o ddadansoddiad Ofcom o ddata teledu'r BBC.

blwyddyn ac wedi gostwng 10% yn 2022 (o gyfartaledd o 21 munud y pen bob wythnos yn 2021 i 19 munud yn 2022).[61]

Er gwaethaf y gostyngiadau mewn gwariant a lefelau gwylio, mae dros dri o bob pump oedolyn yn y Deyrnas Unedig (63%) yn canmol y BBC am ddarparu '*rhaglenni a chynnwys sy'n helpu pobl i ddysgu am bethau newydd'*.[62] O ran sain, roedd y BBC wedi parhau i ddarparu amrywiaeth o ddeunydd dysgu anffurfiol drwy ei orsafoedd radio ac ar BBC Sounds. Mae tua hanner (53%) o ddefnyddwyr BBC Sounds yn dweud eu bod yn gwrando ar bodlediadau addysgol.[63] Mae rhai o deitlau podlediadau mwyaf poblogaidd y BBC yn addysgol eu natur, gan gynnwys *You're Dead to Me,* podlediad hanes sy'n gomedi.

## Partneriaethau

Nodir yn y Siarter Frenhinol y dylai'r BBC annog pobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd drwy feithrin partneriaethau gyda sefydliadau ym meysydd addysg, chwaraeon a diwylliant. Eleni, mae'r BBC wedi canolbwyntio ar gynyddu effaith ei bartneriaethau, gan sicrhau bod partneriaid yn parhau i gael y gwerth gorau posibl o'r cydweithio.

Mae nifer cyffredinol partneriaethau'r BBC ar draws meysydd, gan gynnwys y celfyddydau, chwaraeon, plant ac addysg, wedi cynyddu rhywfaint o'r 494 yn 2021/22 i 502.[64] Un enghraifft o un o'r partneriaethau eleni oedd BBC Arts a'r Reading Agency. Gyda'i gilydd, fe wnaethant gyflwyno *The Big Jubilee Read*, ymgyrch i annog pobl i ddarllen er pleser, gan ddathlu 70 o lyfrau o bob rhan o'r Gymanwlad a oedd yn cyd-fynd â Jiwbilî Blatinwm Ei Mawrhydi y Frenhines.

Y llynedd, fe wnaethom nodi bod y BBC wedi datblygu fframwaith i asesu effaith partneriaethau a'i fod yng nghamau cynnar ei weithredu.[65] Ers hynny, mae wedi dweud wrthym ei fod wedi datblygu'r gwaith hwn, gan sefydlu fframwaith rheoli cyfrifon a chylch adolygu ar gyfer partneriaethau allweddol yn llwyddiannus. Fel rhan o hyn, cynhaliodd y BBC arolwg o tua 40 o bartneriaid allweddol i gael adborth i'w helpu i wella perfformiad. Dywedodd hefyd ei fod wedi cynnal arolygon i ddeall pa gynulleidfaoedd mae ei bartneriaethau presennol yn eu cyrraedd ac mae'n gweithio i greu prosiectau partneriaeth cynnwys creadigol i wella ei berthnasedd i gynulleidfaoedd, gan gynnwys y rheini o fewn grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E.

Rydym yn croesawu cynnydd y BBC yn y maes hwn ac rydym yn falch o'r camau y mae wedi eu cymryd i asesu effaith ei bartneriaethau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC wrth iddo ddatblygu'r gwaith hwn.

### Cydymffurfio ag amodau'r Drwydded Weithredu


Ochr yn ochr â'n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried cydymffurfiad y BBC o ran amodau perthnasol Diben Cyhoeddus 2 y Drwydded Weithredu. Roedd y BBC yn bodloni holl amodau'r drwydded ac eithrio ei gwota i ddarparu 175 awr o raglenni celfyddydol a cherddoriaeth newydd ar BBC Four. Rhoddir manylion pellach yn Atodiad 1.

[61] Data 28 diwrnod cyfunol BARB, setiau teledu yn unig, oedolion 16+, holl sianeli'r BBC.
[62] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2022/23.
[63] Arolwg Podlediadau Ofcom 2023.
[64] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2022/23, t. 73.
[65] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22, t. 27.

# DIBEN CYHOEDDUS 3

## Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, uchaf eu hansawdd ac unigryw

Gall naws unigryw fod yn oddrychol i'w hasesu. Isod, amlygwn ychydig o fetrigau allweddol i roi mewnwelediad i sut mae'r BBC yn unigryw.




Ffynonellau a ddefnyddiwyd; dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; RadioMonitor; Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC; Traciwr Perfformiad y BBC 2022/23 Ofcom; Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2022. Sylwch, adeg y gwaith maes, roedd gwasanaeth ffrydio ITV yn cael ei alw'n ITV Hub/ITV Hub+ ac nid ITVX.

[1] amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon.

[2] ymdrin â rhai o'r genres rhaglenni sy'n cael eu diffinio fel rhai 'mewn perygl.'

**Crynodeb**

- Yn gyffredinol, mae'r BBC wedi perfformio'n dda o dan rai agweddau ar Ddiben Cyhoeddus 3, ond yn llai llwyddiannus ar agweddau eraill.
- Mae'n parhau i fod yn unigryw oherwydd maint ei fuddsoddiad mewn cynnwys newydd o ansawdd uchel yn y Deyrnas Unedig, yn ehangder ei allbwn sy'n cwmpasu amrywiaeth o genres ar draws ei wasanaethau a'r amrywiaeth o gynulleidfaoedd mae'r BBC yn eu cyrraedd.
- Mae grwpiau cynulleidfa D ac E yn parhau i fod yn llai bodlon â'r BBC. Rydym yn cydnabod bod hwn yn faes mae'r BBC yn gweithio arno ac rydym wedi clywed gan gomisiynwyr am eu cynlluniau i fynd i'r afael â'r mater hwn. Edrychwn ymlaen at weld sut mae'r cynlluniau hyn yn cael eu cyflawni er budd cynulleidfaoedd.
- Eleni, rydym wedi cynnal adolygiad manwl i ddeall yn well pam mae grwpiau cynulleidfa D ac E yn llai bodlon â'r BBC. Dywedodd y bobl y buom yn siarad â nhw wrthym ni eu bod eisiau i'r BBC gymryd mwy o risgiau ac arbrofi gyda chynhyrchu cynnwys mwy 'mentrus'. Rydym wedi cyhoeddi'r adolygiad hwn ochr yn ochr â'n Hadroddiad Blynyddol ar y BBC.

**Mae'r *Siarter Frenhinol* yn datgan: Dylai'r BBC ddarparu allbwn o safon uchel mewn nifer o wahanol genres ar draws amrywiaeth o wasanaethau a llwyfannau, sy'n gosod y safon yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Dylai ei wasanaethau fod yn wahanol i'r rhai sy'n cael eu darparu mewn mannau eraill, a dylai gymryd risgiau creadigol, hyd yn oed os nad ydynt i gyd yn llwyddiannus, er mwyn datblygu dulliau gweithredu newydd a chynnwys arloesol.**

Mae natur unigryw yn mesur sut mae'r BBC yn cymharu â darlledwyr eraill, yn ogystal â mesur y gwerth unigryw mae'n ei gynnig i gynulleidfaoedd. Mae wrth galon yr hyn rydym yn disgwyl i'r BBC ei wneud. Rydym yn ystyried y ffactorau allweddol a ganlyn (pum colofn natur unigryw) ar sail y fframwaith mesur perfformiad:

- **ansawdd** allbwn y BBC;
- y **gymysgedd o genres** ac allbwn;
- faint o **allbwn gwreiddiol sy'n cael ei gynhyrchu yn y Deyrnas Unedig**;
- lefel **cymryd risg ac arloesi**; a'r
- **amrywiaeth y cynulleidfaoedd** mae'n eu gwasanaethu.[66]

Nid yw natur unigryw yn golygu bod angen i holl raglenni'r BBC fod yn wahanol i'r hyn mae darlledwyr eraill yn ei ddarparu. Mae ein hasesiad yn ystyried y BBC yn ei gyfanrwydd ac ar draws ei wasanaethau ar sail y mesurau hyn.

## Mae cynulleidfaoedd yn canmol y BBC am ei rôl yn darparu cynnwys o ansawdd uchel

Mae bron i dri chwarter oedolion y Deyrnas Unedig (73%) yn dweud ei bod yn bwysig i gymdeithas bod y BBC yn darparu cynnwys creadigol o ansawdd uchel ac mae 71% yn ei ganmol am gyflawni

[66] Gweler y diffiniad o "allbwn a gwasanaethau unigryw" yng Nghytundeb Fframwaith y BBC, Atodlen 2, paragraffau 1(1) a (2).

hyn.[67] Mae darlledu Jiwbilî Blatinwm y Frenhines yn enghraifft o gynnwys unigryw o ansawdd uchel y BBC sy'n canolbwyntio ar Brydain, gan ddod â'r wlad at ei gilydd. Rhoddodd sylw helaeth i ddathliadau i nodi'r digwyddiad, gan gynnwys rhaglenni fel *Platinum Party at the Palace.* Fe wnaeth bron i 32 miliwn o bobl wylio'r cynnwys hwn ar sianeli teledu'r BBC dros benwythnos y Jiwbilî.[68]

Mae diweddglo dramatig *Happy Valley*, y ddrama a osodwyd yng Ngorllewin Swydd Efrog, yn enghraifft bellach o gynnwys ansawdd uchel a chreadigol a gafodd ei wylio gan 12.1 miliwn o bobl ar gyfartaledd ar y teledu.[69] Canfu ein Traciwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fod tua dwy ran o dair (67%) o wylwyr yn ystod y chwe mis diwethaf wedi rhoi sgôr uchel i sianeli teledu'r BBC am '*ddigwyddiadau darlledu sy'n dod â'r wlad at ei gilydd ar gyfer profiad gwylio ar y cyd'*.[70]



Mae gwariant y BBC ar raglenni wedi parhau i gynyddu a chyrhaeddodd ei lefel uchaf erioed yn 2022.[71] Mewn termau real, y BBC oedd yr unig sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gynyddu cyfanswm ei wariant ar raglenni yn 2022. Roedd hyn yn bennaf oherwydd rhaglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf, ac roedd y BBC wedi gwario 8% yn fwy yr awr ar hyn ar gyfartaledd nag y gwnaeth yn 2021.[72]

## Mae'r BBC yn parhau i ddarparu cymysgedd eang o gynnwys

Wrth asesu'r amrywiaeth o allbwn mae'r BBC yn ei gynnig i gynulleidfaoedd, rydym wedi edrych ar wahân ar allbwn clyweledol a sain y BBC.

**Teledu a BBC iPlayer**

Mae sianeli teledu'r BBC a BBC iPlayer yn parhau i ddarparu cymysgedd ehangach o genres na darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill ac yn cymharu'n ffafriol â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill ymysg eu gwylwyr yn ystod y chwe mis diwethaf am ddarparu '*amrywiaeth eang o*

---

[67] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2022/23.
[68] Barb Gwylio'n fyw ar draws yr holl raglenni ar holl sianeli teledu'r BBC dros benwythnos y Jiwbilî 2 Mehefin – 5 Mehefin 2022, setiau teledu yn unig. Meini prawf cyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol.
[69] Data 28 diwrnod cyfunol Barb, setiau teledu yn unig.
[70] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2022.
[71] Mae gwariant ar raglenni yn cynrychioli cyfanswm cost cynhyrchu neu gaffael, gan gynnwys costau hawliau ond heb gynnwys buddsoddiad trydydd parti, ar gyfer rhaglenni a ddarlledir yn ystod y cyfnod penodol (yn yr achos hwn, ar gyfer blwyddyn galendr 2022). Yn achos comisiynau, mae'n cynrychioli'r pris a delir i'r cynhyrchydd annibynnol, ac felly mae'n cynnwys ychwanegiad at gostau cynhyrchu. Oni nodir yn wahanol, cyflwynir ffigurau mewn termau nominal, sy'n golygu nad yw data hanesyddol wedi cael ei addasu i ystyried chwyddiant.
[72] Dadansoddiad Ofcom o ddata teledu darlledwyr.

*wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon*', gyda 67% a 75% yn y drefn honno yn rhoi sgôr uchel iddynt am hyn.[73]

Mae darpariaeth y BBC o genres mewn perygl yn rhan allweddol o'i arlwy unigryw ac mae'n gosod y BBC ar wahân i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.[74] Ar draws y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, mae'r BBC yn cyfrif am y rhan fwyaf (61%) o oriau gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf o genres mewn perygl a'r rhan fwyaf (67%) o'r gwariant cysylltiedig.[75] Cyn y flwyddyn adrodd hon, roedd oriau rhaglenni'r BBC mewn perygl a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf wedi gostwng yn gyson. Eleni, bu cynnydd bach mewn oriau a gwariant sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar genres sydd mewn perygl.[76] Mae'r amrywiaeth eang hon o gynnwys yn llai tebygol o gael ei ddarparu mewn mannau eraill ac felly mae'n gwneud cyfraniad pwysig at natur unigryw'r BBC.

Er gwaethaf y cynnydd bach yn nifer yr oriau mae'r BBC yn eu darparu, mae lefelau gwylio genres mewn perygl wedi parhau i ostwng ymhellach ers 2020. Mae cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall ar draws rhaglenni ffeithiol, y celfyddydau a chomedi arbenigol, er bod gwylio rhaglenni cerddoriaeth wedi aros yn fwy sefydlog.[77] Fodd bynnag, mae canfyddiadau cynulleidfaoedd yn dal yn gadarnhaol ar y cyfan, yn enwedig o'u cymharu â gwylwyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill. Mae tua thri gwyliwr o bob pump yn dweud bod sianeli teledu'r BBC (60%) a BBC iPlayer (62%) yn perfformio'n dda o ran darparu '*rhaglenni am wyddoniaeth, y celfyddydau, diwylliant a chrefydd'*. Mae hyn wedi aros yn gyson o un flwyddyn i'r llall.[78]

**Radio a BBC Sounds**

Mae cynulleidfaoedd hefyd yn gadarnhaol am amrywiaeth a natur unigryw gwasanaethau radio darlledu a sain ar-lein y BBC. Mae BBC Sounds yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys cerddoriaeth a llafar, gan gynnwys cerddoriaeth glasurol a phop, newyddion a materion cyfoes, dramâu a rhaglenni dogfen. Mae tua phedwar o bob pump o ddefnyddwyr BBC Sounds (81%) yn gadarnhaol yn ei gylch ar sail yr '*amrywiaeth o gynnwys'* mae'n ei gynnig.[79]

Rydym yn gweithio gyda'r BBC ar ddatblygu'r ffordd fwyaf ystyrlon o fesur yr amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael ar BBC Sounds. Er enghraifft, gan ddefnyddio dull ciplun, o 14 Ebrill 2023 ymlaen roedd tua 7,800 o deitlau penodol ar BBC Sounds, gyda thros 194,000 o benodau ar gael ar-alw ar draws un ar ddeg o genres lefel uchaf: ffeithiol, cerddoriaeth, adloniant, newyddion, comedi, chwaraeon, drama, crefydd a moeseg, dysgu, plant a'r tywydd[80].

BBC Radio 2 yw'r orsaf radio y gwrandewir arni fwyaf yn y Deyrnas Unedig o hyd, gyda chyfartaledd o 14.2 miliwn o oedolion yn gwrando bob wythnos. BBC Radio 6 Music yw'r orsaf ddigidol yn unig y gwrandewir arni fwyaf yn y Deyrnas Unedig, gyda chynulleidfa wythnosol gyfartalog o 2.7 miliwn.[81]

---

[73] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2022.
[74] Dadansoddiad Ofcom o ddata teledu darlledwyr a data fideo ar alw Ampere Analysis. Mae genres mewn perygl yn cynnwys genres sy'n cyfrannu'n benodol at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, sydd ddim yn cael eu darparu'n ddigonol neu sy'n dirywio ar draws darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fel y nodir yn Atodlen 2 y Cytundeb. Mae hyn yn cynnwys y celfyddydau, rhaglenni plant, comedi, cerddoriaeth, crefydd a chynnwys ffeithiol arbenigol.
[75] Dadansoddiad Ofcom o ddata teledu darlledwyr.
[76] Roedd y cynnydd yn bennaf oherwydd rhaglenni'r celfyddydau, rhaglenni cerddoriaeth a rhaglenni plant. Mae oriau ffeithiol arbenigol eraill wedi parhau i ostwng.
[77] Data 28 diwrnod cyfunol Barb, setiau teledu yn unig.
[78] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2022.
[79] Arolwg Sain Ofcom 2023.
[80] Dadansoddiad Ofcom o ddata a ddarparwyd gan y BBC.
[81] RAJAR Chwarter 1 2023, pwysoliad 12 mis.

Mae dros draean o oedolion y Deyrnas Unedig (36%) yn dweud bod radio'r BBC *'yn well nag eraill'* am ddarparu *'cymysgedd eang o gynnwys radio'*, gan gynyddu i 58% ymysg gwrandawyr radio'r BBC. Mae gwrandawyr gorsafoedd radio penodol y BBC hefyd yn rhoi sgôr uwch i radio'r BBC yn gyffredinol ar hyn (er enghraifft, mae 70% o wrandawyr BBC Radio 6 Music yn rhoi sgôr cadarnhaol i'r BBC yma a 69% o wrandawyr BBC Radio 4).[82] Mae data'r BBC ei hun hefyd yn dangos bod cynulleidfaoedd yn gweld rhaglenni radio'r BBC fel rhywbeth gwahanol. Mae 77% o wrandawyr yn dweud bod rhaglenni radio'r BBC yn darparu cynnwys na fyddent yn ei glywed yn unman arall (o'i gymharu â 65% ar gyfer gorsafoedd radio nad ydynt yn rhai'r BBC).[83]

Mae cyfran y gerddoriaeth newydd sy'n cael ei chwarae ar orsafoedd radio'r BBC yn dal yn uchel; 57% ar gyfer BBC Radio 1 a 26% ar BBC Radio 2 (mae'r ddau yn cymharu'n ffafriol â gorsafoedd tebyg nad ydynt yn rhai'r BBC). Mae gan y ddwy orsaf BBC hyn hefyd y nifer uchaf o draciau cerddoriaeth newydd sy'n cael eu chwarae ac maent yn cynnal cyfradd ailddarlledu llawer is na gorsafoedd tebyg.[84] Fodd bynnag, rydym yn nodi bod cyfran y gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae gan artistiaid newydd ac sy'n dod i'r amlwg o'r Deyrnas Unedig ar BBC Radio 2 wedi gostwng o 14% yn 2021 i 8% yn 2022. Yn yr un modd, mae cyfran yr ychwanegiadau at restr chwarae BBC Radio 2 gan artistiaid newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg o'r Deyrnas Unedig wedi gostwng o 19% i 14% dros yr un cyfnod.[85] Er bod tuedd debyg i'w gweld hefyd ymysg gorsafoedd radio masnachol eraill tebyg, gyda'r dirywiad yn fwy mewn rhai achosion, byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC ynghylch hyn. Rydym wedi pwysleisio o'r blaen ein bod ni o'r farn bod faint o gerddoriaeth newydd sy'n cael ei chwarae ar orsafoedd radio'r BBC yn elfen allweddol o natur unigryw.

## Mae cynulleidfaoedd wedi rhoi sgôr uchel i'r BBC am ddarparu cynnwys sy'n tarddu o'r Deyrnas Unedig

Gyda'r defnydd cynyddol o wasanaethau fideo ar-alw tanysgrifiadau byd-eang (SVoD), bydd rôl y BBC o ran parhau i ddarparu cynnwys sy'n adlewyrchu bywydau pobl yn y Deyrnas Unedig ac y gall holl gynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig gysylltu â nhw yn bwynt allweddol o ran gwahaniaethu, sy'n gallu ei wneud yn fwy unigryw.

Roedd oriau gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar draws pob genre ar y BBC wedi cynyddu i 21348 yn 2022 o 21,153 yn 2021 ac roedd gwariant wedi cynyddu i £1.43 biliwn o £1.29 biliwn.[86] Mae'r ddau fesur wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig.[87]

Fe wnaethom nodi'r llynedd bod cadw cydbwysedd rhwng rhaglenni sy'n cael eu prynu a rhaglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf fel rhan o gynnig unigryw yn bwysig, ac y byddem yn parhau i fonitro'r cydbwysedd rhwng y ddau. Fel cyfran o gyfanswm yr oriau, mae'r rhaglenni sy'n cael eu prynu wedi aros yn sefydlog, ar 1.5%, ac er bod gwariant ar gynnwys wedi ei gaffael wedi cynyddu yn 2022, roedd yn dal yn isel, sef 3.3% o gyfanswm y gwariant.[88]

---

[82] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2022/23.
[83] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23', t. 145.
[84] Dadansoddiad Ofcom o ddata RadioMonitor.
[85] Mae gan BBC Radio 2 gyfartaledd o 17% rhwng 2018 a 2022 o ychwanegiadau rhestr chwarae gan artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg. Dywedodd y BBC wrthym fod y gwahaniaeth o 3% rhwng ffigur 2022 (14%) a'r cyfartaledd hwn (17%) yn cyfateb i tua 9 neu 10 o ganeuon ar draws blwyddyn. Y rhan fwyaf o flynyddoedd, mae tua 310-320 o ychwanegiadau.
[86] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r Teledu'r BBC.
[87] Mae'r cynnydd hwn mewn gwariant mewn termau real – h.y. gan ystyried chwyddiant CPI.
[88] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r Teledu'r BBC.

Mae cynulleidfaoedd yn dal i roi sgôr uchel i'r BBC am '*raglenni a wneir ar gyfer cynulleidfaoedd yn y Deyrnas Unedig'*; mae 67% o wylwyr yn ystod y chwe mis diwethaf yn dweud hyn ar gyfer sianeli teledu'r BBC, ac mae 73% yn dweud hyn ar gyfer BBC iPlayer (cynnydd o'r 70% yn 2021).[89]

## Bydd y BBC yn pharhau i wella drwy gymryd mwy o risgiau ac arloesi gyda'i gynnwys

Mae cysyniadau cymryd risg ac arloesi yn gymhleth a gallant olygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Gan hynny, rydym yn edrych ar gasgliad o fetrigau i ddeall sut mae cymryd risgiau ac arloesi yn rhan o waith y BBC.

Un ffordd y gall y BBC gymryd risgiau ac arloesi yw drwy chwilio am amrywiaeth greadigol. Er enghraifft, yn 2022 defnyddiodd 65 o gwmnïau cynhyrchu teledu newydd, cynnydd o'r 59 a ddefnyddiodd y flwyddyn flaenorol, a 21 o gwmnïau cynhyrchu radio newydd.[90] [91] Ffordd arall yw drwy gomisiynu teitlau rhaglenni newydd (yn hytrach na chyfresi sy'n dychwelyd). Cododd nifer y teitlau newydd ar y teledu i 308 yn 2022, i fyny o 275 yn 2021. Roedd y 308 o deitlau newydd hyn yn cyfrif am 43% o gyfanswm teitlau'r BBC yn 2022, i fyny o 40% yn 2021. Cafodd y cynnydd ei sbarduno gan ail-lansiad BBC Three, a ddangosodd 69 o deitlau newydd yn 2022.[92]

Gall y BBC hefyd ddangos ei fod yn cymryd risgiau ac yn arloesi drwy arbrofi â fformatau gwahanol, cyrraedd cynulleidfaoedd mewn ffyrdd newydd ac arloesi o ran sut mae'n gwneud cynnwys yn fwy hygyrch i bob cynulleidfa. Un enghraifft o fformat newydd a llwyddiannus a gynhyrchwyd yn y Deyrnas Unedig gan y BBC yw *The Traitors*. Dywedir yn adroddiad blynyddol y BBC mai dyma'r gyfres adloniant newydd uchaf ei sgôr ar y BBC ers o leiaf 2019 sy'n darparu'n benodol ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc.[93] Ar draws y sain, cafodd cyfweliad olaf Deborah James, cyflwynydd *You, Me and the Big C*, ar BBC Radio 5 Live, lle siaradodd yn agored am ei salwch, ei hofnau a'i gobaith y gallai ei stori helpu eraill, ei dewis gan wrandawyr fel 'Moment y Flwyddyn' yng Ngwobrau'r Diwydiant Sain a Radio 2023. Mae podlediad [94]*I'm Not a Monster- The Shamima Begum Story*, yn enghraifft o bodlediad unigryw a nodedig a gyflwynir gan y BBC.[95]

---

[89] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2022.
[90] Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC 2022/23, t. 6 a t. 13.
[91] Ar ben hynny, roedd mwy o oriau cymwys yn cael eu cynhyrchu gan gwmnïau annibynnol. Ar draws gwasanaethau teledu'r BBC, roedd hyn yn 33.2% o'r oriau cymwys yn 2022 – cynnydd ar ffigur y flwyddyn flaenorol o 31.4%. (Dadansoddiad Ofcom o ddata'r Teledu'r BBC).
[92] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r Teledu'r BBC. Mae'r data yn cynnwys teitlau gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar sianeli teledu'r BBC ac eithrio BBC News a BBC Parliament, a darllediadau pleidiau gwleidyddol.
[93] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/2023', t. 26.
[94] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/2023', t. 24.
[95] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/2023', t. 113.



Mae canfyddiadau cyffredinol am brif ddatganiad Diben Cyhoeddus 3 '*cynnwys creadigol o ansawdd uchel'* yn dal yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 65% yn cytuno bod y BBC yn darparu hyn. Fodd bynnag, mae'r datganiadau sy'n ymwneud â chymryd risg ac arloesi yn dal i gael sgoriau is, gyda dim ond tua hanner yn gadarnhaol tuag at y BBC ar gyfer darparu cynnwys sy'n *'mentro bod yn wahanol'* (47%) neu sy'n *'wahanol i ddarparwyr eraill'* (50%).[96]

Fel rhan o'n hasesiad dan y Drwydded Weithredu newydd yn adroddiad y flwyddyn nesaf, byddwn yn ystyried arloesi'n ehangach ar wasanaethau ar-lein y BBC, a'r effaith mae'n ei chael ar gynulleidfaoedd. Mae'r Drwydded yn cynnwys gofynion bod y BBC yn adrodd ar natur unigryw ei wasanaethau ar-lein ac yn mynnu ei fod yn ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i rai mathau o gynnwys ar BBC iPlayer, BBC Sounds a gwefan/apiau'r BBC. Rydym yn trafod ymhellach pa mor hawdd yw dod o hyd i bethau yn Adran 7.

## Mae gan y BBC nifer o gynlluniau i ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau a hefyd cynulleidfaoedd D ac E ac rydym yn edrych ymlaen at ddeall eu heffaith

**Cynulleidfaoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol is**

Fel rydym wedi ei nodi yn ein hadroddiadau blaenorol, mae cynulleidfaoedd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn dal i roi sgôr is i'r BBC ar ddatganiadau sy'n ymwneud â Diben Cyhoeddus 3 o'u cymharu â grwpiau eraill. Y llynedd, fe wnaethom ddweud bod y BBC yn bwriadu comisiynu mwy o gynnwys ar draws ei wasanaethau sydd wedi eu hanelu at y grŵp hwn, ac yn 2022/23 fe wnaeth y BBC ddarlledu nifer o raglenni teledu ar draws amrywiaeth o genres, a oedd yn perfformio'n dda ymysg y grŵp hwn.[97] Fodd bynnag, mae bodlonrwydd cyffredinol gwasanaethau'r BBC yn dal yn is ymysg y cynulleidfaoedd hyn. Canfu ein Hadolygiad o Gynulleidfaoedd y BBC fod y rhai yng ngrwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E yn tueddu i deimlo bod y BBC yn 'sych' ac o ddifri o'i gymharu â darlledwyr a gwasanaethau eraill, a'u bod eisiau i'r BBC gymryd mwy o risgiau, ac arbrofi gyda chynhyrchu cynnwys 'gwreiddiol'. Fe wnaeth rhai o'r cyfranogwyr iau a gynhwyswyd yn ein hymchwil dynnu sylw at y ffaith bod rhaglenni ar BBC Three yn teimlo'n fwy mentrus, ac yn fwy dilys. Ar y cyfan, fodd bynnag, roedd y bobl y buom yn siarad â nhw yn teimlo, er bod y BBC yn dal i gynhyrchu rhywfaint o raglenni o safon, nad yw'n sefyll allan mewn maes gorlawn mwyach. Mae ein hadolygiad llawn o grwpiau cynulleidfa D ac E ar gael yma.

[96] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2022/23.
[97] Gan gynnwys *Waterloo Road, Mrs Browns Boys, Happy Valley, Spy In The Ocean.*

**Cynulleidfaoedd iau**

Bu pryderon hefyd ynghylch sut mae'r BBC yn parhau i gyrraedd cynulleidfaoedd iau, ac yn ein Hadroddiadau Blynyddol blaenorol ar y BBC rydym wedi nodi pwysigrwydd yn myfyrio ar ei strategaethau i gyrraedd y cynulleidfaoedd hyn.

Mae'r BBC wedi dweud wrthym mai un o'i strategaethau ar gyfer denu cynulleidfaoedd iau yw drwy ehangu ei ddarpariaeth cynnwys gyffredinol ar BBC iPlayer. Mae hyn yn cynnwys darparu cynnwys yn hirach a rhagor o gynnwys ar BBC iPlayer er mwyn parhau i ddenu cynulleidfaoedd iau.[98] Mae rhywfaint o dystiolaeth i ddangos bod y BBC wedi cael rhywfaint o lwyddiant o ran denu gwylwyr iau i BBC iPlayer. Er enghraifft, mae data Barb yn dangos bod 23% o gynulleidfa BBC iPlayer sy'n oedolion ar draws 2022/23 yn 16-34 oed o'i gymharu â 6% ar gyfer sianeli darlledu teledu'r BBC.[99] Ar ben hynny, mae data'r BBC yn dangos twf ymylol yn y defnydd ymysg pobl iau ar BBC iPlayer: roedd y cyfrifon gweithredol wythnosol ar gyfer pobl ifanc dan 35 oed wedi cynyddu 5% ers y flwyddyn flaenorol[100] ac roedd 3.5 miliwn o bobl ifanc 16-34 oed yn gwylio cynnwys ar BBC iPlayer ar gyfartaledd bob wythnos yn 2022/2023.[101] Mae'n ymddangos bod cynulleidfaoedd iau hefyd yn fwy cadarnhaol am apêl BBC iPlayer; mae 75% o bobl ifanc 16-34 oed sydd wedi gwylio yn ystod y chwe mis diwethaf yn ei ganmol am ei fod yn '*apelio at amrywiaeth eang o wahanol gynulleidfaoedd*'. Mae hyn yn uwch na'r ffigur ar gyfer pob oedolyn (70%) ac ar gyfer y rhai sy'n 55 oed a hŷn (67%), sydd wedi gwylio BBC iPlayer yn ystod y chwe mis diwethaf.[102]

Mae'r darlun ychydig yn wahanol ar gyfer gwasanaethau sain. Er eu bod yn gwyro at gynulleidfaoedd hŷn, mae gan orsafoedd radio'r BBC nifer fawr o wrandawyr iau[103] ac mae gan y gorsafoedd hynny sydd wedi eu targedu at ddemograffeg iau broffil cynulleidfa gydag o leiaf eu hanner o dan 35 oed.[104] Fodd bynnag, mae ychydig dros un o bob pump (22%) o oedolion yn y Deyrnas Unedig yn dweud eu bod yn defnyddio BBC Sounds bob wythnos, ac yn achos y rhai o dan 35 oed mae hyn tua chwarter (26%), sy'n debyg i'r ffigur cyffredinol ac yn ddigyfnewid o un flwyddyn i'r llall.[105]

**BBC Three**

Mae'r BBC wedi ceisio diwallu anghenion cynulleidfaoedd iau yn well (yn ogystal â phobl mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is) drwy nifer o strategaethau, gan gynnwys ail-lansio BBC Three, a ddychwelodd fel gwasanaeth teledu a ddarlledir yn 2022. Mae pobl 16-34 oed yn fwy tebygol o wylio BBC Three ar-lein na'r sianel ddarlledu (55% o'u gwylio drwy iPlayer o'i gymharu â 45% drwy'r sianeli llinol naill ai'n fyw neu wedi ei recordio) ond mae ITV2 (23% o'i gymharu â 77%) ac E4 (22% o'i gymharu â 78%) yn dal i gael eu gwylio'n bennaf drwy eu sianeli darlledu perthnasol.[106]

Mae arwyddion bod y sianel sydd wedi ei hail-lansio wedi wynebu heriau o ran denu gwylwyr. Roedd cyfran gyfartalog gwylwyr y sianel rhwng mis Chwefror 2022 a mis Gorffennaf 2023 yn 0.5% o'r holl

---

[98] RFI Ch26.
[99] Barb fel y'i gwelwyd, pob dyfais, Ebrill 2022 – Mawrth 2023; sylfaen oedolion 16+.
[100] Cyfrifon gweithredol wythnosol cyfartalog BBC iPlayer sy'n perthyn i blant dan 35 oed: 4 miliwn o 3.8 miliwn [Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23]', t. 45, Ffynhonnell: Piano Analytics.
[101] Barb fel y'i gwelwyd, pob dyfais, Ebrill 2022 – Mawrth 2023. Meini prawf cyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol.
[102] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2022.
[103] RAJAR. Mae gan BBC Radio 2, yr orsaf fwyaf yn y Deyrnas Unedig, dros 2 filiwn o wrandawyr o dan 35 oed ac mae'r nesaf ar y rhestr, BBC Radio 4, yn cyrraedd dros 1 miliwn o bobl yn y grŵp oedran hwn.
[104] BBC Radio 1, BBC Radio 1Xtra a BBC Asian Network.
[105] Arolwg Sain Ofcom 2023, 2022.
[106] Barb fel y'i gwelwyd, pob dyfais

gynulleidfaoedd a 0.9% o bobl ifanc 16-34 oed.[107] Mae hyn yn is o lawer na sianeli portffolio darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol sy'n targedu cynulleidfaoedd tebyg, fel ITV2, a oedd a chyfran o 8% o'r gwylwyr 16-34 oed yn ystod yr un cyfnod, ac E4, a oedd â chyfran o 4% o'r grŵp hwn. Mae pobl ifanc 16-34 oed o gartrefi C2DE yn gynulleidfa darged allweddol ar gyfer BBC Three. Fodd bynnag, dim ond 7% o oedolion oedd yn gwylio'r sianel o'r grŵp hwnnw, o'i gymharu â 16% ar gyfer ITV2 a 9% ar gyfer E4.[108]

Mae'r rhai sy'n gwylio BBC Three yn tueddu i'w ystyried yn ffafriol. Dywedodd tua thri o bob pump o wylwyr BBC Three yn ystod y chwe mis diwethaf (59%) eu bod yn fodlon â'r sianel, a dim ond 7% oedd yn anfodlon. Wrth edrych ar wahaniaethau demograffig, mae pobl ifanc 16-34 oed (68%) yn fwy tebygol o fod yn fodlon. Mae'r rhai sydd ar aelwydydd C2DE yn fwy tebygol o fod yn anfodlon (9%), sy'n dangos bod gan y BBC fwy i'w wneud i ymgysylltu â'r gynulleidfa hon.[109]

## Cydymffurfio ag amodau'r Drwydded Weithredu

Ochr yn ochr â'n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried cydymffurfiad y BBC o ran amodau perthnasol y Drwydded Weithredu o dan Ddiben Cyhoeddus 3. Eleni, roedd y BBC yn bodloni holl amodau'r drwydded yn y maes hwn. Gweler Atodiad 1 am asesiad llawn o ofynion y Drwydded Weithredu.

[107] Dyma'r cyfnod ers ail-lansio'r sianel ddarlledu.
[108] Data 28 diwrnod cyfunol BARB, setiau teledu yn unig, 7pm tan hanner nos yn unig.
[109] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2022


# DIBEN CYHOEDDUS 4

**Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol pob un o'r gwledydd a'r rhanbarthau ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y DU**


## Graddau cadarnhaol i gyflwyniad y BBC o Ddiben Cyhoeddus 4

- **60%** CADARNHAOL – Cynnwys sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant cymunedau ar draws y DU
- **55%** CADARNHAOL – Cynnwys pobl fel fi
- **53%** CADARNHAOL – Darparu cynnwys sy'n berthnasol i mi
- **49%** CADARNHAOL – Adlewyrchu bywydau pobl fel fi

## Cyfran o oriau rhwydwaith cymwys y BBC a gwariant y tu allan i Lundain





## Amrywiaeth y gweithlu – staff gwasanaeth cyhoeddus DU y BBC




Ffigurau gweithlu'n seiliedig ar ddata gweladwy[1]

## Lledaeniad gweithlu Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC ar draws y DU




Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Traciwr Perfformiad y BBC 2022/23; Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC a ddarparwyd mewn ymateb i arolwg gweithlu gwasanaethau cyhoeddus y Deyrnas Unedig/EDI Ofcom 2023. Data gweithwyr gweladwy cyfun ar gyfer 31 Mawrth 2023.

[1] Mae 'data gweledol' yn golygu bod y ffigurau'n seiliedig ar y bobl hynny yn y gweithlu a ddarparodd wybodaeth yn unig. Wrth ddefnyddio data gweithlu 'cyfanswm', sydd hefyd yn cynnwys categorïau data 'anhysbys' h.y. 'heb eu datgelu' a 'heb eu casglu', mae'r gynrychiolaeth data fel a ganlyn: Menywod 47%;

Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig 15%; Anabledd 10%; LGB+ 9%; 50 oed+ 32%; Crefydd 39%; Cefndir dosbarth gweithiol 22%. Mae data manylach ar gael ar P42 ac yn yr adroddiad rhyngweithiol.

**Crynodeb**

- Mae'r rhan fwyaf o gynulleidfaoedd (60%) yn rhoi sgôr gadarnhaol i'r BBC am adlewyrchu bywyd a diwylliannau cymunedau ledled y Deyrnas Unedig.
- Mae'r BBC wedi rhagori ar ei darged gwariant ar gynnwys teledu amrywiol gwerth £100 miliwn ac mae ei wariant y tu allan i Lundain ar raglenni rhwydwaith wedi cynyddu fel cyfran o gyfanswm y gwariant cymwys o 54% yn 2021 i 58% yn 2022.
- Mae'r BBC yn cyrraedd pwynt pwysig yn ei waith amrywiaeth: wrth i nifer o'i strategaethau mwyaf ar y sgrin ac oddi ar y sgrin ddod i'w casgliadau, rydym yn ei annog i ddefnyddio strategaethau amrywiaeth yn y dyfodol i adeiladu'n uchelgeisiol ar y sylfeini y mae wedi eu gosod.
- Mae wedi cynnal sgoriau canfyddiadau cynulleidfaoedd cadarnhaol yn y gwledydd, a oedd yn dal yn unol â chyfanswm y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae canfyddiadau cynulleidfaoedd ynghylch sut mae'r BBC yn rhoi sylw i lle maent yn byw yn dal yn isel ar 53%. Wrth i'r BBC weithredu ei gynllun Across the UK a symud mwy o gynhyrchu cynnwys i'r gwledydd a'r rhanbarthau, byddem yn gobeithio gweld newid yn y canfyddiadau hyn.

**Mae'r *Siarter Frenhinol* yn datgan: Dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Drwy wneud hynny, dylai'r BBC gynrychioli a phortreadu bywydau pobl y Deyrnas Unedig heddiw yn gywir ac yn ddilys, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau gwahanol a safbwyntiau amgen sy'n creu ei chymdeithas. Dylai sicrhau ei fod yn darparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau a helpu i gyfrannu at lesiant a chydlyniant cymdeithasol y Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC, wrth gomisiynu a darparu allbwn, fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad.**

Dylai'r ffordd mae'r BBC yn adlewyrchu ac yn cynrychioli cymunedau amrywiol y Deyrnas Unedig fod yn elfen ganolog yn ei ddull o gomisiynu a chynhyrchu. Mae ein hasesiad ar gyfer y Diben Cyhoeddus hwn yn cwmpasu dau faes:

- sut mae'r BBC wedi cynrychioli a phortreadu cymunedau amrywiol ar y sgrin a chanfyddiadau cynulleidfaoedd o hyn; ynghyd â sut mae wedi cynyddu amrywiaeth doniau ar y sgrin ac oddi ar y sgrin a sut mae'n adrodd ar gynlluniau i gyflawni hyn; a
- sut mae'r BBC wedi cynrychioli a phortreadu'r gwledydd a'r rhanbarthau, beth yw canfyddiad cynulleidfaoedd a sut mae wedi cynorthwyo'r sector creadigol ledled y Deyrnas Unedig.

## Amrywiaeth

### Cynulleidfaoedd amrywiol

**Mae'r BBC yn parhau â'i ymdrechion i fynd i'r afael â chymhlethdodau darparu ar gyfer pob cynulleidfa**

Mae ein hymchwil cynulleidfa yn dangos bod y BBC yn perfformio'n ffafriol ar y cyfan mewn meysydd sy'n ymwneud ag amrywiaeth ar gyfer teledu'r BBC a BBC iPlayer o'i gymharu â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.[110] Mae'r rhan fwyaf o oedolion y Deyrnas Unedig (60%) hefyd yn rhoi sgôr gadarnhaol i'r darlledwr ar y datganiad *'cynnwys sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliannau cymunedau ledled y Deyrnas Unedig'*. Fodd bynnag, dyma'r diben â'r sgôr isaf yn gyffredinol o hyd – yn enwedig gyda phobl anabl o dan 65 oed (54%) a chynulleidfaoedd D ac E (54%).[111]

Rydym yn gwybod bod y materion sy'n dylanwadu ar fodlonrwydd cynulleidfaoedd o ran cynrychiolaeth a phortreadu yn gymhleth, fel mae ein Hadolygiad o Gynulleidfaoedd y BBC yn ei ddangos. Er bod y cyfranogwyr yn teimlo bod rhywfaint o gynnwys yn berthnasol i'w bywydau, roedd pobl yn grwpiau D ac E yn teimlo bod cymhlethdod eu bywydau – gan gynnwys trafferthion ac anawsterau pobl ond hefyd eu llawenydd a'u llwyddiannau – yn absennol yn gyffredinol o gynnwys y BBC, a phan oedd grwpiau D ac E yn cael eu cynrychioli, roeddent yn gyffredinol naill ai'n cael eu beirniadu neu eu troi'n ystrydebau.

Rydym hefyd wedi nodi o'r blaen y gallai metrigau bodlonrwydd cynulleidfaoedd gael eu gwyro gan faterion ehangach sy'n ymwneud ag enw da, fel canfyddiad o ragfarn. Gan hynny, rydym wedi annog y BBC i archwilio sut arall y gallai fesur ac adrodd yn llwyddiannus ar effaith ei gynnwys ar gynulleidfaoedd penodol. Mae trafodaethau diweddar gyda'r BBC yn dangos bod ganddo'r wybodaeth berthnasol mewn llawer o achosion, felly rydym yn ymgysylltu â'r BBC i ddeall yn well sut mae'n defnyddio'r wybodaeth hon i ganfod beth sy'n gyrru lefelau is o fodlonrwydd â chynnwys ymysg rhai grwpiau.[112]

**Mae gan y BBC amrywiaeth eang o gynlluniau cynnwys ar waith sydd wedi eu dylunio i wasanaethu pob cynulleidfa. Dylai barhau i weithio i ddangos sut mae'n asesu ac yn adeiladu ar effaith y cynlluniau hyn**

Eleni, rhoddodd y BBC ragor o wybodaeth i Ofcom am ei ddull o gasglu data canfyddiadau cynulleidfaoedd ac egluro sut bydd yn mesur effaith ei raglen Across the UK ar gynulleidfaoedd ar lefel uchel. Fodd bynnag, mewn meysydd lle mae'r BBC wedi nodi lefelau is parhaus o fodlonrwydd cynulleidfaoedd o'i gymharu â chynulleidfa gyfartalog y Deyrnas Unedig, fel ymysg y rhai sydd ag anabledd neu grwpiau lleiafrifoedd ethnig, mae'r strategaeth a'r wybodaeth werthuso a ddarperir yn llai cynhwysfawr.[113] Rydym yn gwybod bod gan y BBC amrywiaeth o gynlluniau ar waith i gefnogi mwy o gynrychiolaeth o wahanol ethnigrwydd ac anableddau ar y sgrin ac oddi arni. Mewn cynnwys wedi ei sgriptio, er enghraifft, mae'n adrodd am ymdrechu i gastio pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o anabledd mewn rolau anabl ac i gastio actorion anabl mewn rolau nad ydynt wedi eu hysgrifennu'n benodol i fod yn anabl. Mewn cynyrchiadau heb eu sgriptio, ei nod yw bod o leiaf un cyfrannwr, cyflwynydd neu berfformiwr sydd â phrofiad uniongyrchol o anabledd yn ymddangos ym mhob rhaglen.[114] Eto i gyd, ychydig o welededd sydd o ran sut mae mentrau o'r fath yn cael eu hasesu i ddeall eu heffaith ar gynulleidfaoedd ag anableddau neu sut mae hyn yn bwydo'n ôl i amcanion strategol ehangach ar gyfer y grwpiau hyn.

Bydd defnyddio dull cyson o fesur effaith ar gynulleidfaoedd yn galluogi'r BBC i werthuso ei amrywiaeth eang o strategaethau a sicrhau bod penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol yn gallu

[110] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2022.
[111] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2022/23.
[112] BBC RFI Ch24.
[113] BBC RFI Ch26.
[114] Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC 2022/23, t. 8.

ystyried anghenion a dymuniadau'r grwpiau llai bodlon hynny. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC ynghylch hyn.

## Cynnwys amrywiol

**Am y tro cyntaf ers dechrau'r Siarter bresennol, mae gan y BBC broses o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer comisiynu ac asesu sut mae cyflenwyr yn cyflawni ei ofynion cynhyrchu amrywiol**

Rydym yn falch o weld bod adroddiadau Diwedd Cynhyrchiad wedi cael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2022. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr cynnwys adrodd ar gyflawni eu hymrwymiadau o ran meini prawf amrywiaeth, ar ôl iddynt gwblhau cynhyrchiad. Ochr yn ochr â holiadur sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth arweinyddiaeth cwmni cynhyrchu, mae'r adroddiadau Diwedd Cynhyrchiad yn fecanwaith allweddol i'r BBC werthuso amrywiaeth cynyrchiadau wedi eu cwblhau a chydymffurfiad cyflenwyr â'r ymrwymiadau y cytunwyd arnynt. Mae'r BBC yn cydnabod bod mwy i'w wneud i'w gwreiddio fel rhan 'busnes fel arfer' o'r broses gomisiynu. Ers mis Ebrill 2022, mae 50% o gyflenwyr sy'n darparu cynyrchiadau wedi cwblhau adroddiad Diwedd Cynhyrchiad ac mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod yn cymryd camau pellach, fel digideiddio'r broses adrodd i hwyluso cyfraddau cwblhau uwch.[115] Wrth i adroddiadau Diwedd Cynhyrchiad ddod yn fusnes fel arfer, bydd yn bwysig bod gan y BBC hefyd ddull gorfodi priodol ar gyfer peidio â chwblhau adroddiadau Diwedd Cynhyrchiad. Byddwn yn monitro'r datblygiadau hyn yn ofalus.






## Amrywiaeth y gweithlu

**Mae'r BBC yn gwneud cynnydd tuag at ei dargedau amrywiaeth y gweithlu, ond mae mwy i'w wneud o hyd**

Eleni, yn unol â'r newidiadau diweddar i'n hadroddiadau Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad blynyddol ehangach ym maes Teledu a Radio, rydym wedi newid y ffordd rydym yn casglu ac yn cyflwyno gwybodaeth gan y BBC am amrywiaeth ei weithlu gwasanaethau cyhoeddus yn y Deyrnas

[115] Cyfarfod Ofcom/y BBC 19 Medi 2023.

Unedig.[116] Felly, yn gyffredinol, nid oes modd cymharu gwybodaeth eleni yn uniongyrchol â gwybodaeth y blynyddoedd blaenorol. Mae'r data yn yr adroddiad hwn hefyd yn wahanol i'r ffigurau a gyhoeddwyd yn Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb y BBC. [117]

Mae cynrychiolaeth menywod (48%) a phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig (15%)[118] ar draws gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y Deyrnas Unedig yn adlewyrchu gweithlu ehangach y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.[119] Fodd bynnag, mae cynrychiolaeth y ddau grŵp ym mhob gwlad neu ranbarth yn amrywio.[120] Ar lefel uwch reolwyr,[121] mae menywod bellach yn cyfrif am 50% o'r gweithlu yng ngwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y Deyrnas Unedig[122]. Fodd bynnag, dim ond 7% o'r uwch reolwyr hyn mae staff o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn eu cynrychioli, er eu bod yn cyfrif am 15% o weithlu gwasanaethau cyhoeddus ehangach y BBC. Staff o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig oedd cyfran fawr o'r rhai a ymunodd o'r newydd (26%) a'r rhai a gafodd ddyrchafiad (18%) eleni, sy'n awgrymu bod camau'n cael eu cymryd i gynyddu cynrychiolaeth a chefnogi cynnydd. Fodd bynnag, gall hyn gael ei danseilio gan y gyfran gymharol uchel o'r rhai sy'n gadael o grwpiau lleiafrifoedd ethnig (21%).[123]

Mae pobl ag anableddau yn cyfrif am 10% o'r rhai yng ngweithlu gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y Deyrnas Unedig a oedd wedi darparu data, a 9% o'r staff mewn rolau uwch reolwyr.[124] Mae hyn yn sylweddol is nag ym mhoblogaeth ehangach y Deyrnas Unedig (16%).[125] Mae cynrychiolaeth staff ag anabledd hefyd yn gyson isel ar draws y gwahanol wledydd a rhanbarthau ,[126] er bod lefelau anabledd yn uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig mewn llawer o ardaloedd[127]. Rydym yn disgwyl i'r BBC ystyried yn ofalus ei ddull o wella cynrychiolaeth gweithwyr anabl yn ei weithlu a nodi hyn yn ei strategaeth amrywiaeth nesaf.

---

[116] Er enghraifft, mae prif gorff yr adroddiad hwn yn rhoi ffigurau fel canran o 'ddata gweladwy' (ac eithrio'r categorïau anhysbys 'heb eu datgelu', 'data heb ei gasglu'). Mae ffigurau fel canran o'r 'data gweithlu cyfan' (h.y. gan gynnwys data anhysbys) wedi eu nodi yn y troednodiadau ac maent hefyd ar gael i'w gweld yn yr adroddiad rhyngweithiol cysylltiedig.

[117] Fe wnaeth y BBC eithrio gweithwyr ar absenoldeb di-dâl a'r rhai mewn rolau nad ydynt yn cael eu cyllido'n gyfan gwbl gan y BBC o'i gyflwyniad ar ddata gweithlu gwasanaethau cyhoeddus EDI/y Deyrnas Unedig i Ofcom (data a ddarparwyd gan y BBC). Cafodd y gweithwyr hyn eu cynnwys yn ffigurau gwasanaeth cyhoeddus EIR y BBC yn y Deyrnas Unedig. Mae'r adroddiad EIR hefyd yn seiliedig ar 'gyfanswm data'r gweithlu' yn wahanol i'r dull 'data gweithlu gweladwy' a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

[118] Data a gyflenwyd gan y BBC, 2023. Data gweladwy yn unig. Wrth gynnwys categorïau anhysbys (cyfanswm y data), mae 47% o staff UKPS yn fenywod, ac mae 15% yn perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

[119] Menywod a grwpiau ethnig lleiafrifol Ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y Farchnad Lafur A09: Statws y farchnad lafur yn ôl grŵp ethnig.

[120] Gweler yr adroddiad rhyngweithiol.

[121] Mae newidiadau diweddar Ofcom yn cynnwys diffiniad wedi ei ddiweddaru o 'uwch reolwyr' wedi ei gyfyngu i'r staff uchaf. Mae hyn yn wahanol i ddiffiniad grŵp Arweinyddiaeth ehangach y BBC a ddefnyddir yn ei EIR.

[122] Data a gyflenwyd gan y BBC, 2023. Data gweladwy yn unig. Wrth gynnwys categorïau anhysbys (cyfanswm data), mae menywod yn cyfrif am 49% o rolau ar lefel uwch reolwyr.

[123] Data gweladwy yn unig. Data a gyflenwyd gan y BBC, 2023. Wrth gynnwys categorïau anhysbys (cyfanswm y data), mae staff o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cynrychioli, 25% o'r rhai sy'n ymuno o'r newydd, 18% o'r staff sydd wedi eu dyrchafu, 20% o'r rhai sy'n gadael a 7% o rolau uwch reolwyr.

[124] Data a gyflenwyd gan y BBC, 2023. Data gweladwy yn unig. Wrth gynnwys categorïau anhysbys (cyfanswm data), mae cynrychiolaeth anabledd yn 10% ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus y Deyrnas Unedig a 9% ar lefel uwch reolwyr.

[125] Mae cyfartaledd y boblogaeth ar gyfer pobl ag anabledd yn seiliedig ar bobl economaidd weithgar 16-64 oed. Ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y Farchnad Lafur A08: Statws pobl anabl yn y farchnad lafur.

[126] Gweler yr adroddiad rhyngweithiol.

[127] Arolwg Poblogaeth Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol – NomisWeb.

Mae'r data'n dangos bod 57% o weithlu gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y Deyrnas Unedig bellach wedi ei leoli y tu allan i Lundain. Mae 28% o staff gwasanaethau cyhoeddus y Deyrnas Unedig a ddarparodd ddata o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is[128] o gymharu â 39% o boblogaeth waith ehangach y Deyrnas Unedig.[129]

Mae'r BBC wedi gosod targedau cynrychiolaeth iddo'i hun ar gyfer ei staff Grŵp y BBC yn y Deyrnas Unedig, sef: Menywod (50%); Ethnigrwydd (20%); ac Anabledd (12%) i'w cyrraedd erbyn 2027/28 a tharged amrywiaeth economaidd-gymdeithasol is o 25% i'w gyrraedd erbyn 2026/2027. Nodwn fod yr holl dargedau hyn yn cael eu gosod fel cyfran o gyfanswm y gweithlu (yn hytrach na fel cyfran o'r rhai a ddarparodd wybodaeth). Mae'r BBC yn adrodd ei fod wedi cyrraedd ei darged ar gyfer menywod ar draws y BBC eleni ac mae'n parhau i weithio tuag at y lleill. Gan fod gwasanaethau cyhoeddus y Deyrnas Unedig yn cyfrif am dros 80% o weithlu'r BBC, rydym yn awyddus i weld y lefelau uwch hyn o gynrychiolaeth yn cael eu hefelychu drwy gydol y rhan graidd hon o'i weithlu.

Rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r gwaith mae'r BBC hefyd yn ei wneud i geisio helpu i wella amrywiaeth y gweithlu yn y sector darlledu ehangach drwy ei God Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth (DCCoP) ac amrywiaeth o gynlluniau teledu a radio eraill y BBC, fel *Access First Titles;* yn ogystal â chydweithio â darlledwyr eraill ar fentrau fel y *Prosiect Mynediad Teledu (TAP)*. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro cynnydd yn y maes hwn drwy Ddata Diamond y BBC.[130]

## Nodau Amrywiaeth

**Mae'r BBC yn cyrraedd pwynt pwysig yn ei waith ar amrywiaeth. Wrth i nifer o'i strategaethau amrywiaeth mwyaf ar y sgrin ac oddi ar yr awyr ddod i'w casgliadau, mae ganddo gyfle i adeiladu'n uchelgeisiol ar y sylfeini mae wedi eu gosod yn ystod y blynyddoedd diwethaf**

Mae'r BBC wedi cymryd camau breision yn ei ymdrechion i wreiddio amrywiaeth yn ei brosesau comisiynu a chynnwys. Yn 2018, cyflwynodd y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth, a oedd yn gosod blaenoriaethau comisiynu i sicrhau mwy o amrywiaeth yn ei allbwn a'i gadwyn gyflenwi. Mae'r BBC o'r farn bod y rhan fwyaf o'r ymrwymiadau yn y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth naill ai wedi cael eu cyflawni neu'n cael eu gwreiddio ar hyn o bryd, gyda chymorth cyflwyno adroddiadau Diwedd Cynhyrchiad. Mae Ymrwymiad Amrywiaeth Greadigol ariannol presennol y BBC i fod i ddod i ben y flwyddyn nesaf, ar ôl rhagori ar ei darged gwariant gwerth £100m ar gyfer cynnwys teledu amrywiol. Mae ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o £12 miliwn o wariant ar gyfer radio y flwyddyn nesaf. Bydd Cynllun Amrywiaeth a Chynhwysiad y BBC 2021-2023 (ei strategaeth gweithlu) hefyd yn dod i ben cyn bo hir.

Rydym yn deall bod strategaethau newydd yn cael eu datblygu ac rydym yn parhau i annog y BBC i osod nodau newydd beiddgar a heriol iddo'i hun er mwyn parhau i sbarduno cynnydd. Mae hyn yn cynnwys adolygu ei dargedau ar gyfer cynrychioli talent ar y sgrin ac ar yr awyr, sy'n dyddio'n ôl i 2016, ac ar gyfer ei weithlu, gan ystyried data cyfrifiad newydd ar gyfer gweithlu ehangach y Deyrnas Unedig, ac asesu'n glir pa rai o'i fentrau niferus sy'n cyflawni cynnydd ac nad ydynt yn gweithio. Rydym yn aros am gynlluniau strategol y BBC ar y camau nesaf ar gyfer ei gynulleidfaoedd, ei gynnwys a'i weithlu gyda diddordeb mawr.

---

[128] Data a gyflenwyd gan y BBC, 2023. Data gweladwy yn unig. Wrth gynnwys categorïau anhysbys, mae 22% o'r staff yn dod o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.
[129] Comisiwn symudedd cymdeithasol – Cefndir economaidd-gymdeithasol gweithlu cyffredinol y DU sy'n 16 oed a hŷn (Mai 2021) wedi'i ddiweddaru o feincnod blaenorol 2017 sef 29%.
[130] Creative Diversity Network Diamond – The 6th Cut Report.

## Y gwledydd a'r rhanbarthau

Yn yr adran hon rydym yn nodi sut mae'r BBC wedi darparu ar gyfer cynulleidfaoedd a'r sectorau creadigol ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau. Yn yr adran a ganlyn rydym yn nodi mwy am waith y BBC ym mhob un o'r gwledydd unigol.

### Mae'r BBC wedi parhau i fuddsoddi mewn creu cynnwys y tu allan i Lundain, gan gefnogi diwydiannau creadigol ledled y Deyrnas Unedig

**Mae'r buddsoddiad mewn cynhyrchu cynnwys rhwydwaith y tu allan i Lundain wedi cynyddu**

Cynyddodd y gwariant y tu allan i Lundain ar raglenni rhwydwaith fel cyfran o gyfanswm y gwariant cymwys o 54% yn 2021 i 58% yn 2022, wedi ei sbarduno gan gynnydd mewn gwariant yn Lloegr.[131] Y prif gyfranwyr i hyn oedd drama a chwaraeon, gyda sylw i Gwpan y Byd FIFA y dynion, Gemau'r Gymanwlad a Gemau Olympaidd y Gaeaf yn cael eu cynhyrchu ym Manceinion yn 2022. Gellir priodoli'r cynnydd hefyd i adleoli rhaglen BBC One yn ystod yr wythnos, *Morning Live* i Fanceinion, yn unol â chynllun Across the UK y BBC .

Roedd cyfran y gwariant rhwydwaith cymwys yn y gwledydd eraill naill ai wedi aros yr un fath neu wedi gostwng yn 2022, yn enwedig yng Nghymru, lle'r oedd cyfran y gwariant wedi gostwng o 7.2% i 5.4%, er bod yr oriau cymwys wedi cynyddu.[132] Gellir egluro hyn yn rhannol drwy newid yn y cymysgedd o genres o gynyrchiadau cymwys yng Nghymru, heb unrhyw gomedi na chyfresi plant a wnaed yn 2022.

Yn ei gynllun Across the UK, ymrwymodd y BBC i ddarparu cyfres ddrama hirsefydlog ar gyfer y gwledydd o fewn tair blynedd o fis Mawrth 2021 ymlaen.  Nodwn nad yw'r BBC wedi cyhoeddi'r rhaglen hon eto.

Dywedodd y BBC hefyd fod cyfran ei wariant ar radio rhwydwaith[133] y tu allan i'r M25 yn 36%,[134] ychydig yn is na 39% a gyflawnwyd yn y flwyddyn flaenorol.[135] Yn ei adroddiad, nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod gan y BBC gryn ffordd i fynd o ran cyrraedd ei darged ei hun o 50% o wariant cynhyrchu rhaglenni radio rhwydwaith a cherddoriaeth y tu allan i Lundain erbyn mis Mawrth 2028.

**Bu cynnydd yn y gwariant ar raglenni rhanbarthol ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, ond mae'n dal yn brin o lefelau gwariant yn gynharach yn ystod cyfnod y Siarter**

Mae'r gwariant ar raglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig a gynhyrchwyd ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau dechrau cynyddu a chyrraedd lefelau cyn y pandemig, wedi ei sbarduno gan 25% o gynnydd mewn gwariant yn rhanbarthau Lloegr, ac roedd y rhan fwyaf o hynny'n deillio o fwy o wariant ar newyddion. Roedd y gwariant ar raglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi codi 14% ar draws y tair gwlad arall, wedi ei sbarduno gan raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion a rhaglenni heb fod yn rhaglenni materion cyfoes.[136]

Fodd bynnag, roedd nifer yr oriau o raglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau ychydig yn is o'i gymharu â 2021. Mae hyn yn rhannol oherwydd gostyngiad mewn allbwn gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael ei ddarlledu am y tro

---

[131] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[132] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[133] Mae hyn yn cynnwys cyfraniadau gan Radio 1, Radio 2, Radio 3, Radio 4 a BBC Radio 5 live.
[134] Adroddiad Cyflawni ein Cenhadaeth a'n Dibenion Cyhoeddus y BBC 2022/23, t. 70.
[135] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22', t 142.
[136] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r Teledu'r BBC.

cyntaf o gynnwys newyddion yng Nghymru a'r Alban oherwydd diwedd y *sesiynau briffio ar y Coronafeirws* ar BBC One Scotland a BBC One Wales.[137] Fe welodd BBC Scotland ostyngiad sylweddol hefyd mewn cynnwys heb fod yn newyddion/materion cyfoes ar ôl iddo ddod â'i raglenni *Bitesize Daily* a gwasanaethau crefyddol a ddarlledwyd yn ystod y pandemig i ben.

Fe wnaeth y BBC wario cyfanswm o £200 miliwn ar gynnwys radio lleol ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau yn 2022/23. Roedd hyn i fyny 5% o'i gymharu â 2021/22, wedi ei sbarduno'n bennaf gan gynnydd yn y gwariant ar gynnwys radio lleol yn Lloegr.[138] Yn yr un modd, roedd y BBC yn rhagori ar y cwota gofynnol o oriau o raglenni newyddion a materion cyfoes ar orsafoedd radio'r gwledydd.



## Mae'r BBC yn cael ei ystyried yn gadarnhaol ar draws y gwledydd, ond mae llawer yn dal i gredu nad yw'r BBC yn rhoi sylw i'w hardal

Mae cynulleidfaoedd ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth o wasanaethau'r BBC, gyda chyrhaeddiad wythnosol cyfartalog ar draws llwyfannau yn aros yn gymharol uchel yn gyffredinol ar 83%.[139] Rydym yn falch o weld nad oes unrhyw wahaniaeth yn y ffordd mae pobl yn y gwledydd yn ystyried y BBC yn gyffredinol o'i gymharu â'r Deyrnas Unedig drwyddi draw, er bod rhai gwahaniaethau o ran agweddau ar ei ddarpariaeth cynnwys.

Er bod 60% o oedolion y DU yn gadarnhaol am y BBC yn darparu '*cynnwys sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant cymunedau ledled y Deyrnas Unedig',* mae ychydig dros hanner (53%) yn canmol y BBC am *'roi sylw i'r rhanbarth/gwlad yn y Deyrnas Unedig lle'r wyf yn byw'.*[140]

Canfu ein Hadolygiad o Gynulleidfaoedd, a oedd yn edrych ar ganfyddiad cynulleidfaoedd D ac E o'r BBC, fod pobl sy'n byw yn y gwledydd ac yn rhanbarthau Lloegr yn teimlo bod y BBC yn canolbwyntio'n anghymesur ar Lundain a de-ddwyrain Lloegr. Roedd cynulleidfaoedd y buom yn siarad â nhw yn yr Alban yn arbennig o negyddol ynghylch portread y BBC o'u bywydau. Roeddent yn teimlo bod portread y BBC o fywyd yn yr Alban yn aml yn dibynnu'n drwm ar stereoteipiau ac nad oeddent yn dangos nodweddion unigryw gwahanol gymunedau ledled yr Alban. Roedd gwylwyr yng Ngogledd Iwerddon yn fwy cadarnhaol, gyda phobl yn gwerthfawrogi rhaglenni sy'n canolbwyntio ar Ogledd Iwerddon fel *Once Upon a Time in Northern Ireland*. Yng Nghymru, gwelsom fod

---

[137] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r Teledu'r BBC.
[138] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23, tt. 153 – 168.
[139] IPA TouchPoints ton 1 2023.
[140] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2022/23.

cynrychiolaeth ddaearyddol yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr. Ar y cyfan, roedd consensws ar draws y gwledydd bod angen portread mwy dilys a chynnil gan y BBC.

Gan fod y BBC yn symud mwy o'i weithgareddau y tu allan i Lundain, rydym wedi bod yn ymgysylltu ag ef i ddeall mwy am sut maent yn asesu effaith gweithgareddau rhanbarthol penodol ar gynulleidfaoedd. Er enghraifft, rhoddodd y BBC wybodaeth i ni am effaith rhai o'i ddigwyddiadau byw ar gynulleidfaoedd. Roedd y data a rannwyd ganddo yn dangos bod cynnydd cymesur nodedig yn nifer y bobl sy'n gwrando ar BBC Sounds drwy cyfrifon yn ardal Dundee ar gyfer *Big Weekend* BBC Radio 1 eleni. Yn yr un modd, ar gyfer digwyddiad *BBC Radio 2 in the Park* yng Nghaerlŷr, roedd cynnydd cymesur sylweddol yn nifer y bobl sy'n gwrando ar BBC Sounds yng Nghaerlŷr a'r ardaloedd cyfagos, ac roedd cynulleidfa BBC iPlayer hefyd wedi cyrraedd y brig yng Nghaerlŷr ar gyfer y digwyddiad hwn.[141]




## Mae cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn dal i droi at raglenni newyddion a materion cyfoes yn helaeth, er eu bod yn ei ystyried yn llai cadarnhaol

Yn gyffredinol, roedd allbwn newyddion a materion cyfoes y gwledydd a'r rhanbarthau wedi gostwng 5% o'i gymharu â 2021. Fel y nodwyd uchod, er bod modd priodoli rhywfaint o'r gostyngiad mewn oriau newyddion i ddiwedd sesiynau briffio Covid-19 a chynnwys cysylltiedig arall, roedd allbwn newyddion yn is na'i lefel cyn y pandemig ar 4,951 awr (6% o ostyngiad o un flwyddyn i'r llall ac 8% o'i gymharu â 2019). Fodd bynnag, roedd cynnydd o un flwyddyn i'r llall yn yr allbwn materion cyfoes ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, o 435 awr yn 2021 i 463 awr yn 2022, er bod y ffigur hwn yn dal yn is na'r lefelau a welwyd cyn 2020.[142]

Yng nghyd-destun trafod sut mae'r BBC yn darparu newyddion rhanbarthol, fe wnaethom nodi yn ein datganiad ar Drwydded Weithredu newydd y BBC y byddwn yn monitro canfyddiadau cynulleidfaoedd ynghylch sut mae'r BBC yn darparu newyddion. Ar y cyfan, roedd cynulleidfaoedd yn llai cadarnhaol ynghylch darpariaeth y BBC o *'newyddion am yr hyn sy'n digwydd yn fy ardal leol'* o'i gymharu â newyddion am y Deyrnas Unedig neu'r ddarpariaeth ryngwladol, gydag ychydig dros hanner (52%) yn gadarnhaol tuag at hyn. Fe wnaeth tua un o bob pump (19%) o bobl ledled y Deyrnas Unedig roi sgôr negyddol am hyn, gan godi i bron i dri o bob deg (28%) yn yr Alban.[143] Byddwn yn parhau i fonitro hyn yn y dyfodol ac yn annog y BBC i ddweud mwy am sut mae'n

[141] Data a ddarparwyd gan y BBC.
[142] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r Teledu'r BBC.
[143] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2022/23.

bwriadu darparu newyddion rhanbarthol a gwella canfyddiadau cynulleidfaoedd yn ei Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad Blynyddol.

## Cydymffurfio ag amodau'r Drwydded Weithredu


Ochr yn ochr â'n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried cydymffurfiad y BBC o ran amodau perthnasol Diben Cyhoeddus 4 y Drwydded Weithredu. Eleni, fe wnaeth y BBC fodloni ei holl ofynion. Gweler Atodiad 1 am asesiad cydymffurfedd llawn o ofynion y Drwydded Weithredu.

# 4. Y BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau

Ar y tudalennau a ganlyn rydym yn nodi sut mae’r BBC wedi darparu ar gyfer cynulleidfaoedd ym mhob un o’r pedair gwlad yn ogystal â phwyntiau data allweddol ar berfformiad y BBC. Mae hyn yn wahanol i’n hasesiad o berfformiad y BBC o dan Ddiben Cyhoeddus 4.

# GOGLEDD IWERDDON

## Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog ffynonellau'r BBC yng Ngogledd Iwerddon




BBC RADIO FOYLE | BBC RADIO ULSTER **30%** yn 2022/23




**Cyfran rhaglennu'r gyfres BBC *Blue Lights*, a leolir yng Ngogledd Iwerddon**

**31%** Cyfran Gogledd Iwerddon

**19%** Cyfran y DU


**Oriau a gwariant cynnwys gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf yn y gwledydd a'r rhanbarthau**




**573** o oriau rhaglennu

**£24m** wedi'i wario ar gynnwys

## Oriau a gwariant rhwydwaith cymwys a gynhyrchwyd yng Ngogledd Iwerddon




## Argraff gadarnhaol o'r BBC ymhlith oedolion yng Ngogledd Iwerddon

**63%** ag o oedolion yng Ngogledd Iwerddon argraff gadarnhaol o'r BBC

**67%** yn credu bod y cynnwys yn adlewyrchu bywyd a diwylliant ar draws y DU

**60%** yn credu bod cynnwys yn dangos y wlad/rhanbarth o'r DU rwy'n byw ynddo

Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; Barb (15 munud a mwy o gyrhaeddiad); RAJAR; data BBC Compass gan Ipsos UK; Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2022/23

## Roedd cyfran yr oriau cymwys ar gyfer y rhwydwaith a'r gwariant a gynhyrchwyd yng Ngogledd Iwerddon yn uwch nag erioed

Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaeth y BBC gyflawni ei gwota ar gyfer oriau cymwys rhwydwaith a gynhyrchwyd y tu allan i Ogledd Iwerddon yn 2022 ar 3% (0.9 pwynt canran o gynnydd ers y flwyddyn flaenorol). Arhosodd gwariant ar 3.9% am yr ail flwyddyn o'r bron.[144] Treuliwyd cyfran sylweddol ar raglenni ffeithiol a drama, gyda *Sunday Morning Live* yn dychwelyd i Belfast, a'r ddrama *Hope Street* yn dychwelyd am ail gyfres. Fe wnaeth BBC Northern Ireland hefyd ddarparu 13 o gyd-gomisiynau gyda'r rhwydwaith yn ystod 2022/23. Yn 2023, roedd hyn yn cynnwys *Blue Lights,* a gafodd 31% o gyfran raglenni yng Ngogledd Iwerddon, gyda'i bennod agoriadol y rhaglen fwyaf poblogaidd yn y wlad ar y BBC yn ystod y cyfnod adrodd.[145]

Fe wnaeth y BBC ddarlledu cymysgedd o gynnwys Gwyddeleg a Sgoteg Ulster, gan gynnwys 248 awr yr wythnos o raglenni mewn ieithoedd brodorol lleiafrifol drwy ei wasanaethau BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle, gan ragori ar y cwota yn y Drwydded Weithredu.

Mae cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon yn fwy tebygol na chyfartaledd y Deyrnas Unedig o roi sgôr gadarnhaol i'r BBC am '*sylw i'r genedl rwy'n byw ynddi'* (60% o'i gymharu â 53% yn y Deyrnas Unedig), sy'n awgrymu y gallai cynllun Across the UK y BBC fod yn cael effaith gadarnhaol yng Ngogledd Iwerddon.[146]

## Mae'r BBC wedi gwella ei arlwy chwaraeon

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae rhai digwyddiadau chwaraeon wedi cael sylw gwell gan BBC Northern Ireland. Fel rhan o gytundeb rhwng y BBC a'r GAA, cafodd rowndiau cynderfynol Iwerddon Gyfan (hyrli a phêl-droed) eu darlledu ar BBC iPlayer a chafodd y rownd derfynol ei dangos yn fyw ar deledu rhwydwaith y BBC am y tro cyntaf. Denodd prif ddigwyddiad pêl-droed Iwerddon Gyfan ym mis Gorffennaf gynulleidfa uchaf o 800,000. Mae'r sylw'n cyd-fynd â phortffolio chwaraeon presennol BBC Northern Ireland, sydd hefyd yn cynnwys pêl-droed lleol, Rygbi Wlster a rasio beiciau modur ar y ffordd. Ymrwymodd y BBC hefyd i roi sylw i gemau Gogledd Iwerddon yng Nghynghrair Cenhedloedd Menywod UEFA ar BBC iPlayer ac ar-lein yn ystod mis Medi 2023.

## Gwnaeth y BBC newidiadau i BBC Radio Foyle

Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd y BBC y penderfyniad golygyddol y byddai'n cwtogi'r rhaglen brecwast a bwletinau newyddion bob awr ar BBC Radio Foyle i fuddsoddi mwy mewn darpariaeth ar-lein. Fe wnaethom ofyn i'r BBC sut byddai'n parhau i ddarparu cynnwys lleol i wahanol ardaloedd a chymunedau Gogledd Iwerddon yn dilyn y newidiadau. Dywedodd wrthym ei fod, yn dilyn adborth, wedi penderfynu symud ei raglen newyddion 30 munud o ddydd Llun i ddydd Gwener, sef *North West Today,* o amser cinio i 8:30am a chadw'r bwletinau newyddion bob awr tan 3pm bob diwrnod o'r wythnos. Cyhoeddodd hefyd fwy o newyddion digidol yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan BBC Radio Foyle. Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd y byddai'n ymestyn *North West Today* i un awr, gan ddechrau yn gynnar yn 2024. Rydym yn disgwyl i'r BBC fonitro effaith y newidiadau hyn ar gynulleidfaoedd yn ofalus ac, os yw'n bwriadu gwneud rhagor o newidiadau, ymgysylltu'n llawn â ni a chynulleidfaoedd.


[144] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[145] Barb, 28 diwrnod cyfunol o wylio, drwy setiau teledu yn unig.
[146] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2022/23.

## Penodi'r aelod Bwrdd cyntaf ar gyfer Gogledd Iwerddon

Ym mis Gorffennaf 2023, penodwyd Michael Smyth CBE KE i Fwrdd y BBC fel Aelod Gogledd Iwerddon. Daeth hyn ar ôl pum mlynedd o aros oherwydd absenoldeb Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, sy'n golygu bod angen is-ddeddfwriaeth newydd i wneud y penodiad. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y datblygiad hwn o ran gallu'r BBC i wasanaethu cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon.

# CYMRU

## Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog ffynonellau'r BBC yng Nghymru




BBC RADIO WALES **12%** yn 2022/23 | BBC RADIO CYMRU BBC RADIO CYMRU 2 **5%** yn 2022/23




### Cyfran rhaglennu'r gyfres BBC *The Pact*, a leolir yng Nghymru

**14%** Cyfran Cymru

**9%** Cyfran y DU

### Oriau a gwariant cynnwys gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf yn y gwledydd a'r rhanbarthau







**603** o oriau rhaglennu

**£29m** wedi'i wario ar gynnwys

### Oriau a gwariant rhwydwaith cymwys a gynhyrchwyd yng Nghymru




## Argraff gadarnhaol o'r BBC ymhlith oedolion yng Nghymru

**63%** o oedolion yng Nghymru ag argraff gadarnhaol o'r BBC

**60%** yn credu bod y cynnwys yn adlewyrchu bywyd a diwylliant ar draws y DU

**51%** yn credu bod cynnwys yn dangos y wlad/rhanbarth o'r DU rwy'n byw ynddo

Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; Barb (15 munud a mwy o gyrhaeddiad); RAJAR; data BBC Compass gan Ipsos UK; Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2022/23

## Roedd y cynnwys rhwydwaith a wnaed yng Nghymru ar ei uchaf erioed, ond fe wnaeth y gwariant ostwng

Roedd yr oriau rhwydwaith a gynhyrchwyd yng Nghymru yn 5.8%, y gyfran uchaf sydd gennym ar gofnod. Fodd bynnag, gostyngodd y gwariant am yr ail flwyddyn yn olynol i 5.4%.[147] Roedd rhywfaint o newid yn y gymysgedd genres o gynyrchiadau cymwys yng Nghymru, heb deitlau plant na chomedi wedi eu gwneud yn 2022, ac mae'r ddau ohonynt yn genres cymharol ddrud fesul awr. Gellir priodoli rhywfaint o gynnydd mewn oriau i fwy o gyd-gomisiynau fel *The Pact* ar BBC One, a oedd â chyfran rhaglenni o 14% yng Nghymru a 9% ar draws y Deyrnas Unedig. Yn ogystal, roedd mwy o deitlau celfyddydol a cherddoriaeth yn gymwys i fod yn gynyrchiadau Cymreig yn 2022, yn ogystal â chyflwyno teitl crefft ymladd cymysg *Bellator* ar BBC Three.

Perfformiodd BBC Cymru yn dda ar ei ddarllediadau o ddigwyddiadau byw, gan gyflwyno digwyddiadau diwylliannol pwysig yng Nghymru fel yr *Eisteddfod Genedlaethol* a chyngherddau'r *Haf o Gerddoriaeth*. Roedd pêl-droed hefyd yn ganolbwynt, gyda Chymru'n mynd drwodd i rowndiau terfynol Cwpan y Byd FIFA am y tro cyntaf ers 1958. Y gêm rhwng Cymru a Lloegr oedd y rhaglen a gafodd ei gwylio gan y trydedd cynulleidfa fwyaf yng Nghymru yn 2022 gyda chyfran rhaglenni o 56%.[148]

## Mae'r BBC wedi symud rhywfaint o'i gynyrchiadau i Gymru

Daeth Caerdydd yn gartref i Hwb Sain y BBC a'i huned gynhyrchu gwyddor sain. Mae dros 30 o raglenni radio ar draws rhwydwaith y BBC yn cael eu cynhyrchu yng Nghaerdydd erbyn hyn, sy'n galluogi'r BBC i gysylltu'n well â chynulleidfaoedd yng Nghymru. Mae'r teitlau'n cynnwys *Farming Today a Saturday Live* ar BBC Radio 4 a rhaglen brecwast cynnar BBC Radio 2 gydag Owain Wyn Evans.

Mae'r BBC yn darparu cynnwys yn Gymraeg ar BBC Radio Cymru a BBC Radio Cymru 2, a gyrhaeddodd 5% o oedolion ar gyfartaledd bob wythnos yng Nghymru ar draws 2022/23.[149] Yn ddiweddar cyhoeddodd gynlluniau i ehangu BBC Radio Cymru 2 i ddod yn wasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig yn ei rinwedd ei hun. Mae hwn yn newid sylweddol sy'n destun asesiad cystadleuaeth gan Ofcom sydd ar y gweill. Dathlodd BBC Radio Cymru ddysgu Cymraeg drwy'r *Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg*. Fe wnaeth y BBC hefyd barhau i ddarparu newyddion a chynnwys Bitesize yn Gymraeg ar-lein.

## Mae'r BBC wedi darparu podlediadau ffeithiol pwysig am Gymru ar Sounds

Ar BBC Sounds, mae podlediadau ffeithiol am ddigwyddiadau hanesyddol diweddar wedi cynnwys ymgyrch Meibion Glyndŵr, a gafodd ei hadrodd drwy'r podlediad Cymraeg *Gwreichion,* a *Drowned*, a oedd yn archwilio hanes boddi Capel Celyn. Mae rhanddeiliaid wedi codi eu pryderon gyda ni ynghylch pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys Cymreig (cynnwys Cymraeg yn benodol) ar BBC Sounds a BBC iPlayer. Mae'r Drwydded Weithredu newydd yn mynnu bod y BBC yn ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i'w gynnwys Cymraeg ar-lein. Rydym yn edrych ar y gallu i ganfod yn fanwl, ac yn trafod beth mae'n ei olygu mewn termau ymarferol gyda'r BBC.

[147] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r Teledu'r BBC. Mae'r ffigurau'n dangos % yr oriau teledu rhwydwaith cymwys a'r gwariant a ddyrannwyd i Gymru.
[148] Barb 28 diwrnod wedi'i gyfuno ar draws teledu a dyfeisiau eraill yn y cartref. Mae'r sianeli'n cynnwys unrhyw +1 cyfatebol.
[149] RAJAR Chwarter 1 2023, pwysoliad 12 mis.

## Mae'r BBC wedi gweithio mewn partneriaeth ag Anabledd Cymru a Chymru Greadigol

Lansiodd BBC Cymru ei gynllun Siarad Anabledd gan weithio mewn partneriaeth ag Anabledd Cymru i lansio cynllun hyfforddeion ar gyfer pobl ag anableddau. Roedd yn canolbwyntio ar raglenni a oedd yn cynnwys straeon gan bobl anabl, fel *Blood Sweat and Cheer* ar BBC Three. Dychwelodd *A Special School* i BBC Two hefyd gyda chyfran rhaglenni o 7% yng Nghymru a 4% ledled y Deyrnas Unedig.[150] Mae mentrau fel y rhain yn bwysig o ran sut mae'r BBC yn cyflawni Diben Cyhoeddus 4 a'i rwymedigaethau o ran amrywiaeth. Fe wnaeth y BBC hefyd ddechrau ail flwyddyn ei bartneriaeth â Cymru Greadigol, a oedd yn darparu cyllid ar gyfer cyd-gomisiwn BBC One *Steeltown Murders* a *Rookie Nurses* ar BBC Three.

[150] Cafodd Cyfres 2 o *A Special School* ei dangos am y tro cyntaf ar BBC One yng Nghymru yn unig ym mis Ionawr 2023 ac yna ei hailadrodd ledled y Deyrnas Unedig dros fis Chwefror-Mawrth 2023 ar BBC Two.

# YR ALBAN

## Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog ffynonellau'r BBC yn Yr Alban

- BBC Sianeli teledu: 67%
- BBC iPLAYER: 26%
- BBC Radio: 52%
- BBC AR-LEIN: 59%

BBC SCOTLAND 15%


BBC RADIO SCOTLAND 17%



### Cyfran rhaglennu'r gyfres BBC *Shetland*, a leolir yn Yr Alban

- 38% Cyfran Yr Alban
- 30% Cyfran y DU

### Oriau a gwariant cynnwys gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf yn y gwledydd a'r rhanbarthau







**1,209** o oriau rhaglennu

**£65m** wedi'i wario ar gynnwys

## Oriau a gwariant rhwydwaith cymwys a gynhyrchwyd yn Yr Alban




## Argraff gadarnhaol o'r BBC ymhlith oedolion yn Yr Alban

**60%** o oedolion yn Yr Alban ag argraff gadarnhaol o'r BBC

**61%** yn credu bod y cynnwys yn adlewyrchu bywyd a diwylliant ar draws y DU

**58%** yn credu bod cynnwys yn dangos y wlad/rhanbarth o'r DU rwy'n byw ynddo

Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; Barb (15 munud a mwy o gyrhaeddiad); RAJAR; data BBC Compass gan Ipsos UK; Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2022/23

## Er bod gwariant cyffredinol y BBC yn yr Alban wedi cynyddu, roedd gostyngiad bach yng nghyfran y gwariant ar rwydweithiau a'r oriau a gynhyrchwyd

Ar draws 2022, gwelwyd gostyngiad bach yng nghyfran y gwariant ar deledu rhwydwaith a'r oriau a oedd yn cael eu gwneud yn yr Alban, gyda chyfran yr oriau i lawr 0.6 pwynt canran i 14.3%, a chyfran y gwariant yn gostwng 0.2% pwynt canran i 8.4%.[151] Fodd bynnag, wrth edrych ar gyfanswm gwariant y BBC yn yr Alban ar draws pob gwasanaeth, cynyddodd hyn i £262 miliwn yn 2022/23, gan godi o £241 miliwn yn y flwyddyn ariannol flaenorol.[152]

Cynhyrchodd BBC Scotland 12 o gyd-gomisiynau gyda rhwydwaith y BBC, i fyny o chwech y flwyddyn flaenorol. Roedd y rhain ar draws amrywiaeth o genres, gan gynnwys *This Farming Life,* yr oedd ei ailddarllediadau am 7pm yn ystod yr wythnos ar BBC Two yn cynhyrchu cynulleidfaoedd cyfartalog o 1.3 miliwn, a *Granite Harbour*, drama wedi ei lleoli yn Aberdeen, a oedd â chyfran rhaglenni o 14% yn y Deyrnas Unedig, gan gynyddu i 18% yn yr Alban. Mae nifer o gomisiynau rhwydwaith llwyddiannus hefyd wedi cael eu ffilmio yn yr Alban, fel *The Traitors* ar BBC One, a oedd yn denu 4.6 miliwn o wylwyr ar gyfartaledd fesul pennod yn ystod y gyfres.[153]

Mae tri oedolyn o bob pump (60%) yn yr Alban yn gadarnhaol tuag at y BBC ar y cyfan ac maent hefyd yn cyd-fynd yn fras ag agweddau ar draws y DU gyfan o ran darparu *'cynnwys sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant cymunedau ar draws y Deyrnas Unedig'* ac yn *'rhoi sylw i'r rhanbarth/gwlad yn y Deyrnas Unedig lle'r wyf yn byw'*.[154]

## Mae tîm adrodd technoleg y BBC bellach wedi ei leoli yn Glasgow

Symudodd y BBC ei dîm adrodd ar dechnoleg i ganolbwynt Pacific Quay yn Glasgow, yn dilyn ei ymrwymiad yn ei rhaglen Across the UK i ledaenu ei dimau newyddion ar draws y gwledydd. Mae *Click* ar BBC iPlayer *Tech Tent* y BBC World Service bellach yn cael eu darlledu yn Pacific Quay yn Glasgow.

## Fe wnaeth BBC Radio Scotland newidiadau i'w ddarpariaeth gerddoriaeth

Ym mis Ionawr eleni, cyhoeddodd y BBC newidiadau golygyddol i'w arlwy cerddoriaeth ar BBC Radio Scotland, gan gynnwys datgomisiynu ei *Classics Unwrapped* a *Jazz Nights*. Mae'r BBC wedi nodi y bydd cynulleidfaoedd cerddoriaeth glasurol, jazz a phipio yn parhau i gael eu gwasanaethu ac yn dilyn hynny lansiodd ei *gystadleuaeth Cerddor Jazz Ifanc* a'r podlediad newydd *The Piping Season.*

## Mae'r BBC yn parhau i weithio mewn partneriaeth â sector creadigol yr Alban

Mae'r BBC yn cynnal amrywiol gynlluniau hyfforddi i ddatblygu doniau mewn meysydd lle ystyrir bod prinder sgiliau yn yr Alban. Mae partneriaeth BBC Scotland â'r Conservatoire Brenhinol yn yr Alban wedi helpu i gefnogi Cerddorfa Symffoni BBC yr Alban drwy ddatblygu doniau arwain a chynhyrchu. Drwy ei bartneriaeth â Screen Scotland, mae'r BBC wedi cynnig cyfle i ymgeiswyr gynhyrchu a chyfarwyddo rhaglen ddogfen ar gyfer BBC Scotland a BBC iPlayer.

---

[151] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r Teledu'r BBC. Mae'r ffigurau'n dangos canran yr oriau teledu rhwydwaith cymwys a'r gwariant a ddyrannir i'r Alban.
[152] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23, t.160. Mae'r ffigurau'n cynnwys yr holl wariant sy'n ymwneud â rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu yn y wlad, ar draws teledu, radio ac ar-lein, gan gynnwys cynnwys rhwydwaith a chynnwys heb fod ar y rhwydwaith.
[153] Data 28 diwrnod cyfunol BARB, setiau teledu yn unig, unigolion 4+
[154] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2022/23.


## Fe wnaeth y BBC ddarparu cynnwys Gaeleg drwy BBC ALBA a BBC Radio nan Gàidheal

Mae trafodaethau'n parhau rhwng y BBC ac MG ALBA wrth iddynt geisio adnewyddu eu cytundeb partneriaeth ynghylch gweithredu BBC ALBA, a oedd â chyrhaeddiad wythnosol cyfartalog o 50% o siaradwyr a dysgwyr Gaeleg.[155] Fe wnaeth y BBC hefyd barhau i gynhyrchu amrywiaeth o gynnwys dysgu Gaeleg ar draws teledu, BBC iPlayer, BBC Sounds ac ar-lein drwy ei gynllun SpeakGaelic.

[155] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23, t.163.

# LLOEGR

## Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog ffynonellau'r BBC yn Lloegr





BBC LOCAL RADIO 12% yn 2022/23



Cyfran rhaglennu'r gyfres BBC *Sherwood*, a leolir yn Swydd Nottingham

| | |
|---|---|
| 36% | Dwyrain Canolbarth Lloegr |
| 29% | Cyfran y DU |

## Oriau a gwariant cynnwys gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf yn y gwledydd a'r rhanbarthau







**3,749** o oriau rhaglennu

**£90m** wedi'i wario ar gynnwys

## Oriau a gwariant rhwydwaith cymwys a gynhyrchwyd yn y rhanbarthau o Loegr




## Argraff gadarnhaol o'r BBC ymhlith oedolion yn Lloegr

Argraff gadarnhaol fesul rhanbarth...

| | |
|---|---|
| Gogledd | 57% |
| Llundain | 58% |
| De | 60% |
| Canolbarth | 64% |

**60%** yn credu bod y cynnwys yn adlewyrchu bywyd a diwylliant ar draws y DU

**52%** yn credu bod cynnwys yn dangos y wlad/rhanbarth o'r DU rwy'n byw ynddo

Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; Barb (15 munud a mwy o gyrhaeddiad); RAJAR; data BBC Compass gan Ipsos UK; Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2022/23

## Roedd cynnydd sylweddol yn y gwariant ar rwydweithiau ac oriau a gynhyrchwyd yn rhanbarthau Lloegr, a sbardunwyd yn bennaf gan ogledd Lloegr

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r BBC wedi cynhyrchu mwy y tu allan i Lundain, gan arwain at y ganran uchaf ar gofnod ar gyfer oriau rhwydwaith cymwys a gynhyrchwyd yn rhanbarthau Lloegr, sef 46.5% (7.3 pwynt canran o gynnydd ers y llynedd). Cynyddodd gwariant hefyd 6.5 pwynt canran, i 38%. Roedd cynnydd ar draws pob rhanbarth, ond yn fwyaf arwyddocaol yng ngogledd Lloegr, gyda *Morning Live* yn symud i Fanceinion a chynnydd mewn allbwn chwaraeon yn ystod y cyfnod adrodd, sy'n cael ei gynhyrchu yn Media City yn Salford.[156] Yn ogystal, fe wnaeth y BBC ddarparu amrywiaeth o ddramâu a oedd yn portreadu gwahanol ranbarthau'r Deyrnas Unedig. Darlledwyd *Sherwood*, drama drosedd a ysbrydolwyd gan stori wir yn Swydd Nottingham, ar BBC One. Roedd yn boblogaidd, yn enwedig yn nwyrain canolbarth Lloegr lle'r oedd ganddo gyfran rhaglenni o 36% (a 29% ar draws y Deyrnas Unedig),[157] gan awgrymu apêl benodol oherwydd y lleoliad.

Mae rhwydwaith y BBC wedi gweithio ochr yn ochr â BBC England yn y rhanbarthau i gynhyrchu 12 o gyd-gomisiynau. Mae BBC Three wedi gweithio gyda chwmnïau cynhyrchu lleol i ddarparu amrywiaeth o gomisiynau adloniant ffeithiol sy'n cynrychioli cynulleidfaoedd iau, ac yn ceisio apelio atynt. Er enghraifft, roedd *Brickies* yn dilyn grŵp o fricwyr ifanc ar safleoedd adeiladu yng ngogledd Lloegr. O'r gynulleidfa ar gyfer cyfresi 1, roedd 26% rhwng 16 a 34 oed (yn uwch na chyfartaledd BBC Three o 16% ar gyfer 22/23), gan amlygu bod y rhaglen o ddiddordeb i gynulleidfaoedd ifanc. Fodd bynnag, gostyngodd y ffigur hwn i 8% ar gyfer cyfres 2.[158]

## Rydym yn monitro effaith newidiadau'r BBC i radio lleol

Fel yr amlinellir yn Adran 2, mae'r BBC ar hyn o bryd yn cyflwyno newidiadau i radio lleol y BBC yn Lloegr yn ei ymdrechion i leihau ei wariant ar wasanaethau darlledu a'i ailfuddsoddi mewn cynnwys ar-lein. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys cynnydd yn y nifer sy'n rhannu rhaglenni gyda'r nos ac ar benwythnosau. Fe wnaethom graffu ar gynlluniau'r BBC ac anfon llythyr yn amlinellu ein pryderon ynghylch effeithiau posibl y newidiadau ar gynulleidfaoedd, yn enwedig a fyddai rhaglenni a rennir yn dal yn berthnasol i wrandawyr. Byddwn yn monitro effaith y newidiadau drwy adolygu amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys data gwrando, cwynion cynulleidfaoedd a gwybodaeth a ddarperir gan y BBC, e.e. astudiaethau achos gorsafoedd, ac oriau cynnwys lleol. Rydym hefyd yn cynnal gwaith ymchwil ar yr hyn mae cynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig yn ei werthfawrogi gan gyfryngau lleol yn gyffredinol.

## Mae'r BBC wedi ail-ddosbarthu rhai o'i dimau a'i waith cynhyrchu i brif ganolfannau rhanbarthol Lloegr

Mae'r BBC wedi parhau i fuddsoddi mewn canolfannau allweddol ledled Lloegr, gan ailddosbarthu ei bobl a'i waith cynhyrchu y tu allan i Lundain. Mae ei bencadlys yn Birmingham yn symud i adeilad newydd wedi ei ehangu, fel rhan o'i uchelgais i'r ddinas ddod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer cynhyrchu. Mae hefyd wedi dod yn gartref yn ddiweddar i *Newsbeat* BBC Radio 1 a BBC Asian Network, ac mae disgwyl iddo groesawu *Masterchef* sy'n cael ei gynhyrchu y tu allan i Lundain am y tro cyntaf ers 2001. Mae BBC Radio 3 wedi cyhoeddi cynlluniau i symud rhaglenni i ganolfan y BBC yn

---

[156] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r Teledu'r BBC. Mae'r ffigurau'n dangos % yr oriau teledu rhwydwaith cymwys a'r gwariant a ddyrennir i ranbarthau Lloegr.
[157] Data 28 diwrnod cyfunol BARB, setiau teledu yn unig, penodau newydd yn unig.
[158] Data 28 diwrnod cyfunol BARB, setiau teledu yn unig, penodau newydd yn unig.

Salford, gan sefydlu canolfan gerddoriaeth glasurol yng ngogledd Lloegr. Mae BBC Radio 6 Music eisoes wedi symud y rhan fwyaf o'i raglenni i Salford.

Mae'r BBC hefyd wedi buddsoddi'n sylweddol yng ngogledd ddwyrain Lloegr, mewn partneriaeth â North East Screen ac awdurdodau lleol i lansio'r Cynllun Partneriaeth Rhanbarthol. Gan ymrwymo i wario £25 miliwn yn y rhanbarth cyn 2026, dewisodd y BBC Newcastle fel ei Ddinas Comedi a lansiodd fenter gomedi a gynlluniwyd i gryfhau doniau lleol a chynyddu cynrychiolaeth gogledd ddwyrain Lloegr yn y dirwedd gomedi.

# 5. Diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol

**Crynodeb**

- Mae ein gwaith o reoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth yn newid er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddal y BBC i gyfrif yn effeithiol ac yn effeithlon er mwyn diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.
- Eleni, ychydig o brosesau sydd wedi cael eu cynnal i ystyried effaith y BBC ar gystadleuaeth.
- Rydym wedi asesu prawf budd cyhoeddus y BBC (‘PIT’) ynghylch ehangu BBC iPlayer ac ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ar ein penderfyniad dros dro ynghylch PIT y BBC ar ehangu oriau Cymraeg a gynigir gan Radio Cymru 2 fel ei fod yn dod yn wasanaeth ynddo’i hun.
- Rydym wedi ystyried dau asesiad perthnasedd gan y BBC, gan gynnwys un ynghylch newidiadau i wasanaethau newyddion ar-lein lleol y BBC, ac un asesiad perthnasedd masnachol ynghylch trosglwyddo gweithgarwch cynhyrchu sain yn rhannol i BBC Studios.
- Yn ogystal, rydym wedi asesu cydymffurfiad y BBC â’i ofynion o ran gallu cystadlu ac rydym yn fodlon ei fod wedi cyrraedd y targed yr oedd i fod i’w gyrraedd erbyn 31 Rhagfyr 2022 ar gyfer oriau sain a oedd yn destun cystadleuaeth.
- Yn gynharach eleni, fe wnaethom nodi ein safbwyntiau lefel uchel ar amodau cystadleuol yn y sectorau clyweledol a sain, a’r effaith bosibl y gallai newidiadau yn y dyfodol gan y BBC i’w wasanaethau cyhoeddus ei chael ar gystadleuaeth yn y meysydd hyn. Yn y bennod hon rydym yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am ein safbwyntiau lefel uchel.
- Rydym yn parhau i ymgysylltu â’r BBC ynghylch sut mae’n ymateb i’n hadolygiad o BBC Studios, ac yn darparu canlyniadau ein hymarfer meincnodi cysylltiedig.

## Cyflwyniad

Gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy’n cael arian cyhoeddus, sy’n gweithredu ar draws teledu, radio ac ar-lein, mae’n gallu cael effaith sylweddol ar gystadleuaeth - yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae rôl Ofcom wedi ei nodi yn y Siarter a’r Cytundeb ac mae’n mynnu ein bod ni’n diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y Deyrnas Unedig. Er mwyn gwireddu hyn, rydym wedi sefydlu rheolau ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau’r BBC ac rydym yn adolygu newidiadau y mae’r BBC yn eu gwneud i’r gweithgareddau hyn.

Yn y bennod hon rydym yn trafod ac yn adrodd ar y meysydd a ganlyn.

- Newidiadau mae’r BBC wedi’u gwneud a’n hasesiad o sut mae’r BBC wedi bodloni ei ofynion o ran cystadleuaeth wrth asesu’r newidiadau hyn.

- Gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus parhaus y BBC gan gynnwys ei gydymffurfiad â gofynion comisiynu.
- Gweithgareddau masnachol y BBC gan gynnwys sut mae'n ymateb i newidiadau rheoleiddio roeddem wedi'u gwneud.
- Newidiadau rydym wedi'u gwneud i'n canllawiau ar gyfer asesu effaith newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC, i sicrhau bod rheoleiddio'n dal yn addas i'r diben, a diweddariad ar y BBC yn y dirwedd cyfryngau sy'n newid.



# Canllawiau diwygiedig ar gystadleuaeth

Ym mis Ebrill, fe wnaethom gyhoeddi ein penderfyniad i osod gofyniad newydd gorfodol ar y BBC, i roi cyhoeddusrwydd i newidiadau yn ei wasanaethau cyhoeddus sy'n debygol o fod yn destun asesiad perthnasedd gan y BBC.[159] Bwriad hyn oedd cefnogi ymgysylltu mwy effeithiol rhwng y BBC a rhanddeiliaid. Roeddem hefyd wedi gwneud newidiadau i'n canllawiau ar gyfer asesu effaith newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC, a ddaeth i rym ar 18 Awst 2023.

Yn y canllawiau diwygiedig, rydym yn egluro sut dylai dull rhesymol a chymesur o ymgysylltu yn ystod y broses perthnasedd edrych; yn gosod disgwyliadau cliriach ynghylch yr wybodaeth y dylai'r BBC ei darparu i randdeiliaid pan fydd yn ymgynghori fel rhan o brawf lles y cyhoedd; ac yn egluro beth rydym yn disgwyl ei weld yn asesiadau gwerth cyhoeddus y BBC. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall eu safbwyntiau ar sut mae'r BBC wedi rhoi cyhoeddusrwydd i newidiadau i'w wasanaethau, a byddwn yn rhoi sylwadau yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf ar gynnydd y BBC yn y maes hwn.

# Y BBC a'r dirwedd cyfryngau sy'n newid

Ochr yn ochr â'n canllawiau diwygiedig, fe wnaethom hefyd nodi ein safbwyntiau lefel uchel ar amodau cystadleuol yn y sectorau clyweledol a sain, a'r effaith bosibl y gallai newidiadau yn y dyfodol gan y BBC i'w wasanaethau cyhoeddus ei chael ar gystadleuaeth yn y meysydd hyn.[160] Wrth i

[159] O dan y Cytundeb, mae'r BBC yn gyfrifol am asesu a allai newidiadau arfaethedig i'w wasanaethau cyhoeddus fod yn 'sylweddol'. Mae newid yn sylweddol os yw'r BBC yn lansio gwasanaeth cyhoeddus newydd yn y DU, neu'n newid gwasanaeth presennol a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.
[160] Sut mae Ofcom yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth, Atodiad 1 (tt. 46-56): Effaith y BBC ar gystadleuaeth yn y sectorau clyweledol a sain: dadansoddiad manwl.

amodau'r farchnad newid, rydym wedi ymrwymo i fonitro datblygiadau yn y farchnad a diweddaru ein safbwyntiau yn ôl yr angen. Rydym wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Yn y tablau yn Atodiad 3 rydym yn nodi ein hamcangyfrifon diweddaraf ar gyfer cyfran gwylio a gwrando, sy'n dangos darlun cyffredinol tebyg i'r hyn a nodwyd ym mis Ebrill. Yn benodol, mae'r cyfrannau gwylio yn dangos, er bod gwasanaethau llinol y BBC yn gymharol fawr o ran gwylio, mae BBC iPlayer ar hyn o bryd yn cyfrif am gyfran gymharol fach o gyfanswm yr amser gwylio (3%).[161]

Mewn perthynas â chyfrannau gwrando sain, mae cynnwys sain ar-lein yn unig y BBC yn cyfrif am gyfran fach iawn o gyfanswm yr amser gwrando (llai nag 1% yn 2023). I'r gwrthwyneb, mae portffolio radio'r BBC yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r gwrando, er bod ei gyfran o'r holl wrando ar y radio wedi bod yn gostwng.[162]

Ar sail dadansoddiad o'r data diweddar, mae ein barn lefel uchel ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau clyweledol a sain fel y nodwyd gennym y llynedd.

- Mae newidiadau i BBC iPlayer yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar gyfran gwylio – ac felly refeniw – cystadleuwyr domestig. Felly, nid oes disgwyl iddynt fod â risg sylweddol o wthio gwylwyr allan.[163] Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai'r risg fod yn uwch petai disgwyl i effaith newid penodol ddisgyn ar gronfa ddwys o ddarparwyr masnachol domestig. Byddai newid o'r fath yn fwy tebygol o fod angen craffu'n fanylach.
- Mae'n bosibl y gallai newidiadau i wasanaethau teledu llinol y BBC gael mwy o effaith ar gystadleuwyr domestig, ac felly gallent beri mwy o risg o gael eu gwthio allan na newidiadau i BBC iPlayer.
- Mae newidiadau sy'n effeithio ar BBC Sounds yn unig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar gyfran y bobl sy'n gwrando – ac felly ar refeniw – cystadleuwyr domestig, ac nid ydym yn disgwyl risg sylweddol o orlenwi.
- Gallai newidiadau i wasanaethau radio'r BBC sy'n arwain at gynnydd sylweddol mewn gwrando gael mwy o effaith ar ddarparwyr radio masnachol domestig. O'r herwydd, rydym o'r farn bod mwy o risg o wthio allan o ganlyniad i newidiadau o'r fath, o'i gymharu â newidiadau sydd wedi'u cyfyngu i BBC Sounds.

---

[161] Sylwch, mae'r cyfrannau gwylio a gyflwynir yma yn defnyddio methodoleg wahanol i'r rhai a nodwyd ym mis Ebrill oherwydd gwell argaeledd data, ac felly nid oes modd eu cymharu'n uniongyrchol. Yn benodol, gwnaeth Barb welliannau i'w mesuriadau ar ddiwedd 2021 sy'n golygu ein bod bellach yn gallu ei ddefnyddio ar gyfer gwylio SVoD/AVoD a VSP yn y cartref, gyda data IPA TouchPoints yn cael ei ddefnyddio i amcangyfrif gwylio y tu allan i'r cartref (amcangyfrifwyd y cyfrannau a nodwyd ym mis Ebrill gan ddefnyddio data gan Barb, Comscore ac IPA TouchPoints). Bwriadwn ddefnyddio'r data hwn wrth symud ymlaen, er mwyn gallu cymharu dros amser yn y dyfodol.

[162] Dylid bod yn ofalus wrth gymharu â'r cyfrannau gwrando a gyhoeddwyd yn flaenorol, gan fod ffigurau gwrando RAJAR o Ch3 2021 ymlaen yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio methodoleg arolwg wedi'i haddasu.

[163] Os bydd y BBC yn newid ei wasanaethau cyhoeddus mewn ffordd sy'n arwain cynulleidfaoedd i symud oddi wrth wasanaethau masnachol at wasanaethau'r BBC, gall refeniw darparwyr masnachol leihau. Gallai hyn yn ei dro gyfyngu ar allu darparwyr masnachol i fuddsoddi yn eu gwasanaethau, gan leihau'r dewis cyffredinol, yr ansawdd a'r amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd yn y DU. Rydym yn cyfeirio at yr effaith hon fel 'gwasgu allan'. Nid gwasgu allan yw'r unig ffordd y gall y BBC niweidio cystadleuaeth – er enghraifft, mae perygl y gallai gweithgarwch y BBC gael effeithiau niweidiol ar wasanaethau mewn rhannau eraill o gadwyn gyflenwi cyfryngau'r DU.

# Argymhellion Ofcom i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel rhan o'r Adolygiad Canol Tymor

Ym mis Mehefin 2022 fe wnaethom gyhoeddi ein hadolygiad o reoleiddio'r BBC. Un o nodau'r adolygiad hwn oedd cyfrannu at Adolygiad Canol Tymor yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o Siarter y BBC. Fe wnaethom ystyried a oedd ein gwaith o reoleiddio cystadleuaeth y BBC yn addas i'r diben ac wedi nodi argymhellion ar gyfer newidiadau i'r Cytundeb i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon eu hystyried. Y rhain oedd:

- Dileu'r cysylltiad rhwng y BBC yn cynnal prawf lles y cyhoedd ac Ofcom yn cynnal asesiad cystadleuaeth y BBC. Bydd hyn yn caniatáu i ni gymeradwyo newid heb gynnal asesiad cystadleuaeth, ond dim ond pan fyddwn yn cytuno â dadansoddiad y BBC a'i fod wedi ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid.
- Galluogi Ofcom i gymeradwyo newid i'r BBC gydag amodau gan ddefnyddio asesiad byrrach.
- Newid y diffiniad o newid 'sylweddol' fel nad yw gwasanaethau cyhoeddus newydd y BBC yn cael eu hystyried yn sylweddol yn awtomatig (bydd y newid yn dal yn amodol ar y prawf a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol).

Os bydd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC yn cytuno ar unrhyw newid i'r prosesau cystadleuaeth sydd wedi eu nodi yn y Cytundeb Fframwaith, mae'n debygol y bydd angen i ni wneud rhai newidiadau i'n canllawiau ar gystadleuaeth. Byddem yn ceisio rhoi unrhyw newid i'r Cytundeb Fframwaith ar waith cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

# Ein gwaith yn 2022/23 i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol

## Gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus

Mae ein dyletswyddau rheoleiddio mewn perthynas â gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn cynnwys pedwar maes cyffredinol, fel y nodir yn y tabl isod.

**Ffigur 4: Sut rydym yn rheoleiddio effaith gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC ar gystadleuaeth**

| | |
|---|---|
| **Newidiadau i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus** | Rydym yn ystyried a yw gwerth cyhoeddus newid perthnasol sy'n cael ei gynnig gan y BBC i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Gallwn wneud hyn drwy Asesiad Cystadleuaeth y BBC. |
| **Gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus parhaus** | Efallai y byddwn yn agor Adolygiad Cystadleuaeth y BBC lle mae sail resymol i gredu bod cynnal un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. |
| **Comisiynu** | Dros gyfnod y Siarter mae'n rhaid i'r BBC gomisiynu mwy o gynnwys yn dilyn proses gystadleuol sy'n deg, yn rhesymol, yn |

| | |
|---|---|
| | anwahaniaethol ac yn dryloyw. Ein rôl ni yw monitro cydymffurfiad y BBC a gorfodi'r gofynion hynny. |
| **Dosbarthu** | Mae gennym rôl i ystyried cwynion penodol o safbwynt cystadleuaeth am y ffordd mae'r BBC yn dosbarthu ei wasanaethau cyhoeddus. |

## Newidiadau i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus

Mae'r BBC yn gyfrifol am asesu a allai newidiadau arfaethedig i'w wasanaethau cyhoeddus fod yn 'sylweddol' (asesiad perthnasedd).[164] Pan fydd newid yn sylweddol, mae'n rhaid i'r BBC gynnal prawf lles y cyhoedd y mae'n rhaid i Ofcom ei adolygu. Rydym wedi gosod canllawiau ar y gweithdrefnau, yr amserlenni a'r dull gweithredu y byddwn yn eu defnyddio fel arfer wrth asesu effaith newidiadau o bwys.

## Profion lles y cyhoedd y BBC

**Prawf Lles y Cyhoedd y BBC**

Fel yr esboniwyd yn adroddiad y llynedd, daeth y BBC i'r casgliad ym mis Hydref 2022, ar ôl ymgynghori, bod ei gynigion i ehangu swm y cynnwys ar BBC iPlayer yn bodloni Prawf Lles y Cyhoedd ac nad oeddent yn newid sylweddol. Fe wnaethom gwblhau ein hasesiad ym mis Tachwedd 2022, gan ddod i'r casgliad nad oedd y cynigion yn newid sylweddol. Roedd hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth a oedd ar gael a sut y disgwylir i BBC iPlayer ddatblygu dros y blynyddoedd nesaf, a'n harweiniodd at y casgliad nad oedd y cynigion yn debygol o gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol ac felly nad oeddent yn berthnasol. Mae ein casgliadau'n gyson â'n barn yn y farchnad bod y risg o niwed cystadleuol yn sgil newidiadau sy'n benodol i BBC iPlayer yn debygol o fod yn isel (gweler uchod).

Roedd y BBC yn dryloyw ac yn ymgysylltu'n dda â ni drwy gydol y broses. Fodd bynnag, fel y nodwyd gennym yn ein datganiad, mynegodd rhanddeiliaid bryderon ynghylch ansawdd proses ymgynghori'r BBC. Ein barn ni oedd, er bod digon o wybodaeth wedi cael ei darparu yng nghasgliadau prawf lles y cyhoedd y BBC i ganiatáu i ni adolygu perthnasedd, y gallai'r BBC fod wedi darparu rhagor o wybodaeth am natur a manylion ei gynlluniau yn ei ymgynghoriad prawf lles y cyhoedd i alluogi rhanddeiliaid i ddeall y cynnig yn llawn a darparu mewnbwn adeiladol. Yn ein canllawiau diwygiedig ar gystadleuaeth (a nodir uchod), rydym yn nodi'r wybodaeth rydym yn disgwyl i ymgynghoriadau prawf lles y cyhoedd y BBC ei chynnwys yn y dyfodol.

**Prawf Lles y Cyhoedd BBC Radio Cymru 2**

Ar 27 Medi 2023, cyhoeddodd y BBC ei Brawf Lles y Cyhoedd ar ei gynlluniau i ymestyn nifer yr oriau Cymraeg gwreiddiol a gynigir gan BBC Radio Cymru 2 fel ei fod yn dod yn Wasanaeth Cyhoeddus yn y DU yn ei rinwedd ei hun. O dan y Cytundeb, mae cyflwyno Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU yn newid sylweddol ac felly'n destun asesiad cystadleuaeth gan Ofcom. Ar ôl asesu Prawf Lles y Cyhoedd y BBC, rydym yn ymgynghori ar hyn o bryd ar ein penderfyniad dros dro i ganiatáu i'r BBC fwrw ymlaen â'r newid. Rydym yn nodi ein barn bod y cynnig yn debygol o ddarparu gwerth cyhoeddus ychwanegol i wrandawyr Cymraeg, ac nad yw'n debygol o gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth. Rydym hefyd yn ymgynghori ar amodau Trwydded Weithredu newydd

[164] Cymal 7(7) y Cytundeb. Mae newid yn sylweddol os yw'r BBC yn lansio gwasanaeth cyhoeddus newydd yn y DU, neu'n newid gwasanaeth presennol a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

ar gyfer y gwasanaeth, os caiff ei gymeradwyo, i sicrhau ei fod yn cyfrannu at waith y BBC yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus.

## Asesiadau o sylwedd

Yn ystod 2022/23 fe wnaethom adolygu asesiadau perthnasedd y BBC o'r newidiadau arfaethedig a ganlyn i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus:

**Ffigur 5: Tabl yn dangos yr asesiadau perthnasedd rydym wedi'u hystyried yn ystod y flwyddyn adrodd hon**

| Enw a dyddiad yr Asesiad Perthnasedd | Pwnc | Penderfyniad/cam gweithredu |
|---|---|---|
| **Newyddion ar-lein lleol (Medi 2022)** | Mae'r BBC yn gwneud newidiadau i'w ddarpariaeth newyddion lleol fel rhan o raglen waith eang i foderneiddio ei wasanaethau lleol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu nifer cyfartalog y straeon newyddion ar-lein lleol a gyhoeddir bob dydd ac ychwanegu pedair ardal leol arall at y mynegai ar-lein (a oedd yn destun yr asesiad perthnasedd).<br><br>Fe wnaeth hyn godi pryderon yn y sector cyfryngau lleol am yr effaith ar gystadleuaeth. Cyfarfu'r BBC â'r NMA i rannu manylion y cynigion a'u trafod. | Nid oes angen Prawf Lles y Cyhoedd. Roeddem yn cydnabod pwysigrwydd diogelu cystadleuaeth wrth ddarparu newyddion lleol, ac roeddem wedi dweud y byddem yn monitro cynnydd cynigion y BBC ac yn casglu gwybodaeth gan y BBC a gweithredwyr masnachol i ystyried effaith y cynigion ar gynulleidfaoedd (ar ôl i'r BBC orffen cyflwyno ei newidiadau).<br><br>Fel y trafodwyd yn Adran 2, rydym yn cynnal darn ehangach o ymchwil ar yr hyn y mae cynulleidfaoedd yn ei werthfawrogi gan y cyfryngau lleol. Fel rhan o'r adolygiad ehangach, byddwn yn edrych ar effaith y BBC ar gystadleuaeth yn y sector, gan gynnwys casglu gwybodaeth gan y BBC a chyhoeddwyr newyddion masnachol. |
| **BBC Sounds (Chwefror 2023)** | Cynigion i wneud newidiadau i'r cynnwys sy'n cael ei gynnig ar BBC Sounds gan gynnwys darparu rhaglenni radio Sounds yn unig a chynnwys ffurf fer newydd, cynyddu faint o bodlediadau sy'n cael eu caffael ac arfer hyblygrwydd o ran sut a ble mae'r BBC yn rhyddhau ei lyfrgell o bodlediadau. Roedd y newidiadau hyn yn seiliedig ar newidiadau a dreialwyd gan y BBC yn 2022.<br><br>Roedd y BBC wedi ymgysylltu â Radiocentre ynghylch y cynigion. | Nid oes angen Prawf Lles y Cyhoedd. Nid oeddem yn credu bod y newidiadau, yn unigol nac ar y cyd, yn rhai a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Os bydd y BBC yn ceisio cynyddu nifer y cynnwys y tu hwnt i'r symiau a nodir yn ei gynigion, fe wnaethom ddweud ein bod yn disgwyl iddo ystyried a yw cynnydd arfaethedig o'r fath yn golygu newid sylweddol. |

## Gweithgareddau gwasanaeth nad ydyw'n gyhoeddus

Mae'r BBC yn ymwneud â rhai gweithgareddau nad ydynt yn wasanaethau cyhoeddus yn y DU, ond sy'n dal i gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae gweithgareddau nad ydynt yn wasanaethau yn cynnwys gwasanaethau fel Freeview. Pan fydd y BBC yn gwneud newidiadau i weithgaredd nad yw'n wasanaeth, bydd angen iddo ystyried a yw'r newid yn newid 'perthnasol' yn yr un ffordd ag y mae'n rhaid iddo ystyried newidiadau i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU.

Nid ydym wedi ystyried unrhyw newidiadau i weithgareddau nad ydynt yn wasanaethau yn ystod y flwyddyn adrodd.

## Cystadleuaeth mewn comisiynu

Mae'r Cytundeb yn nodi targedau penodol y mae'n rhaid i'r BBC eu cyrraedd mewn perthynas â chynyddu cyfran y cynnwys sy'n cael ei gomisiynu ar gyfer ei wasanaethau cyhoeddus drwy broses gystadleuol. Rydym wedi parhau i fonitro cynnydd y BBC o ran cyrraedd ei dargedau ac rydym yn fodlon ei fod yn gwneud rhywfaint o gynnydd tuag at y rhain, yn benodol ei fod wedi cyrraedd ei darged ar gyfer oriau sain a oedd yn destun cystadleuaeth. Rydym yn rhoi sylwadau manylach ar hyn isod.

**Ffigur 6: Cynnydd y BBC eleni tuag at dargedau comisiynu**

| | **Cystadleuaeth hyd yma 18/19** | **Cystadleuaeth hyd yma 19/20** | **Cystadleuaeth hyd yma 20/21** | **Cystadleuaeth hyd yma 21/22** | **Cystadleuaeth hyd yma 22/23** | **Targed** | **Pryd mae'n rhaid cyrraedd y targed** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teledu**[165] | 56% | 62% | 64% | 62% | 63% | 100% | 31 Rhag 2027 |
| **Radio rhwydwaith**[166] | 35% | 48% | 53% | 55% | 62% | 60% | 31 Rhag 2022 |
| **Ar-lein**[167] | 44%[168] | 62% | 59% | 72% | 80% | 100% | 31 Rhag 2027 |

[165] Mae'r Cytundeb yn mynnu bod y BBC yn sicrhau cystadleuaeth am 100% o raglenni teledu perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2027.
[166] Mae'r Cytundeb yn mynnu bod y BBC, o ran rhaglenni radio perthnasol, yn sicrhau cystadleuaeth am 60% o leiaf o amser darlledu perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2022.
[167] Mae'r Cytundeb yn mynnu bod y BBC yn sicrhau cystadleuaeth am 100% o ddeunydd ar-lein perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2027. Mae'r BBC wedi diffinio 'deunydd ar-lein perthnasol' mewn ffordd sy'n cadw at ddarpariaethau'r Cytundeb ac mae wedi trafod y diffiniad hwn ag Ofcom. Mae'n mesur cystadleuaeth ar-lein yn ôl gwariant ar gynhyrchu cynnwys deunydd ar-lein perthnasol.
[168] Yn ystod y flwyddyn hon, defnyddiodd y BBC ganran y gwariant perthnasol a oedd yn allanol fel procsi am wariant a oedd yn destun cystadleuaeth. Felly, nid oes modd cymharu'r ffigur hwn yn uniongyrchol â'r ffigurau ar gyfer blynyddoedd eraill.

Mae'n ofynnol i'r BBC hefyd sicrhau bod cystadleuaeth o ddifri rhwng cynhyrchwyr y BBC a rhai allanol (cynhyrchwyr annibynnol ai peidio) ar sail deg, resymol, anwahaniaethol a thryloyw (FRNDT).

Mae'r BBC wedi gwneud cynnydd bach eleni tuag at gyrraedd ei darged comisiynu ar gyfer teledu. Bydd cyflawni'r targed o 100% erbyn 31 Rhagfyr 2027 yn gofyn am newid sylweddol yn y trywydd o'r twf cymharol fach o un flwyddyn i'r llall hyd yma. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y BBC tuag at gyflawni'r targedau comisiynu ar gyfer teledu ac ar-lein ar sail deg, rhesymol, anwahaniaethol a thryloyw.

Rydym wedi siarad â chynhyrchwyr teledu fel rhan o'n hymgysylltiad parhaus â'r sector. Ni chodwyd unrhyw faterion o bwys ynghylch cystadleuaeth yn y broses gomisiynu.

**Sain sy'n destun cystadleuaeth**

Roedd y BBC i fod i gyrraedd ei darged ar gyfer oriau o gomisiynau radio perthnasol sy'n cael eu herio erbyn 31 Rhagfyr 2022.[169]

Nododd y BBC yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23, ar gyfer rhaglenni radio perthnasol, fod 62% wedi cael eu hagor i gystadleuaeth.[170]

Comisiynodd y BBC EY i gynnal adolygiad sicrwydd cyfyngedig ynghylch a oedd y BBC wedi cyrraedd y targed, roeddem wedi adolygu'r wybodaeth hon ac wedi cwrdd â thimau rheoleiddio a chomisiynu'r BBC i ddeall sut roedd y BBC wedi cyrraedd y targed. Mae'r BBC wedi rhoi gwybodaeth i ni am gyfran yr oriau perthnasol sy'n cael eu herio yn 2022/23 yn ôl genre. Roedd hyn yn dangos bod cyfran debyg ar draws oriau pop, clasurol a radio llafar yn cael eu herio. Roedd y BBC hefyd wedi rhoi gwybodaeth i ni am bwy enillodd oriau a oedd yn cael eu herio, a oedd yn dangos bod y gyfran a enillwyd gan gynyrchiadau mewnol y BBC yn debyg i'r gyfran a enillwyd gan gynhyrchwyr allanol.

Ar ôl dadansoddi'r wybodaeth hon, rydym yn fodlon bod y BBC wedi cyflawni ei rwymedigaeth i sicrhau cystadleuaeth am o leiaf 60% o'r oriau radio perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2022. Nid yw'r rhwymedigaeth hon yn parhau ar ôl 2022, ond mae'r BBC wedi dweud y bydd yn 'parhau i sicrhau y bydd 60% o'r gwariant cymwys (ar draws radio rhwydwaith y BBC), sy'n cael ei fesur yn flynyddol, wedi dod i fodolaeth drwy broses gystadleuol.' Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y gofyniad hwn i'r sector cynhyrchu sain ac felly rydym yn croesawu hyn. Rydym yn disgwyl i'r BBC barhau i adrodd yn flynyddol ar ganran y rhaglenni radio perthnasol sy'n destun cystadleuaeth. Byddai gormod o ostyngiad o'i lefel darged ym mis Rhagfyr 2022 yn destun pryder i ni.

Fel rhan o'n hymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid, fe wnaethom siarad ag amrywiaeth o gynhyrchwyr sain i ddeall eu safbwyntiau ar broses gomisiynu'r BBC. Er na wnaethant fynegi pryderon sylweddol am y gofyniad i fod yn deg, rhesymol, anwahaniaethol a thryloyw, codwyd nifer o bwyntiau ganddynt am y broses gomisiynu, gan gynnwys:

- Roedd un cynhyrchydd o'r farn bod cost tendro am gyfres barhaus yn uchel o ystyried y tebygolrwydd o lwyddiant.

---

[169] O dan y Cytundeb, mae cymal 7(3) "rhaglenni radio perthnasol" yn golygu'r holl raglenni radio rhwydwaith sydd wedi'u cynnwys yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y DU ac eithrio (a) rhaglenni newyddion; a (b) ailddarllediadau, parhad, cyd-ddarllediadau, deunydd EBU a cherddoriaeth wedi'i chwaraeo'n awtomatig.
[170] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23, t.135.

- Mae comisiynwyr mewn rhai rhwydweithiau radio'r BBC yn cael eu hystyried yn fwy parod i gomisiynu'n allanol ac roedd canfyddiad hefyd bod rhwydweithiau gwahanol yn fwy parod i gomisiynu gan gynhyrchwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau.
- Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r BBC yn rhoi adborth i gynhyrchwyr lle nad ydynt wedi llwyddo i gael comisiwn.
- Mae gwahaniaethau yn y prosesau comisiynu, er enghraifft amrywio amseroedd arwain a disgwyliadau rhwng gwahanol rwydweithiau a all arwain at ddiffyg eglurder i gynhyrchwyr ynghylch disgwyliadau'r BBC.

### Dosbarthu

Mae Ofcom wedi pennu gofynion ynghylch y ffordd mae'r BBC yn dosbarthu ei wasanaethau cyhoeddus. Gallwn hefyd ystyried cwynion am ddosbarthu gwasanaethau cyhoeddus y BBC os nad yw'r sawl sy'n cwyno wedi gallu datrys y mater drwy broses gwyno'r BBC. Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, nid ydym wedi ystyried cwynion ynghylch dosbarthiad y BBC.

## Gweithgareddau masnachol

O dan ofynion Masnachu a Gwahanu, ac fel y nodir yn y Cytundeb, mae'n rhaid i'r BBC ystyried a yw unrhyw newidiadau arfaethedig i'w weithgareddau masnachol yn berthnasol ac, os felly, cynnal prawf masnachol a chyfeirio'r newid perthnasol atom ni cyn iddo gael ei roi ar waith.[171] Byddem wedyn yn asesu a yw'r newid hwn yn berthnasol, ac os byddwn yn dod i'r casgliad ei fod, cynnal asesiad a phenderfyniad Masnachu a Gwahanu.

Rydym hefyd yn monitro perfformiad y BBC o ran ei weithgareddau masnachol yn barhaus, gan gynnwys asesu'r wybodaeth adrodd a ddarperir bob blwyddyn gan y BBC o dan ein rheolau.

Rydym yn nodi ein prif feysydd gwaith yn 2022/2023 isod.

**BBC Studios**

Fel rhan o Adolygiad BBC Studios, fe wnaethom nodi dau faes arwyddocaol mewn perthynas â phrisiau gwerthu a throsglwyddo cynnwys eilaidd, lle nad oeddem yn fodlon bod gan y BBC reolaethau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol â'n rheoliadau.

Yn dilyn ein hadolygiad o sut mae Ofcom yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth, roeddem wedi diweddaru ein gofynion Masnachu a Gwahanu ac wedi rhoi rhagor o arweiniad i'r BBC ynghylch sut gallai gydymffurfio â'r gofynion.

Ym mis Tachwedd, rhoddodd y BBC yr wybodaeth ddiweddaraf i ni am y camau mae'n eu cymryd o ran gwerthu cynnwys eilaidd lle mae'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn berchen ar yr eiddo deallusol, i sicrhau bod ei drefniadau cyd-gynhyrchu gyda BBC Studios ar hyd braich ac ar delerau masnachol. Yn dilyn ei ddadansoddiad o deitlau rhaglenni perthnasol, mae'r BBC wedi nodi'r meini prawf gwrthrychol mae wedi'u defnyddio i bennu bod y gwerth mae'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn ei gael gan BBC Studios, fel cyd-gynhyrchydd y gwahanol deitlau rhaglenni, yn cyd-fynd â gwerth yr hawliau sy'n cael eu masnachu. Rydym o'r farn bod dadansoddiad a phroses y BBC a ddefnyddiwyd i ddosrannu gwerth yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gennym yn yr adolygiad, a byddwn yn monitro sut mae'r BBC yn defnyddio'r broses hon yn y dyfodol petai proffil buddsoddi'r teitlau hyn yn newid yn sylweddol.

---

[171] Cymal 24 y Cytundeb.

**Asesiadau o newidiadau i weithgareddau masnachol**

Roeddem wedi ystyried asesiad perthnasedd masnachol y BBC o drosglwyddo gweithgarwch cynhyrchu sain yn rhannol o Wasanaethau Cyhoeddus y DU i BBC Studios, y mae'r BBC yn bwriadu ei gwblhau ym mis Ebrill 2024. Ar ôl adolygu'r mesurau diogelu y bydd y BBC yn eu rhoi ar waith, roeddem yn cytuno â'i gasgliad na fydd y newid yn arwain at risg sylweddol o ystumio'r farchnad na mantais gystadleuol annheg o ganlyniad i berthynas BBC Studios â'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Fe wnaethom gyhoeddi'r llythyr roeddem wedi'i anfon at y BBC ynghylch ein barn.

**Meincnodi cyfradd enillion masnachol BBC Studios**

Yn ein Hadolygiad o BBC Studios, fe wnaethom ddweud y byddem yn rhoi mwy o eglurder i randdeiliaid ynghylch yr hyn a oedd, yn ein barn ni, yn cynrychioli cyfradd enillion masnachol a'r cyfnod priodol y dylai BBC Studios (a'i linellau busnes) ennill y gyfradd hon. Er mwyn darparu'r eglurder hwn, fe wnaethom gynnal ein dadansoddiad meincnodi ein hunain o BBC Studios i ategu'r wybodaeth mae'r BBC yn ei darparu o bryd i'w gilydd i Ofcom yn gyfrinachol, fel rhan o'r Gofynion.[172] Oherwydd y materion a nodwyd fel rhan o'r adolygiad, nid oeddem yn gallu cyhoeddi canlyniadau ein gwaith meincnodi bryd hynny.

Er mwyn meincnodi BBC Studios a'i linellau busnes, fe wnaethom benderfynu ar set gymharol o gwmnïau ar sail meincnodau'r BBC ei hun, adroddiad gan Ernst & Young a gomisiynwyd gan y BBC, ac adroddiad Mediatique a gomisiynwyd gan Ofcom a oedd yn edrych ar weithgareddau BBC Studios.[173] Rhoddwyd lefel o addasrwydd (uchel, canolig, isel) i bob cwmni y cyfeiriwyd ato yn seiliedig ar wlad masnachu, maint a graddfa'r gweithgareddau.[174] Ar gyfer y meincnodau hynny a ystyriwyd yn uchel ac yn ganolig eu haddasrwydd, casglwyd data refeniw ac elw ar gyfer y cyfnod pum mlynedd rhwng 2018 a 2022[175] gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd.[176]

Ar sail yr wybodaeth hon, roeddem wedi cyfrifo cyfradd meincnod ddangosol o ystod enillion ar gyfer BBC Studios yn ei gyfanrwydd, yn ogystal â'i linellau busnes sy'n ymwneud â chynhyrchu a dosbarthu (BBC Studios) a darlledu (Sianeli a Ffrydio).[177]

Mae Ffigur 7 yn nodi canlyniadau ein gwaith meincnodi yn ogystal â chyfraddau enillion diweddaraf BBC Studios (a'i linellau busnes).[178]

[172] Yn unol â Gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC: gofynion a chanllawiau, Gofyniad D. 11 e).
[173] Adolygiad Masnachol y BBC, Ernst & Young, 31 Rhagfyr 2018 a State of the markets in which BBC Studios Operates, Mediatique, Hydref 2020
[174] Rhoddir sgôr 'uchel' i gymaryddion sy'n rhannu gweithgareddau sy'n gorgyffwrdd yn agos â BBC Studios neu ei linellau busnes, ac mae ganddynt hefyd raddfa a maint tebyg i weithrediadau yn y DU.
[175] Er mwyn cymharu, mae 2022 naill ai'n ganlyniadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022 neu 31 Mawrth 2023.
[176] Cafwyd gwybodaeth ariannol gan S & P Capital IQ, Adroddiadau Blynyddol a Datganiadau Ariannol gan Dŷ'r Cwmnïau.
[177] Y metrig proffidioldeb a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau cyfradd meincnod o enillion dangosol oedd "enillion cyn llog, trethiant, dibrisiant ac elw amorteiddiad" (ffin EBITDA). Yn natganiadau ariannol BBC Commercial Limited ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, dywed y BBC, "EBITDA yw'r mesur anstatudol o berfformiad ariannol sy'n darparu canllawiau orau i helpu i ddeall perfformiad ar sail debyg o flwyddyn i flwyddyn. Bwriad hyn yw dangos proffidioldeb sylfaenol y gellir ei feincnodi'n gymharol hawdd ac sy'n rhoi sylfaen resymol ar gyfer cysylltu â mesurau llif arian." Gan fod y BBC a chwmnïau meincnodi eraill yn defnyddio'r metrig hwn i fesur perfformiad, rydym wedi'i ddefnyddio yn ein gwaith meincnodi.
[178] O ystyried cymaroldeb isel y cwmnïau sy'n meincnodi cynhyrchu, dosbarthu a sianeli cyfun i BBC Studios, roeddem wedi amcangyfrif ystod meincnod ar gyfer BBC Studios yn ei gyfanrwydd gan ddefnyddio meincnodau Stiwdios Cynnwys a Sianeli a Ffrydio wedi'u pwysoli yn ôl refeniw BBC Studios ac EBITDA i amcangyfrif ystod ddangosol ar gyfer BBC Studios.

**Ffigur 7: Canlyniadau meincnodi Ofcom**

| | BBC Studios | Stiwdios cynnwys | Sianeli a ffrydio |
|---|---|---|---|
| **Ystod** | **7.0% - 21.0%** | **6.0% - 15.0%** | **10.0% - 28.0%** |
| Cymedr | 20.0% | 10.0% | 22.0% |
| Nifer y cymaryddion | amh. | 7 | 7 |
| **Ffin EBITDA BBC Studios 2022/23** | **11.0%** | **9.0%** | **19.0%** |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o wybodaeth ariannol sydd ar gael i'r cyhoedd a datganiadau ariannol BBC Commercial Limited. Sylwer: mae'r ystodau meincnod a'r cymedr yn seiliedig ar ddata rhwng 2018 a 2022.*

Roeddem hefyd wedi dweud y byddem yn darparu rhagor o wybodaeth am ba gyfnod o amser y byddem yn disgwyl i'r gyfradd enillion fasnachol hon gael ei hennill. Fe wnaethom gynnal ymchwil pen desg a chasglu ymatebion anffurfiol gan randdeiliaid ynghylch beth fyddai cyfnod priodol i fusnes cynhyrchu a dosbarthu newydd ennill cyfradd enillion masnachol.[179] Ar sail hyn, rydym o'r farn y byddai busnes cynhyrchu a dosbarthu newydd yn cymryd rhwng 2 a 10 mlynedd i gynhyrchu enillion masnachol.

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos bod enillion EBITDA BBC Studios (a'i linellau busnes) yn unol â chwmnïau cymharol yn 2022/23. Dylid nodi, fodd bynnag, pe na bai'r BBC yn ennill cyfradd enillion o fewn yr ystod hon mewn un flwyddyn benodol, efallai na fyddai'n destun pryder. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yng *ngweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC: datganiad ar ofynion Ofcom*, os oedd sefyllfa lle nad oedd llinell fusnes yn cyflawni'n gyson, neu lle nad oedd disgwyl iddo gyflawni, cyfradd enillion masnachol, byddem yn debygol o edrych ar nifer o wahanol ffactorau cyn penderfynu pa gamau pellach, os o gwbl, a allai fod yn briodol. Gallai hyn gynnwys:

- adolygiad o gylch bywyd y gweithgareddau penodol, gan gynnwys a yw'r cynllun busnes tymor hwy yn dangos y llinell fusnes yn cyflawni cyfradd fasnachol yn y dyfodol; ac
- asesiad o'r hyn a allai fod wedi achosi'r enillion isel, gan gynnwys ystyried amgylchiadau'r farchnad a allai olygu nad oedd cyflawni cyfradd enillion masnachol yn realistig yn y tymor byr.

[179] Cawsom ymatebion gan bum rhanddeiliad.

# 6. Safonau cynnwys

**Crynodeb**

- Er bod nifer cyffredinol y cwynion i'r BBC ac Ofcom yn parhau i ostwng ac yn nes at lefelau cyn y pandemig, mae nifer y cwynion a gafodd Ofcom mewn perthynas â didueddrwydd dyladwy wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae'r BBC wedi rhoi newidiadau ar waith i wella ei brosesau delio â chwynion ac mae wedi dweud ei fod wedi cydymffurfio â holl benderfyniadau diwygiedig Ofcom ar gwynion.[180] Byddwn yn parhau i fonitro'r gwaith o weithredu'r mesurau hyn yn agos i weld a ydynt yn mynd i'r afael â phryderon cynulleidfaoedd a amlygwyd yn ein hymchwil yn 2022.
- Yn benodol, y llynedd fe wnaethom argymell camau i'r BBC eu cymryd i wella canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy'r BBC. Rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn yr adran hon am y camau mae'r BBC wedi'u cymryd i wella tryloywder ei broses gwyno, ac i roi mwy o eglurder i gynulleidfaoedd ynghylch sut mae'r BBC yn asesu pryderon ynghylch didueddrwydd dyladwy.

## Gorfodi safonau cynnwys y BBC yn 2022/23

Mae Ofcom yn rheoleiddiwr pob rhan o safonau cynnwys y BBC, sy'n cynnwys cywirdeb dyladwy newyddion a didueddrwydd dyladwy newyddion a materion cyfoes. Mae ein Cod Darlledu (y Cod) yn nodi'r safonau rydym yn mynnu bod pob darlledwr (gan gynnwys y BBC) yn eu cyrraedd ac rydym yn eu defnyddio i sicrhau safonau cynnwys yn rhaglenni'r BBC. Mae gan y BBC hefyd ei Ganllawiau Golygyddol (y Canllawiau) ei hun sy'n adlewyrchu'r Cod - gan fynd ymhellach mewn rhai meysydd - ac mae'r BBC yn mynnu bod ei holl gynnwys yn cydymffurfio â'r Canllawiau hyn.[181] Mewn perthynas â safonau cynnwys y BBC ar gyfer ei gynnwys darlledu ac ar-alw, mae Ofcom yn rheoleiddio cydymffurfiad y BBC â'r Cod. Nid ydym yn rheoleiddio cydymffurfiad â Chanllawiau Golygyddol ehangach y BBC. Ym mis Mai 2017, ymrwymodd Ofcom a'r BBC i drefniant ar wahân yn ymwneud â deunydd ar-lein, lle mae Ofcom yn gallu ystyried a rhoi 'Barn' annibynnol ynghylch a wnaeth y BBC lynu wrth Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC yn ei ddeunyddiau ar-lein.[182]

Mae cwynion am raglenni'r BBC yn cael eu hystyried o dan broses 'BBC yn Gyntaf', sy'n adlewyrchu Siarter a Chytundeb y BBC a bennwyd gan y Senedd. O ganlyniad, mae cwynion am safonau cynnwys

[180] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23, t.123.
[181] Mae hyn yn cynnwys bod yn fwy cyffredin mewn perthynas â didueddrwydd dyladwy: mae Canllawiau Golygyddol y BBC yn mynnu didueddrwydd dyladwy ar draws ei holl allbwn, ac mae rheolau Ofcom ar ddidueddrwydd dyladwy yn berthnasol yn bennaf i gynnwys newyddion a materion cyfoes.
[182] Mae deunydd ar-lein yn cynnwys testun, delweddau, fideo a sain ar wefan ac apiau'r BBC. Mae Canllawiau Golygyddol Perthnasol yn cyfeirio at y canllawiau sy'n adlewyrchu'r safonau a bennwyd o dan adran 319 Deddf Cyfathrebiadau 2003 a'r cod sydd mewn grym dan adran 107 Deddf Darlledu 1996. Nid yw'n ymestyn i gynnwys cyfryngau cymdeithasol y BBC. O dan y Siarter a'r Cytundeb, nid oes gan Ofcom unrhyw rôl yn gorfodi safonau cynnwys ar allbwn Gwasanaeth Byd y BBC.

y BBC fel arfer yn cael eu trin gan y BBC[183] i ddechrau yn unol â gweithdrefnau cwynion y BBC ei hun.[184] Mae modd i'r sawl sy'n cwyno gyfeirio eu cwyn at Ofcom os byddant yn anfodlon ar ymateb terfynol y BBC neu os na fydd y BBC yn ymateb yn ddigon prydlon. Mae Ofcom wedi gosod gweithdrefnau i drin a datrys cwynion am raglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC sydd wedi cael eu cyfeirio atom ni, yn ogystal â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC. Yn 2022/23, rydym o'r farn bod y BBC wedi bodloni'r safonau rydym yn eu disgwyl gan ddarlledwyr ar y cyfan. Nid ydym wedi cofnodi unrhyw achosion newydd o dorri ein Cod gan y BBC.[185]

Yn 2022, fe wnaethom gyhoeddi ein hadolygiad *Sut rydym yn rheoleiddio'r BBC,* a oedd yn cynnwys archwiliad o broses delio â chwynion y BBC a chanfyddiadau cynulleidfaoedd am ddidueddrwydd dyladwy'r BBC. Fe wnaethom awgrymu camau i'r BBC eu cymryd i sicrhau bod proses gwyno'r BBC yn parhau i weithio'n dda i gynulleidfaoedd. Yn Adroddiad Blynyddol 2022/23 y BBC, dywedodd ei fod wedi gweithredu'r holl argymhellion a gofynion a ddeilliodd o'n hadolygiad, gan gynnwys gwella tryloywder a gwneud ei broses gwyno yn symlach i'w defnyddio.[186] Rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd hyn isod.

Yn yr adran hon, rydym yn trafod:

- system BBC yn Gyntaf a sut roedd yn perfformio yn 2022/23;
- Goruchwyliaeth strategol Ofcom o'r ffordd mae'r BBC yn gorfodi safonau cynnwys (gan gynnwys didueddrwydd dyladwy) a'r
- cynnydd mae'r BBC wedi'i wneud o ran delio â chwynion.

# System BBC yn Gyntaf ar waith yn 2022/23


O dan system BBC yn Gyntaf, gall y BBC, yn wahanol i ddarlledwyr eraill, ddatrys cwynion gan gynulleidfaoedd cyn y gellir eu huwchgyfeirio i Ofcom. Mae ffigur 8 isod yn dangos camau'r broses hon. Fel arfer, dim ond ar ôl cwblhau Cam 1 a Cham 2 gyda'r BBC y gall y sawl sy'n cwyno gyflwyno ei gŵyn i Ofcom.

[183] Mewn amgylchiadau eithriadol, gall Ofcom gamu i mewn cyn i gŵyn gael ei chwblhau drwy broses y BBC.
[184] Roeddem hefyd wedi nodi ein rôl yn rheoleiddio safonau cynnwys y BBC yn ein Fframwaith Gweithredu ar gyfer y BBC, yn ogystal ag mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol ar y BBC.
[185] Yn adroddiad y llynedd, fe wnaethom adrodd yn fanwl ar ddau achos o dorri amodau ar gyfer cyfnod adrodd 2022/23, er eu bod y tu allan i gyfnod adrodd 2021/22. Roedd y rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- rhifyn o *The World at One*, BBC Radio 4, 24 Chwefror 2021; a
- darllediad gan *BBC London News* ar 2 Rhagfyr 2021 (ac erthygl ar-lein gysylltiedig) am ymosodiad gwrth-Semitaidd ar fyfyrwyr Iddewig yn Llundain.

Rydym yn eu cynnwys yma eto er mwyn bod yn gyflawn. Nid yw'r rhain yn achosion newydd.
[186] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23, t.123.

**Ffigur 8: Y broses ar gyfer cynulleidfaoedd sydd wedi cwyno am y BBC**




Yn ôl ystadegau cwynion y BBC ei hun, cafodd 229,123 o gwynion yn 2022/23, 204,449 yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. Nododd y BBC fod y gostyngiad sylweddol hwn yn bennaf oherwydd nifer y cwynion a gafwyd am y sylw a roddwyd i farwolaeth Ei Uchelder Brenhinol Dug Caeredin ar gyfer cyfnod 2021/22.[187] Eleni, cafodd 97% o gwynion Cam 1 eu hateb o fewn targedau'r Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) a osodwyd gan Ofcom, gwelliant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (gweler Ffigur 9 isod).

**Ffigur 9: Cwynion Cam 1 i'r BBC**

| | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|
| **Cwynion Cam 1 y BBC** | 433,572 | 229,123 |
| **Cwynion a gafodd eu hateb o fewn yr amserlen benodedig o 10 diwrnod gwaith (targed a osodwyd gan Ofcom 93%)** | 95% | 97% |

*Ffynhonnell: Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23* a 2021/22.

Rhan bwysig o system BBC yn Gyntaf yw'r gweithgarwch ymchwilio a wneir gan Uned Cwynion Gweithredol (UCG) y BBC yng Ngham 2 proses gwynion y BBC. Mae gan yr Uned Cwynion Gweithredol gyfrifoldeb i ystyried cwynion yn ddiduedd ac yn annibynnol ar fuddiannau gwneuthurwyr rhaglenni a darparwyr cynnwys. Mae canlyniadau ei ymchwiliadau fel arfer yn ffurfio ymateb terfynol y BBC i gwynion.

Nod yr Uned Cwynion Gweithredol yw cwblhau 80% o'i hymchwiliadau o fewn ei hamseroedd ymateb targed o 20 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion Cam 2 safonol a 35 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion Cam 2 mwy cymhleth. Roedd yr Uned wedi delio â 1,199 o gwynion yng Ngham 2 proses gwynion y BBC yn 2022/23 fel a ganlyn.

- Cwblhawyd 35% o'r cwynion hyn o fewn 20 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion cam 2 safonol.[188] Er bod hyn yn ostyngiad sylweddol o'r 87% a gyflawnodd y flwyddyn flaenorol, dywedodd y BBC mai'r rheswm dros beidio â chyflawni Dangosyddion Perfformiad Allweddol

[187] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23, t.123.
[188] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23, t.123. 80% yw targed cydymffurfio Ofcom yn y maes hwn.

yng Ngham 2 yn y cyfnod hwn oedd o ganlyniad i un achos cymhleth a oedd yn denu nifer fawr o gwynion na welwyd eu tebyg o'r blaen yn bennaf.[189]

- Ar gyfer cwynion cymhleth Cam 2, cwblhawyd 80% ohonynt o fewn 35 diwrnod gwaith.[190]

Dywedodd y BBC, o'r ymchwiliadau a gynhaliwyd ganddo yn ystod y cyfnod adrodd, fod yr Uned wedi canfod 43 achos o dorri safonau golygyddol lle nad oedd ei Ganllawiau Golygyddol wedi cael eu bodloni. [191]

## Torri rheolau golygyddol difrifol

Yn ein hadolygiad ym mis Mehefin 2022, roeddem wedi gofyn i'r BBC roi gwybod i Ofcom cyn gynted ag y mae'n rhesymol ynghylch achosion difrifol posibl o dorri rheolau golygyddol ar draws ei gynnwys. Ers hynny, mae Ofcom wedi cael gwybod am ddau achos difrifol o dorri rheolau golygyddol gan y BBC:

- BBC Tyne and Wear – cyhoeddwyd erthygl ar-lein gan y BBC yn seiliedig ar yr hyn a ddaeth i fod yn drydariad ffug yn ymwneud â'r actor Hollywood, Will Ferrell. Tynnodd y BBC yr erthygl hon yn ei chyfanrwydd a rhoddwyd cywiriad ar wefan Cywiriadau ac Esboniadau'r BBC;[192] a
- BBC News – Cyhoeddodd y BBC erthygl anghywir ar-lein ynghylch pam y cafodd cyfrif Nigel Farage yn Coutts Bank ei gau.[193] Roedd y BBC yn trin hyn fel achos difrifol o dorri ei Ganllawiau Golygyddol, diweddarodd ei erthygl wreiddiol a rhoi ymddiheuriad i Mr Farage ar y mater.[194]

Nododd y BBC bedwar achos ychwanegol difrifol o dorri'r rheolau golygyddol yn ei Adroddiad Blynyddol yr ymchwiliwyd iddynt y tu allan i'r broses gwynion arferol. Roedd dau o'r achosion hyn o dorri amodau yng nghylch gwaith rheoleiddio Ofcom ac roeddent wedi digwydd cyn i'r BBC gytuno i roi gwybod i Ofcom cyn gynted ag y bo'n rhesymol am achosion o'r fath. Yr achosion hyn oedd:

- BBC Cymru Wales – roedd adroddiad ar yr Eisteddfod Genedlaethol a'i Phrif Weithredwr yn cynnwys honiadau di-sail. Tynnwyd y stori hon oddi ar lwyfannau'r BBC a chyhoeddwyd a darlledwyd ymddiheuriad. Cynhaliodd y BBC ymchwiliad a rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith; a
- *The Papers*, sianel BBC News – ni wnaeth sylwadau gan y cyflwynydd yn ymwneud ag etholiad arweinyddiaeth y Blaid Geidwadol ym mis Hydref 2022 fodloni safonau golygyddol y BBC ac nid oedd digon o her i safbwyntiau a fynegwyd gan gyfranogwr ar y rhaglen.[195]

---

[189] Roedd yr achos cymhleth hwn yn ymwneud â'r erthygl ar-lein: '*We're being pressured into sex by some trans women*' (teitl gwreiddiol), sydd bellach â theitl newydd: '*The Lesbians who feel pressured to have sex and relationships with trans women*', gwefan BBC News, 26 Hydref 2021. Roedd Ofcom hefyd wedi cael nifer uchel o gwynion mewn perthynas â'r erthygl hon ac wedi cyhoeddi Barn ar y mater hwn. Rydym yn darparu astudiaeth achos ar ein Barn isod.

[190] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23, t.123.

[191] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23, t.123. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys achosion a fyddai wedi bod y tu allan i gylch gwaith rheoleiddio Ofcom (er enghraifft, os oeddent yn cynnwys deunydd a ddarlledwyd ar BBC World Service).

[192] Cywiriadau ac Esboniadau'r BBC, BBC Tyne a Wear, 18 Chwefror 2023.

[193] BBC News, *Nigel Farage: BBC apologises to Farage over account closure story*, 24 Gorffennaf 2023.

[194] Cafodd Ofcom wybod am yr achos golygyddol difrifol hwn ym mis Gorffennaf 2023 ac mae y tu allan i'r cyfnod adrodd ar gyfer yr adroddiad hwn. Rydym wedi'i gynnwys yma gan ei fod yn un o'r achosion difrifol cyntaf o dorri rheolau golygyddol a adroddwyd i Ofcom ac oherwydd ei bod yn bwysig tynnu sylw at hynny.

[195] Roedd yr achos yn ymwneud â *The Papers* mewn un rhifyn o'r rhaglen ym mis Hydref 2022.

Cynhaliodd y BBC ymchwiliad i'r mater a chynnal trafodaethau ynghylch didueddrwydd gyda staff.

Ym mhob un o'r achosion uchod, nid oedd Ofcom yn credu bod angen cymryd unrhyw gamau rheoleiddio pellach o ystyried y camau a gymerwyd eisoes gan y BBC.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y BBC nawr, fel mater o drefn, yn tynnu sylw Ofcom at achosion difrifol o dorri rheolau golygyddol, sydd wedi ein galluogi i graffu'n well ar broses gwyno'r BBC a goruchwylio'r materion hyn a sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu rhag deunydd a allai fod yn niweidiol. Rydym wedi sefydlu protocol ar gyfer cyfathrebu rhwng y BBC ac Ofcom yn y dyfodol pan fydd achosion yn dod o dan weithdrefnau'r BBC ar gyfer ymchwiliadau a ysgogir gan y BBC ei hun, i achosion posibl o dorri safonau golygyddol ac achosion llwybr carlam. Rydym yn disgwyl gweld yr hysbysiad cynnar hwn i Ofcom yn parhau a byddwn yn cysylltu â'r BBC fel blaenoriaeth pan fydd y toriadau hyn yn digwydd.


## Cwynion a gyfeirir at Ofcom

Gall y sawl sy'n cwyno gyfeirio ei gŵyn at Ofcom os yw'n dal yn anfodlon â phenderfyniad terfynol y BBC.[196] Roedd Ofcom wedi asesu a chau 1,834 o gwynion am gynnwys y BBC rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. O'r rhain, roedd 114 wedi cwblhau proses gwynion y BBC yn gyntaf ac felly fe wnaethom gyfeirio'r gweddill yn ôl at y BBC. Mae Ffigur 10 isod yn rhoi trosolwg o'r cwynion yr ymdriniwyd â nhw o dan System BBC yn Gyntaf ar gyfer cyfnod 2022/23.

Mae'r ffigurau hyn yn dal i ddangos cyfradd isel o uwchgyfeirio.[197] Fel y nodwyd gennym yn ein hymchwil ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o system gwyno BBC yn Gyntaf, Mehefin 2022, gallai hyn fod oherwydd amrywiaeth o ffactorau ac efallai nad yw'n arwydd bod proses BBC yn Gyntaf yn gweithio'n dda yn unig. Gallai hefyd gael ei sbarduno gan rwystredigaeth ynghylch sut mae'r BBC wedi delio â phryderon cynulleidfaoedd, prydlondeb, neu dôn ac eglurder ymatebion Cam 1b. Rydym yn trafod y newidiadau mae'r BBC wedi'u gwneud i'w brosesau delio â chwynion a'n camau nesaf mewn perthynas â'n hadolygiad o system BBC yn Gyntaf yn nes ymlaen yn yr adran hon.

[196] Mae achwynwyr hefyd yn gallu dod at Ofcom os ydynt yn meddwl, ar ôl i'r BBC ddatrys cwyn, y gallai sancsiwn fod yn briodol, neu os yw'r BBC wedi methu datrys cwyn yn y cyfnod a nodir yn ei weithdrefnau.
[197] Mae data'r BBC yn dangos mai dim ond 1,199 o'r 229,123 o gwynion a gafodd yng ngham 1 yn y flwyddyn ariannol honno a gafodd eu huwchgyfeirio i gam 2. Mae data Ofcom yn dangos bod 114 o'r cwynion Cam 2 hyn wedi cael eu huwchgyfeirio i Ofcom.

**Ffigur 10: Trosolwg o gwynion yr ymdriniwyd â nhw o dan system BBC yn Gyntaf yn 2022/23**




Roedd y tair cwyn a gyfeiriwyd gennym ar gyfer ymchwiliad yn ymwneud â sylw i etholiadau BBC Northern Ireland (gweler isod). Roedd nifer o raglenni y cwynwyd amdanynt y gwnaethom eu hystyried o dan un ymchwiliad.

## Ymchwiliadau safonau'r BBC

Fe wnaethom gwblhau tri ymchwiliad safonau yn 2022/23. Roedd dau o'r rhain yn ymwneud â chynnwys a ddarlledwyd yn 2021 a chawsant eu cynnwys yn fanwl yn adroddiad y llynedd – gweler troednodyn 186. Roeddent yn ymwneud â rhifyn o *World at One* ar BBC Radio 4 a oedd yn ymwneud â'n rheolau didueddrwydd dyladwy ac adroddiad newyddion BBC London (ac erthygl ar-lein gysylltiedig). Nid yw'r rhain yn achosion newydd, ond rydym wedi cyfeirio at y rhain yn adroddiad eleni er mwyn bod yn gyflawn.

Roedd y trydydd ymchwiliad safonau y gwnaethom ei gwblhau yn 2022/23 yn ymwneud â sylw'r BBC i'r cyfnod cyn Etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon Mai 2022.[198] Cafodd Ofcom gŵyn gan Blaid Werdd Gogledd Iwerddon (GPNI) a oedd yn honni, wrth eithrio'r GPNI o gyfres o gyfweliadau gydag arweinwyr pleidiau gwleidyddol, y cyfeiriwyd atynt fel 'Cyfweliadau'r Arweinydd' ar y rhaglen BBC One, *The View*, ac yn ei sylw yn fwy cyffredinol, bod y BBC wedi methu â chydymffurfio â'i rwymedigaethau o ran didueddrwydd dyladwy. Ystyriodd Pwyllgor Etholiadau Ofcom y gŵyn o dan Adran Pump (Didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy) ac Adran Chwech (Etholiadau a refferenda) y Cod.[199] Nid oedd gan Bwyllgor Etholiadau Ofcom unrhyw bryderon ynghylch dull gweithredu'r BBC o ran fformat 'Cyfweliadau'r Arweinydd' *The View*, nac unrhyw bryderon am ddull

[198] Decision of the Election Committee on a due impartiality complaint from the Green Party Northern Ireland regarding BBC coverage of the run-up to the Northern Ireland Assembly Election 2022 Ofcom, 28 Ebrill 2022.
[199] Yn ystod cyfnod etholiad, mae Ofcom yn sefydlu Pwyllgor Etholiadau sydd ag awdurdod wedi'i ddirprwyo gan Fwrdd Ofcom i ystyried cwynion am ddidueddrwydd dyladwy mewn perthynas â rhaglenni sy'n ymwneud ag etholiadau lle gallai'r gŵyn, os caiff ei chadarnhau, fod angen ei hunioni cyn yr etholiad.

cyffredinol y BBC o roi sylw i'r GPNI yn ystod cyfnod etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon. Felly, penderfynodd nad oedd hyn yn torri rheolau Ofcom.

## Cwynion didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy

Mae cwynion i Ofcom am ddidueddrwydd dyladwy y BBC wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Asesodd Ofcom 918 o gwynion yn 2022/23 am ddidueddrwydd dyladwy cynnwys y BBC (39% o holl gwynion am y BBC i Ofcom) o'i gymharu â 594 yn y flwyddyn flaenorol (19%). Mae'r ffigurau hyn ar gyfer didueddrwydd dyladwy yn cynnwys cwynion am Safonau'r BBC a Deunydd Ar-lein y BBC.

O'r 918 o gwynion (570 o achosion) a aseswyd yn 2022/23: [200]

- Ni ddilynwyd/ni dderbyniwyd 102 o gwynion (98 o achosion) gan nad oeddem o'r farn eu bod wedi codi materion yr oedd angen ymchwilio iddynt;
- Cafodd 247 o gwynion (5 achos) eu cyfeirio ar gyfer ymchwiliad;[201] a
- chyfeiriwyd y 569 (467 o achosion) a oedd yn weddill yn ôl at y BBC i gwblhau proses gwynion y BBC.

Yn ogystal ag ymchwiliadau Ofcom, mae'r BBC yn cynnal ei ymchwiliadau ei hun i sicrhau bod safonau didueddrwydd dyladwy ar wasanaethau'r BBC yn cael eu cynnal. Yn ystod cyfnod 2022/23, o'r 21 achos a gafodd eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol gan UCG y BBC, roedd pedwar yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy.[202] Ers dechrau cyfnod y Siarter bresennol yn 2017, mae Uned Cwynion Gweithredol y BBC wedi cadarnhau 29 achos yn llwyr neu'n rhannol (allan o gyfanswm o 147) lle canfu nad oedd y safon briodol ar gyfer didueddrwydd dyladwy wedi cael ei bodloni.[203]

Ers 7 Hydref 2023, rydym wedi cael nifer o gwynion sy'n ymwneud â sylw'r BBC i wrthdaro Israel-Gaza. Cododd rhai o'r rhain bryderon am yr eirfa a ddefnyddiodd y BBC ar yr awyr i gyfeirio at y sefydliad terfysgol gwaharddedig Hamas a sut mae Canllawiau Golygyddol y BBC yn delio â materion o'r fath. Fel y nodwyd uchod, nid yw Ofcom yn gorfodi Canllawiau Golygyddol y BBC mewn perthynas ag allbwn darlledu ac ar-alw y BBC. Rydym yn asesu yn erbyn Cod Ofcom unrhyw gwynion am sylw'r BBC i wrthdaro Israel-Gaza sydd wedi cwblhau proses BBC yn Gyntaf ac sydd wedi cael eu cyfeirio atom ni. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cwynion a gawsom ar y mater hwn yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf ar y BBC. .

## Cwynion am degwch a phreifatrwydd

Mae gan Ofcom ddyletswydd i ddyfarnu ynghylch cwynion sy'n cael eu gwneud gan unigolion neu sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni a ddarlledir, neu a oedd yn rhan o wneud rhaglenni, neu y mae'r rhaglenni hynny'n effeithio arnynt yn uniongyrchol. Mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ac yn ymwneud â thriniaeth annheg neu anghyfiawn mewn rhaglenni neu am darfu'n ddiangen ar breifatrwydd mewn rhaglenni (neu yng nghyswllt cael y deunyddiau sydd ynddynt).[204]

---

[200] Mae cwynion unigol a ddaw i law Ofcom yn cael eu haseinio i achosion. Agorir achos pan fydd Ofcom yn asesu mater neu raglen benodol, a gall gynnwys un gŵyn neu ragor.
[201] Roedd y rhain yn cynnwys y tair cwyn y gwnaethom eu cyfeirio yn un ymchwiliad safonau'r BBC mewn perthynas â sylw'r BBC i'r cyfnod cyn Etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon, a dwy gŵyn am ddeunydd ar-lein y BBC mewn perthynas ag erthygl y BBC ar ymosodiad gwrth-Semitaidd ar fyfyrwyr Iddewig yn Llundain ac erthygl y BBC "*We're being pressured into sex by some trans women" (teitl gwreiddiol)*.
[202] Ymateb y BBC i hysbysiad adran 135 dyddiedig 25 Medi 2023.
[203] Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys achosion y tu allan i gylch gwaith Ofcom.
[204] Nid yw'r system BBC yn Gyntaf yn berthnasol i gwynion tegwch a phreifatrwydd, ac yn wahanol i gwynion am safonau cynnwys y BBC, mae modd cyfeirio'r rhain at Ofcom yn y lle cyntaf.

Yn ystod cyfnod adrodd 2022/23, fe wnaeth Ofcom asesu 24 o gwynion yn erbyn rhaglenni'r BBC am honiadau o driniaeth anghyfiawn neu annheg, neu am dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad, o'i gymharu â 39 yn y flwyddyn flaenorol. Yn ogystal â'r rhain, fe wnaethom hefyd gwblhau pedwar ymchwiliad tegwch a phreifatrwydd i raglenni'r BBC a chafodd dau o'r rhain eu cadarnhau.[205]

## Cwynion am ddeunyddiau ar-lein

Fel yr amlinellir uchod, mae Ofcom yn gallu ystyried a rhoi 'Barn' annibynnol ynghylch a wnaeth y BBC lynu wrth Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC[206] yn ei ddeunyddiau ar-lein.[207]

Eleni fe wnaethom asesu a chau cyfanswm o 297 cwyn (55 achos) am ddeunydd ar-lein y BBC. Roedd 197 o gwynion eraill (196 achos) wedi cael eu cyfeirio at y BBC o dan y dull BBC yn Gyntaf, neu y tu allan i'n cylch gwaith. O'r 55 achos a aseswyd gan Ofcom yn 2022/23, cafodd 53 eu cau fel 'ddim yn cael eu derbyn' yn dilyn asesiad gan Ofcom. Mae hyn yn golygu nad oeddem yn credu bod y deunydd ar-lein yn codi problemau posibl o dan Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC ac felly nid oedd yn cyfiawnhau ymchwiliad pellach gan Ofcom.

Derbyniasom 244 o gwynion (dau achos) at ddibenion darparu Barn Ofcom, gan gynnwys yr astudiaeth achos isod.[208]

- Ym mis Gorffennaf 2022, fe wnaethom gyhoeddi Barn nad oedd y BBC wedi cadw at Adran 3: Cywirdeb ac Adran 8: Adrodd ar Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Canllawiau Golygyddol y BBC mewn perthynas ag erthygl a oedd yn adrodd ar achosion troseddol ar wefan BBC News '*Man jailed after blaming speeding ticket on fictional Frenchman*'.[209]
- Ym mis Ebrill 2023, fe wnaethom gyhoeddi Barn ynghylch a oedd y BBC wedi dilyn Canllawiau Golygyddol perthnasol y BBC yng nghyd-destun erthygl ar-lein a gyhoeddwyd yn wreiddiol dan y teitl '*We're being pressured into sex by some trans women*'.[210] Roeddem yn cytuno ag ymateb yr UCG bod y BBC wedi methu â chydymffurfio ag Adran 3: Cywirdeb, ond nad oedd y BBC wedi torri ei reolau didueddrwydd dyladwy na niwed a thramgwydd.[211] Mae'r astudiaeth achos isod yn rhoi rhagor o fanylion am yr ymchwiliad hwn.

---

[205] *Look East (West)*, BBC 1 (darlledwyd ar 10 Awst 2021) ac unwaith ar gyfer *Beyond Today: How is 'pickup' culture still a thing*, BBC Sounds, 9 Hydref 2019 a *1Xtra Talks: Pick-up Artists*, BBC Sounds, 24 Hydref 2019.
[206] Mae Canllawiau Golygyddol perthnasol y BBC yn cyfeirio at Ganllawiau Golygyddol y BBC sy'n adlewyrchu Cod Darlledu Ofcom.
[207] Mae deunydd ar-lein yn cynnwys testun, delweddau, fideo a chynnwys sain ar wefan ac apiau'r BBC, ond nid yw'n ymestyn i gynnwys cyfryngau cymdeithasol y BBC.
[208] Yn ystod cyfnod adrodd 2022/23, fe wnaethom dderbyn dau achos at ddibenion darparu Barn. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod adrodd, roeddem wedi darparu Barn ar dri achos (gan gynnwys y ddwy Farn a restrir uchod). Fe wnaethom ddarparu'r drydedd Farn ym mis Tachwedd 2022, yr oeddem wedi'i derbyn yn y cyfnod adrodd blaenorol (2021/22) a'i chynnwys yn Adroddiad Blynyddol y llynedd. Roedd hyn yn ymwneud ag ymchwiliad ar erthygl ar-lein gan y BBC am ymosodiad gwrth-semitaidd ar fyfyrwyr Iddewig yn Llundain - gweler troednodyn 186. Fe wnaethom gyhoeddi Barn bod y BBC wedi methu â dilyn ei ganllawiau golygyddol i adrodd ar newyddion gyda chywirdeb a didueddrwydd dyladwy. Rydyn ni'n sôn amdano yma er mwyn bod yn gyflawn gan ei fod wedi'i gynnwys yng nghyfnod adrodd 2022-23. Nid yw hyn yn achos newydd.
[209] Bwletin Ofcom ar gyfer cwynion am ddeunydd ar-lein y BBC, rhifyn 32, 11 Gorffennaf 2022.
[210] Cafodd y gŵyn hon ei derbyn yn ystod cyfnod 2022/2023; fodd bynnag, fe wnaethom gyhoeddi ein barn ar 3 Ebrill 2023 sydd y tu allan i'n cyfnod adrodd. Rydym wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol hwn gan ei fod yn achos pwysig i'w amlygu.
[211] Bwletin Ofcom ar gyfer cwynion am ddeunydd ar-lein y BBC, Rhifyn 38, 3 Ebrill 2023.

**Astudiaeth achos: ‘*We’re being pressured into sex by some trans women’ (teitl gwreiddiol),* y newidiwyd y teitl ers hynny i: ‘*The Lesbians who feel pressured to have sex and relationships with trans women’* gwefan BBC News, 26 Hydref 2021.**

Roedd yr erthygl hon yn edrych ar farn menywod lesbiaidd sy’n honni eu bod yn teimlo dan bwysau i gael rhyw gyda menywod trawsryweddol, oherwydd eu bod yn ofni cael eu galw’n drawsffobig.

Ar ôl cyhoeddi ymateb UCG y BBC, a oedd yn cadarnhau’r cwynion yn rhannol mewn perthynas â chywirdeb dyladwy teitl gwreiddiol yr erthygl (yr ‘Erthygl Wreiddiol’), cafodd Ofcom dros 220 o gwynion a oedd yn codi nifer o faterion, gan gynnwys: bod yr Erthygl Wreiddiol yn hyrwyddo stereoteip trawsffobig niweidiol bod menywod trawsryweddol yn ceisio mynediad rhywiol at lesbiaid; nad oedd cynnwys yr holiadur gan ‘Get the L Out’ yn ddilys yn ystadegol gan ei fod yn cynnwys 80 o gyfranogwyr yn unig; roedd yr Erthygl Wreiddiol wedi methu dangos didueddrwydd dyladwy drwy roi llwyfan i safbwynt trawsffobig; ac roedd naws yr Erthygl Wreiddiol yn portreadu pobl drawsryweddol fel bygythiad, heb unrhyw sail dystiolaeth.

Roedd Ofcom yn cytuno ag ymateb yr UCG bod teitl yr Erthygl Wreiddiol yn rhoi argraff gamarweiniol bod rhai menywod trawsryweddol yn rhoi pwysau am ryw, a bod yr erthygl mewn gwirionedd yn canolbwyntio ar bwysau a deimlir gan rai pobl LGBT. Felly, roedd yr Erthygl Wreiddiol wedi disgyn yn is na’r safonau cywirdeb dyladwy sydd yng Nghanllawiau Golygyddol y BBC yn y cyswllt hwn. Roedd Ofcom hefyd yn cytuno ag ymateb yr UCG bod yr Erthygl Wreiddiol yn disgyn yn is na’r safonau cywirdeb dyladwy o ran methu ag arfer lefel briodol o amheuaeth wrth drin canfyddiadau’r holiadur ‘Get the L Out,’ o ystyried bod yr arolwg yn cael ei gynnal drwy ddewis grwpiau ‘menywod yn unig’ a ‘lesbiaid yn unig’ a bod ganddo sampl fach.

Roedd Ofcom yn cytuno ag ymateb yr UCG nad oedd yr Erthygl Wreiddiol, at ei gilydd, yn torri Adran 4: Didueddrwydd neu Adran 5: Niwed a Thramgwydd yng Nghanllawiau Golygyddol y BBC, gan fod amrywiaeth o safbwyntiau wedi cael sylw. Fodd bynnag, roeddem wedi atgoffa’r BBC, wrth greu cynnwys am faterion sydd â photensial uchel i beri tramgwydd, ei bod yn bwysicach fyth bod y cynnwys yn cyrraedd lefel uchel o safonau golygyddol a bod ganddo sail dystiolaeth gadarn er mwyn cynnal ymddiriedaeth mewn newyddion. O ystyried yr amrywiaeth o safbwyntiau a gyflwynwyd yn yr erthygl, roeddem o’r farn bod y drosedd bosibl wedi cael ei lliniaru yn yr achos penodol hwn.

Barn Ofcom oedd nad oedd y BBC yn cadw at y darpariaethau perthnasol yn Adran 3: Cywirdeb Canllawiau Golygyddol y BBC mewn perthynas â’r Erthygl Wreiddiol. Fodd bynnag, roedd Ofcom o’r farn bod y camau a gymerwyd gan y BBC i ddiwygio’r Erthygl Wreiddiol i gywiro’r anghywirdebau yn ddigonol ac yn briodol.

## Y cynnydd mae’r BBC wedi’i wneud i fynd i’r afael â’r heriau o ran delio â chwynion

Fel yr uchod, yn ein hadolygiad yn 2022 fe wnaethom ddweud y byddai angen gwneud nifer o newidiadau i sicrhau bod proses gwyno BBC yn Gyntaf yn gweithio i gynulleidfaoedd ac fe wnaethom ddiwygio ein Penderfyniadau ar Ddelio â Chwynion i wella tryloywder. Mewn ymateb i’n hadolygiad, ym mis Tachwedd 2022 cyhoeddodd y BBC y byddai’n gwneud newidiadau i symleiddio ei broses

gwyno.[212] Mae Ofcom wedi datblygu cysylltiadau agosach â Phwyllgorau Safonau a Chanllawiau Golygyddol y BBC a thimau cydymffurfio i fonitro cynnydd y BBC yn y maes hwn.

## Penderfyniadau Ofcom ar gwynion

Yn ein hadolygiad yn 2022 roeddem wedi diwygio ein gofyniad i'r BBC gyhoeddi ei resymau dros benderfyniadau 'heb eu cadarnhau' yng Ngham 2. O ganlyniad i'n hymyriad, mae'n rhaid i'r BBC nawr gyhoeddi ei resymau dros y canlynol:

- pob penderfyniad sy'n ymwneud â chŵyn am gywirdeb dyladwy neu ddidueddrwydd dyladwy sy'n cyrraedd cam terfynol ei broses gwyno; a
- phob penderfyniad sy'n ymwneud ag achos lle mae'r BBC wedi cael dros 100 o gwynion am yr eitem yng Ngham 1a.

Rydym yn falch o weld, ers i ni gyflwyno ein Penderfyniadau Cwynion diwygiedig ar ddelio â chwynion, bod y BBC wedi cynyddu ei waith cyhoeddi yn y maes hwn yn sylweddol.

- Yn ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf ar y BBC, roeddem wedi adrodd bod y BBC wedi cyhoeddi ei resymeg mewn 67 o achosion 'heb eu cadarnhau' yn ystod y cyfnod 4 Gorffennaf 2022 (pan gyflwynwyd ein penderfyniadau diwygiedig ynghylch cwynion) i 21 Tachwedd 2022.
- Ers hynny, mae'r BBC wedi darparu[213] ffigurau wedi'u diweddaru i ni tan ddiwedd y flwyddyn adrodd ac yn y cyfnod hwnnw (4 Gorffennaf 2022 i 31 Mawrth 2023), cyhoeddodd ei resymeg mewn 188 o achosion heb eu cadarnhau.[214]

Mae gwybodaeth am y cwynion hyn yn cael ei chyhoeddi ar wefan adroddiadau cwynion bob pythefnos y BBC ac yn cael ei darparu i Ofcom. Rydym yn croesawu adroddiadau'r BBC yn y maes hwn, sydd wedi gwella tryloywder proses gwynion y BBC ac wedi rhoi mwy o eglurder i gynulleidfaoedd ynghylch sut mae'r BBC yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Rydym yn disgwyl gweld y lefel hon o adrodd yn parhau.

Yn ychwanegol at yr uchod, roeddem wedi gofyn i'r BBC roi gwybod i Ofcom yn fuan ynghylch achosion difrifol posibl o dorri rheolau golygyddol ar draws ei gynnwys. Mae hyn yn ein galluogi i graffu ar broses gwynion y BBC ac, os oes angen, ymyrryd yn gynnar. Fel yr amlinellwyd uchod, mae Ofcom wedi cael gwybod am ddau achos difrifol o dorri rheolau golygyddol ers cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf ar y BBC.[215]

## Mae'r BBC wedi gwneud ymrwymiadau ychwanegol i wella ei broses gwyno

Yn ogystal â Phenderfyniadau Cwynion diwygiedig Ofcom, mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod wedi cyflwyno nifer o newidiadau i wella ei effeithiolrwydd a'i dryloywder o ran delio â chwynion. Mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys:

---

[212] BBC News, BBC announces changes to simplify its complaints process, 29 Tachwedd 2022.
[213] E-byst y BBC i Ofcom 31 Gorffennaf 2023 a 31 Hydref 2023.
[214] Dechreuodd y BBC gofnodi'r data hwn o fis Gorffennaf 2022 ymlaen (pan gafodd Penderfyniadau Cwynion diwygiedig Ofcom eu cyhoeddi a'u rhoi ar waith), ac mae Ofcom yn dechrau casglu data tueddiadau ar gyfer cwynion 'heb eu cadarnhau' y BBC. Rydym wedi cynnwys data ar gyfer cyfnod 4 Gorffennaf 2022 i 31 Mawrth 2023 yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, ar gyfer Adroddiad Blynyddol nesaf Ofcom ar y BBC, byddwn yn adrodd ar ein set lawn gyntaf o ddata ar gyfer cyfnod adrodd ariannol 2023/24.
[215] Roedd y toriadau hyn yn ymwneud ag erthygl ar-lein BBC Tyne and Wear ac eitem ddarlledu ar BBC News.

- **Gwella prydlondeb ymateb i gwynion yng Ngham 1b** – Mae'r BBC wedi ailstrwythuro ei dîm cwynion fel bod mwy o adnoddau'n cael eu defnyddio ar gyfer delio â chwynion, yn enwedig yng Ngham 1b y broses. Mae hefyd wedi rhoi prosesau adrodd mewnol newydd ar waith sy'n rhoi dadansoddiad mwy manwl o oedran i asiantau cwynion, gan eu helpu i fodloni dangosyddion perfformiad allweddol mewnol.
- **Cynyddu tryloywder y broses gwyno** – Yn ei Adroddiad Blynyddol, cadarnhaodd y BBC ei fod wedi cyflwyno newidiadau i'w broses gwyno er mwyn ei gwneud yn haws ei defnyddio ac yn fwy tryloyw.[216] Er enghraifft, cyflwynodd fideo llawn gwybodaeth sy'n nodi proses gwynion y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd. Ar hyn o bryd mae'r BBC yn datblygu fideo arall a fydd yn egluro'r prif resymau pam mae pobl yn cysylltu ag ef am BBC iPlayer. Mae'r BBC wedi cyflwyno camau cyfeirio gwell ac wedi cyflwyno dolen ar bob un o dudalennau gwe'r BBC o'r enw *'Gwneud cwyn olygyddol'* sy'n mynd â defnyddwyr yn uniongyrchol i'w dudalen lanio ar gyfer cwynion. Mae hefyd yn treialu geiriad ychwanegol ar ei ymatebion i gwynion ac yn nodi cam nesaf y broses gwyno er mwyn helpu i egluro'r broses ymhellach.
- **Adolygiad parhaus o broses gwyno'r BBC** – Mae'r BBC yn cynnal adolygiad parhaus i wella profiad y defnyddiwr ar ei dudalennau gwe ar gwynion sy'n ystyried hygyrchedd y tudalennau. Mae hefyd yn defnyddio meddalwedd i olrhain a gwella ei brosesau sicrhau ansawdd yn barhaus er mwyn helpu i wella tôn a geiriad ei ymatebion i gwynion. Mae'r BBC hefyd yn darparu sesiynau briffio parhaus i'w randdeiliaid allweddol i'w gwneud yn ymwybodol o'u proses delio â chwynion ganolog, gan eu hannog i gyfeirio pob cwyn y gallent ei chael drwy wefan cwynion y BBC.[217]

Rydym yn croesawu'r newidiadau mae'r BBC wedi'u gwneud i'w brosesau delio â chwynion. Fel yr amlinellir yn ein hadolygiad 2022, bydd Ofcom yn cynnal adolygiad pellach o'r system BBC yn Gyntaf cyn diwedd cyfnod y Siarter bresennol er mwyn asesu effaith y newidiadau hyn, a byddwn hefyd yn cynnal ymchwil newydd i ddiweddaru ein dealltwriaeth o ganfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy'r BBC yn ystod y ddwy i dair blynedd nesaf. Ar ben hynny, yn y tymor byrrach, rydym yn bwriadu cynnal rhagor o ymchwil siopwr dirgel ar broses gwynion y BBC i fesur effeithiolrwydd y newidiadau mae'r BBC wedi eu gwneud a byddwn yn adrodd ar ganlyniadau'r gwaith ymchwil hwn y flwyddyn nesaf.

[216] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2022/23, t. 123.
[217] E-bost y BBC i Ofcom ar 20 Hydref 2023.

# 7. Ein sylw yn y flwyddyn i ddod

Yn y flwyddyn i ddod, bydd newid rheoleiddiol gyda ffocws ar wreiddio'r Drwydded Weithredu newydd a rhoi unrhyw argymhellion o Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth ar waith. Ar ben hynny, rydym yn cynnal adolygiad o'r cyfryngau lleol ac ymchwil siopwr dirgel ar broses gwynion y BBC, yn ogystal â pharhau i fonitro perfformiad ac asesu newidiadau'r BBC fel y bo'n briodol.

Mae monitro a chraffu ar berfformiad y BBC yn arbennig o bwysig o dan y Drwydded Weithredu newydd (lle rydym wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC), i sicrhau ein bod yn dal y BBC i gyfrif a bod anghenion cynulleidfaoedd yn cael eu diwallu o dan y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus.

Yn ogystal â gweithredu unrhyw argymhellion o Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth ac ymgymryd â'r Adolygiad Cyfryngau Lleol, mae ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys:

- diweddaru ein dull o gydymffurfio i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r amodau newydd o dan y Drwydded Weithredu;
- parhau i ddatblygu ein dull o asesu perfformiad y BBC;
- canolbwyntio ar fonitro meysydd lle mae'r BBC yn gwneud newidiadau i'w wasanaethau a'i allbwn; a
- dal y BBC i gyfrif am ei ddarpariaeth newyddion, gan sicrhau ei fod yn cadw ei ffocws ar ddidueddrwydd.

## Bydd asesu perfformiad y BBC yn y dyfodol yn ystyried ei hyblygrwydd o dan y Drwydded newydd

Daeth y rhan fwyaf o amodau'r Drwydded Weithredu newydd i rym ar ddechrau blwyddyn ariannol 2023/24, sy'n golygu mai ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC y flwyddyn nesaf fydd y cyntaf i ni adrodd ar berfformiad y BBC ac asesu ei gydymffurfiad o dan y Drwydded Weithredu newydd.

Yn ein datganiad ar *Foderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC*, fe wnaethom egluro sut rydym yn bwriadu monitro ac asesu perfformiad y BBC o dan y Drwydded newydd. Rydym hefyd, fel y soniwyd yn flaenorol, wedi cyhoeddi Fframwaith Mesur Perfformiad wedi'i ddiweddaru ar gyfer asesu perfformiad y BBC.

Bydd yr asesiad o berfformiad y BBC yn dal i gael ei ategu gan egwyddorion argaeledd, defnydd, effaith a ffactorau cyd-destunol.[218] Fodd bynnag, gan fod amodau'r Drwydded Weithredu newydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd ar ei wasanaethau ar-lein, rydym eisiau sicrhau bod ein hasesiad perfformiad yn gallu adlewyrchu'r amodau newydd hyn.

Fel rhan o'r Drwydded Weithredu newydd, rydyn ni hefyd wedi cyflwyno amodau natur unigryw a hwylustod canfod newydd ar gyfer ei wasanaethau ar-lein: BBC iPlayer, BBC Sounds a gwefan y BBC.

### Natur Unigryw Ar-lein

#### Ein dull o asesu natur unigryw ar-lein

Wrth i arferion cyfryngau cynulleidfaoedd barhau i esblygu a mudo ar-lein, bydd darparu allbwn unigryw o ansawdd uchel ar draws ei wasanaethau digidol yn dal yn bwysig i'r BBC allu parhau i

[218] Fe wnaethom gyhoeddi y byddwn yn ehangu cwmpas ein dull o fesur effaith ym mis Gorffennaf eleni.

ddenu a pharhau i fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd. Mae natur unigryw gwasanaethau darlledu'r BBC yn cael ei ddiffinio drwy edrych ar y cyd ar set o fesurau rydyn ni wedi'u galw'n bum colofn natur unigryw.[219]

Yn ein datganiad ar Foderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC, fe wnaethom nodi, er y gallai'r dull o fesur natur unigryw gwasanaethau darlledu'r BBC hefyd fod yn berthnasol i wasanaethau ar-lein y BBC, mae llwyfannau ar-lein yn cynnig elfennau ychwanegol sy'n creu gwasanaethau unigryw.[220] Er enghraifft, gall hwylustod canfod, a'r defnydd o guradu golygyddol ynghyd â phersonoleiddio algorithmig, gyfrannu at natur unigryw y gwasanaeth.[221] Felly, rydym yn bwriadu ehangu ein dull presennol o asesu er mwyn ymgorffori natur unigryw ar-lein.

Mae ein ffocws cychwynnol ar adolygu'r metrigau rydym yn eu defnyddio ar hyn o bryd i fesur natur unigryw i asesu sut maent yn berthnasol i wasanaethau ar-lein a, lle bo hynny'n berthnasol, nodi metrigau newydd sy'n benodol i wasanaeth ar-lein sy'n cysylltu'n ôl â'r fframwaith mesur perfformiad.[222] Byddwn hefyd yn nodi lle mae asesiad ansoddol yn briodol, er enghraifft wrth edrych ar arloesi mewn llwyfannau a chynnwys ac o ran pa mor hawdd yw dod o hyd iddynt (rydym yn edrych ar hyn yn fanylach yn yr adran isod).

Mae ein dull o asesu natur unigryw ar-lein yn debygol o esblygu wrth i wasanaethau'r BBC ddatblygu ac felly mae angen iddo fod yn hyblyg i ymgorffori newidiadau yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â'r BBC er mwyn deall yn well sut mae'n mesur natur unigryw ar-lein.

## Y gallu i ganfod

### Ein dull o asesu pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys.

Rydym yn credu bod hwylustod dod o hyd i gynnwys yn golygu galluogi cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys newydd a phwysig a allai fod o ddiddordeb iddynt ac na fyddent yn dod ar eu traws fel arall.[223] Yn draddodiadol, mae cynulleidfaoedd wedi dod o hyd i gynnwys newydd ar wasanaethau darlledu mewn nifer o ffyrdd, fel amserlennu rhaglenni, yr amserlen rhaglenni electronig (EPG) a thrwy drawshyrwyddo ar sianeli neu wasanaethau eraill. Fodd bynnag, gan fod y BBC yn gallu darparu ar gyfer cynulleidfaoedd ar draws ei amrywiaeth o wasanaethau o dan y Drwydded Weithredu newydd, roeddem wedi gosod gofynion ar y BBC i sicrhau ei fod yn gwneud rhai mathau o gynnwys – gan gynnwys newyddion a materion cyfoes, rhywfaint o ddysgu anffurfiol, a chynnwys gwreiddiol y DU a'r gwledydd a'r rhanbarthau – yn hawdd i'w canfod ar ei wasanaethau ar-lein.

Mae hwylustod canfod yn faes newydd o reoleiddio'r BBC a bydd y BBC yn parhau i fireinio ei ddull o wneud cynnwys yn hygyrch i gynulleidfaoedd. Bydd angen i ni fod yn hyblyg a bydd ein dull o asesu perfformiad y BBC yn adlewyrchu hyn.

Fel rhan o'r broses hon, bydd adroddiadau'r BBC yn erbyn ei ofynion tryloywder o dan y Drwydded Weithredu newydd yn rhan allweddol o'n hasesiad perfformiad dros y flwyddyn nesaf. Yn ei Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad Blynyddol, rydym yn disgwyl i'r BBC ddweud wrthym beth mae'n ei wneud

[219] Diffinnir 'gwasanaethau ac allbwn unigryw' yn Erthygl 63 o'r Siarter, a pharagraff 1 o Atodlen 2 i'r Cytundeb.
[220] O dan y Drwydded Weithredu wreiddiol, roeddem wedi defnyddio'r pum colofn a gafodd eu pwyso a'u mesur yn erbyn mesurau'r fframwaith mesur perfformiad o ran argaeledd, defnydd, effaith a ffactorau cyd-destunol i asesu sut mae'r BBC yn cyflawni natur unigryw ei wasanaethau darlledu.
[221] Ofcom, Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC, 2023, t. 99.
[222] Ofcom, Newidiadau i'n fframwaith ar gyfer asesu perfformiad y BBC.
[223] Ofcom, Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC, 2023.

ar ei wasanaethau ar-lein er mwyn galluogi cynulleidfaoedd i ddod o hyd i fathau penodol o gynnwys yn hawdd, yn unol â'i ofynion.

Fel rhan o'r gwaith o ystyried sut mae'r BBC yn mesur perfformiad, byddwn hefyd yn edrych ar yr effaith ar gynulleidfaoedd. Gallwn wneud hyn drwy ystyried astudiaethau achos a allai roi cipolwg ar berfformiad y BBC a thrwy ymgysylltu'n uniongyrchol â chynulleidfaoedd drwy ymchwil i ddeall eu canfyddiadau a lefelau bodlonrwydd.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC ynghylch pa mor hawdd yw dod o hyd iddo er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ei ddal i gyfrif.

## Byddwn yn parhau i fonitro newidiadau'r BBC ac yn camu i mewn os oes angen

Fel rydym wedi'i nodi, mae'r BBC wrthi'n rhoi newidiadau ar waith yn ei sefydliad ac yn y ffordd mae'n darparu i gynulleidfaoedd ar draws ei bortffolio o wasanaethau. Mae hyn mewn ymateb i amrywiaeth o heriau, gan gynnwys newidiadau parhaus yn ymddygiad cynulleidfaoedd, pwysau cyllido, newidiadau yn y farchnad a datblygiadau technolegol.

Rydym yn cydnabod bod rhai o'r newidiadau hyn (fel y rheini sy'n ymwneud â phenderfyniadau golygyddol neu greadigol) y tu allan i gwmpas ein gwaith o reoleiddio'r BBC. Ond ar gyfer y rheini sydd â'r potensial i effeithio ar gynulleidfaoedd a'r ffordd mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus o dan y Drwydded Weithredu, mae'n bwysig ein bod yn eu monitro'n ofalus er mwyn i ni allu ymyrryd yn gyflym os oes angen.

Yn ogystal ag ymgysylltu'n rheolaidd â'r BBC a rhanddeiliaid, bydd ein gwaith monitro yn defnyddio'r wybodaeth mae'r BBC yn ei darparu ynghylch sut mae'n bwriadu bodloni ei ofynion rheoleiddio a thrwyddedau yn ei Gynllun Blynyddol ac adrodd yn ei Adroddiad Blynyddol. Rydym yn nodi manylion ein dadansoddiad o Gynllun Blynyddol diweddaraf y BBC yn Atodiad 1.

# Atodiadau

Mae'r atodiadau ar gael yma (Saesneg yn unig).